Fel rhan o'r ffurflen, gofynnir i awdurdodau adrodd ar sut mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru ac amcanion strategol. Mae Blaenau Gwent yn adrodd ar ystod o wasanaethau sy'n berthnasol i nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys cymunedau cydlynol, iechyd, ffyniant, cydraddoldeb a materion amgylcheddol. Mae cefnogi trigolion lleol gyda'r argyfwng costau byw wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i Flaenau Gwent. Gyda chau prif swyddfeydd y cyngor (Canolfan Ddinesig) a'r newid i holl ymholiadau cyngor wyneb yn wyneb bellach yn cael eu darparu mewn llyfrgelloedd, trwy ddarparu hybiau cymunedol, mae adeiladau'r llyfrgell yn cael eu hystyried fwyfwy fel lleoliad 'mynd i' i unrhyw un mewn angen, gan gynnwys atgyfeiriadau banciau bwyd, talebau tanwydd, cyngor costau byw, cynhyrchion mislif a pheccynnau cynnes.

Mae gweithgareddau eraill wedi cynnwys Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth newydd gyda sesiynau galw heibio wythnosol yn cael eu cyflwyno ym mhob llyfrgell a chyflwyno'r ymgyrch Mannau Cynnes ym mhob llyfrgell. Mae cefnogaeth i geiswyr gwaith wedi parhau i fod yn agwedd graidd ar ddarpariaeth gwasanaeth llyfrgell, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Mae prosiect cerdyn sim y gwasanaeth, gan weithio gyda'r *Good Things Foundation* a'r Banc Data Cenedlaethol, yn helpu i bontio'r rhaniad digidol ac atal tlodi data o fewn y gymuned.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfarwyddyd a chynlluniau yr awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn y dyfodol dros y flwyddyn ganlynol, mae Blaenau Gwent yn bwriadu adeiladu ar lwyddiant darpariaeth hybiau cymunedol i ehangu ei ymagwedd at waith partneriaeth. Bydd y cynllun i ail-leoli Llyfrgell Abertyleri i leoliad canol tref newydd yn brif ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r adran adfywio i sicrhau cyllid ychwanegol a fydd, os yn llwyddiannus, yn trawsnewid Capel y Drindod, yn llyfrgell fodern, fywiog a chanolfan addysg oedolion gymunedol. Mae cyllid wedi'i sicrhau i recriwtio dau swyddog datblygu llyfrgell newydd o'r ffrwd Ariannu Blaenoriaeth Sgiliau i helpu i dargedu aelodaeth weithredol a nifer yr ymwelwyr. Yn ogystal, mae adolygiad o'r ddarpariaeth TGCh wedi'i chynllunio ar gyfer 23/24, yn benodol gwell Wi-Fi i ddiwallu anghenion amrywiol y gymuned, gan gynnwys ffrydio, fideo gynadledda ac ati.

6. Casgliad

Mae cwsmeriaid Llyfrgelloedd Blaenau Gwent yn amlwg yn gwerthfawrogi eu gwasanaeth; mae boddhad cwsmeriaid yn uwch na'r canolrif ar gyfer y mwyafrif o ddangosyddion. Mae'r gwaith partneriaeth parhaus gyda sefydliadau allweddol yn parhau i fod yn un o gryfderau'r gwasanaeth ac yn galluogi Blaenau Gwent i gefnogi'r anghenion o fewn cymunedau a darparu gweithgareddau priodol. Mae'r gwasanaeth yn amlwg yn gwneud ymdrechion i ymgysylltu â chymunedau mewn ffyrdd arloesol i ymateb i anghenion sy'n newid. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o'r angen i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag aelodaeth weithredol a nifer yr ymwelwyr ac mae ganddo gyllid ar gyfer dau swyddog datblygu llyfrgell newydd i helpu i dargedu hyn.

Mae adroddiad blynyddol y gwasanaeth yn tynnu sylw at sawl newid yn y ffyrdd y mae aelodau'r gymuned leol yn ymgysylltu â llyfrgelloedd, yn rhannol debygol o fod yn gysylltiedig â dynodi llyfrgelloedd fel 'canolfannau cymunedol'. Yn benodol, mae nifer cynyddol o bobl yn treulio cyfnodau hirach yn y llyfrgell mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, a newidiadau mewn patrymau defnyddio TG gyda mwy o gwsmeriaid yn dod â'u dyfeisiau eu hunain i'w defnyddio yn y llyfrgell.

Er bod y gwasanaeth yn cyrraedd y targed ar gyfer gwariant Cymraeg cyfrannol, mae lefel gyffredinol y gwariant ar ddeunyddiau yn bryder, yn enwedig gan fod hyn wedi bod yn broblem barhaus i Flaenau Gwent dros nifer o flynyddoedd. Mae'r ffaith, am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, nad oes swyddi gwag yn y gwasanaeth yn hynod gadarnhaol, er y cydnabyddir nad yw'r gwasanaeth yn gallu cyrraedd targedau staffio a staff cymwys y pen o hyd.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Caerffili

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, y datganiadau effaith a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Gaerffili i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Caerffili gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, mae Caerffili yn cyflawni 7 yn llawn ac un yn rhannol. Ni chyflawnwyd dau darged.

Mae llyfrgelloedd Caerffili yn amlwg yn brysur ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y gymuned leol. Mae ymwelwyr fesul pen yn parhau i fod yn gymharol uchel ac mae Caerffili yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru ar gyfer presenoldeb mewn digwyddiadau llyfrgell fesul pen. Mae'n ymddangos bod y gwariant a dargedwyd at stoc plant yn y flwyddyn flaenorol wedi cael effaith; mae nifer y llyfrau plant a fenthycir wedi cynyddu'n sylweddol ac mae'n uwch na'r canolrif fesul pen. Mae'r gwasanaeth wedi nodi newidiadau o ran arferion defnyddwyr, fel mwy o ddefnydd o Wi-Fi ac apiau yn hytrach na gwefan y llyfrgell. Er y rhagwelir y bydd symud i fodel Hyb Cymunedol yn helpu i leddfu anawsterau staffio, mae'r sefyllfa staffio yng Nghaerffili yn peri pryder. Mae'r nifer mawr o fannau gwasanaeth sydd ag un aelod o staff yn unig yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau mewn meysydd fel cymorth TG. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r gwasanaeth fod yn falch o'i allu i barhau i ddarparu rhaglenni datblygu darllenwyr ac i gadw pob llyfrgell ar agor pan fydd achosion o salwch ac absenoldeb brys. Yn y flwyddyn sydd i ddod, mae'n bwysig bod Caerffili yn cynnal arolygon rheolaidd o ddefnyddwyr unwaith eto, ochr yn ochr â mathau eraill o weithgarwch ymgynghori â chwsmeriaid o bosibl, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion cwsmeriaid yn effeithiol.

- Mae defnyddwyr yn rhoi sgôr uchel i'r hyfforddiant a ddarperir; dywedodd 99% o fynychwyr sesiynau hyfforddi fod yr hyfforddiant wedi eu helpu i gyflawni eu nodau (DA5).
- Mae digwyddiadau llyfrgelloedd yn boblogaidd ymhlith defnyddwyr; mae Caerffili yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru ar gyfer mynychu digwyddiadau fesul pen (DA6).
- Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cael ei gefnogi'n dda mewn cymunedau lleol; mae Caerffili yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru ar gyfer ymweliadau fesul pen (DA8).
- Mae nifer y llyfrau plant a fenthycir wedi cynyddu'n sylweddol ac mae'n uwch na'r canolrif fesul pen (DA8).
- Mae lefel dda o ddarpariaeth TG; mae'r gwasanaeth uwchlaw'r canolrif ar gyfer nifer y cyfrifiaduron fesul pen (DA11).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliau craidd

Nododd Caerffili ei fod wedi bodloni pob un o'r 12 Hawl Craidd yn llawn drwy hunanasesiad, gan ddarparu sylwebaeth fanwl a defnyddiol yn y datganiad ar bob maes dan sylw. Cytunodd yr asesydd annibynnol â'r hunanasesiad.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA), ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Caerffili yn cyflawni 7 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chyflawnwyd 2 darged.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol/Darllen yn Well	√	
iii) Casgliad penodol ar gyfer iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	√	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Caffaeliadau fesul pen	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Heb ei gyflawni
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	x	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	x	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	√	
DA 16 Oriau agor fesul pen	√	Cyflawni'n llawn

2.3. Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes unrhyw dargedau ynghlwm wrth y dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1. Mae'r ffigurau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr holl awdurdodau hynny a ddarparodd ddata yn natganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd a'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod yr amharu a welwyd yn ystod cyfnod y pandemig wedi effeithio ar rai ohonynt o bosibl. O ganlyniad, mae cyfyngiadau ar y graddau y gellid ystyried bod modd cymharu'r data hyn.

Cwblhaodd Caerffili ei arolwg defnyddwyr sy'n oedolion ym mis Mai 2019. Oherwydd pandemig COVID, cafodd yr arolwg oedolion yr oedd disgwyl iddo gael ei gynnal yn ystod mis Mai 2021 ei ohirio a bydd yn cael ei gynnal nawr ym mis Hydref/Tachwedd 2023. Cwblhawyd arolwg defnyddwyr sy'n blant ym mis Tachwedd 2022.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y bobl ifanc sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	58%	16/16	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	41%	=15/16	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau:	99%	=5/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn.

Darparodd Caerffili ddatganiad effaith a oedd yn pwysleisio'r gwerth a geir o weithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau yn Llyfrgell Trecelyn. Gwahoddir cwsmeriaid oedrannus, yn cynnwys y rhai sydd â dementia a'u gofalgwyr, i gymryd rhan mewn sesiynau Amser Plant Bach a rhyngweithio ag aelodau'r Grŵp Plant Bach a staff y llyfrgell. Maent yn cael budd o fod mewn lle cynhwysol a diogel; cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgogol a phleserus; cael cyswllt cymdeithasol; a mwy o ymdeimlad o optimistiaeth. Dywedodd un cwsmer, *"rydyn ni wrth ein bodd yn dod i lawr stâr i'r llyfrgell. Mae'n ein helpu ni i deimlo'n rhan o fywyd lleol bob dydd ac mae e' bendant yn rhoi gwên ar ein hwyneb ac yn gwneud i ni deimlo'n dda..."*

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau ynghlwm wrth y dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, o gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Caerffili ar gyfer 2022-23.

Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle mae 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 o awdurdodau wedi cyflenwi data yn ddangosyddion lle nad oedd data perthnasol ar gael oddi wrth rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	25%	15/16	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	38%	15/16	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	99%	=4/16	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	94%	=4/16	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	=2/17	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	91%	=3/16	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	98%	=5/17	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.5	=5/16	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	10	12/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	33	16/19	5	131	424
DA 6 mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen	274	4/22	13	165	559
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	2,640	3/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	451	15/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	107	=10/22	43	106.5	167
DA 10 Llyfrau Cymraeg a fenthycir fesul pen	41	=17/22	13	53	864
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	8.69	10/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael a gaiff ei ddefnyddio gan y cyhoedd	9%	=13/19	7%	11%	77%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau ⁷					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	4	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	178	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£15,557	4/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	57%	19/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	10%	15/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	29%	1/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	3%	20/21	1%	15%	35%
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£0	=12/21	-£479	£145	£2,865

⁷ Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 15 Cost net am bob ymweliad ⁸	£0.41	1/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ⁹					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0.58%	21/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0%	=1/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae gan lyfrgelloedd Caerffili ffocws cryf ar gefnogi iechyd meddwl a lles; mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cefnogi llawer o bartneriaid, gan gynnwys Grŵp Anhwylderau Bwyta Arbenigol, Grwpiau Awtistiaeth Integredig a grŵp Tylino Babanod (DA4). Roedd pob un o'r 18 o lyfrgelloedd yn cynnig diodydd poeth a lluniaeth fel rhan o'r ymgyrch Mannau Cynnes a llwyddodd y gwasanaeth i sicrhau cyllid grant i agor Llyfrgell Llanbradach am ddiwrnod ychwanegol am gyfnod o 10 wythnos i helpu trigolion sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â'r argyfwng costau byw. Mae llyfrgelloedd hybiau ym Margoed, y Coed-duon, Caerffili a Rhisga yn hwyluso sesiynau Cwrdd a Chyfarch a Chyfeirio ar gyfer Swyddogion Cyswllt Teuluoedd o Wlad Pŵyl a Wcráin. Er mai dim ond un aelod o staff sy'n gweithio yn 11 o'r 18 o lyfrgelloedd erbyn hyn, mae'r gwasanaeth wedi parhau i ddarparu rhaglenni datblygu darllenwyr a gweithgareddau ar gyfer oedolion a phlant (DA3).

Mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau, mae'r llyfrgell yn darparu cymorth '1-2-1' mewn llythrennedd digidol drwy sesiynau Clic Cyntaf, Dydd Gwener Digidol ac Addysg Gymunedol. Mae presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi i ddefnyddwyr a drefnir ymlaen llaw oddeutu'r canolrif, a dywedodd 99% o fynychwyr sesiynau hyfforddi fod yr hyfforddiant wedi eu helpu i gyflawni eu nodau (DA5). Mae presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi anffurfiol yn is na'r canolrif a nodir yr heriau a wynebir o ran cynnig cymorth TG dwys mewn lleoliadau ag un aelod o staff a'r ffaith bod partneriaid yn darparu llai o gyrsiau digidol.

Nododd yr arolwg diweddaraf fod y gwasanaeth yn perfformio'n dda o ran Bodlonrwydd Cwsmeriaid (DA2), ond roedd perfformiad ar gyfer Gwneud Gwahaniaeth (DA1) yn is na'r canolrif ar gyfer y rhan fwyaf o fesurau. Mae'n bwysig bod Caerffili yn cynnal arolwg defnyddwyr sy'n oedolion yn 2023 fel y bwriadwyd ac, os bydd angen, yn ymgynghori â chwsmeriaid ymhellach, er mwyn archwilio rhesymau posibl am y gwahaniaeth hwn.

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Cynhaliodd Caerffili dros 5,000 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn ac mae yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru ar gyfer presenoldeb mewn digwyddiadau fesul pen (DA6). Er iddo nodi gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â

⁸ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

⁹ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

llyfrgelloedd eleni, mae Caerffili yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru ar gyfer ymweliadau fesul pen. Mae'r gwasanaeth yn nodi cynnydd yn nifer y benthycwyr gweithredol, ac mae hyn yn agos at y canolrif (DA8). Mae nifer y llyfrau plant a fenthycir wedi cynyddu'n sylweddol ac mae'n uwch na'r canolrif fesul pen. Er ei fod wedi gweld cynnydd mewn defnydd, mae Caerffili yn is na'r canolrif ar gyfer rhith-ymweliadau (DA8). Fodd bynnag, mae'r llyfrgell yn nodi bod llawer o drigolion yn troi at apiau fel Pori a Borrowbox erbyn hyn, yn hytrach nag ymweld â thudalennau gwe'r llyfrgell i gael mynediad.

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Nid yw Caerffili yn cyrraedd y targed ar gyfer caffael deunyddiau darllen (DA9). Fodd bynnag, mae'r gwariant ar ddeunyddiau fesul pen uwchlaw'r canolrif ac mae'r gwasanaeth yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer cyfran y gwariant ar adnoddau i blant. Er bod Caerffili yn cyrraedd y targed ar gyfer cyfran y gwariant ar adnoddau Cymraeg, mae nifer y llyfrau Cymraeg a fenthycir fesul pen yn is na'r canolrif (DA10). Mae'r gwasanaeth yn nodi bod llyfrau Cymraeg i blant yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r gwariant a'r benthyciadau.

Mae'r gwasanaeth uwchlaw'r canolrif ar gyfer nifer y cyfrifiaduron fesul pen (DA11), er bod y nifer wedi lleihau yn sgil y ffaith bod angen i'r gwasanaeth llyfrgell ddiweddarau pob un o'i gyfrifiaduron personol. Mae mwy o ddefnydd o Wi-Fi a llai o ddefnyddio o gyfrifiaduron sefydlog yn awgrymu bod mwy o gwsmeriaid yn defnyddio eu dyfeisiau eu hunain mewn llyfrgelloedd. Nid yw Caerffili wedi cyrraedd y safon ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA12). Mae'n bosibl bod gwaith adnewyddu llyfrgelloedd a chau llyfrgelloedd dros dro wedi effeithio ar hyn.

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Nid yw Caerffili yn cyrraedd y targed ar gyfer staff na swyddi cymwys fesul pen (DA13). Yn ystod 2019/2020, oherwydd gostyngiadau yn y gyllideb, cynhaliodd y gwasanaeth llyfrgell ail broses ail-alinio staff. Gydag amser, daeth chwe man gwasanaeth arall yn fannau gydag un aelod o staff yn unig, gan wneud cyfanswm o 11 allan o 18. Cafwyd gwared ar dair swydd broffesiynol o'r strwythur ac ychwanegwyd un swydd broffesiynol. Ar hyn o bryd, mae deiliad y swydd yn ymgymryd ag astudiaeth llyfrgellyddiaeth broffesiynol. Mae nifer o'r swyddi yn y gwasanaeth yn rhai tymor sefydlog hefyd oherwydd y gostyngiad a ragwelir yn y gyllideb. Mae canran y gwariant gweithredol a ddyrennir i staff yn is na'r canolrif (DA15). Er na ddisgwylir i nifer y staff sy'n gweithio yn y llyfrgelloedd gynyddu, mae'r gwasanaeth yn rhagweld y bydd symud i fodel Hyb Cymunedol yn helpu i leddfu anawsterau staffio. Nid oes unrhyw amharu wedi bod i wasanaethau danfon i'r cartref Caerffili, ond mae canran y gwasanaethau sefydlog sydd wedi cau yn annisgwyl yn uwch na'r canolrif ar ôl tân bwriadol yn Llyfrgell Llanbradach a phroblem cyflenwi dŵr yn Llyfrgell Tredegar Newydd (DA16).

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Caerffili yn tynnu sylw at gyfraniad y gwasanaeth llyfrgell at y strategaethau canlynol:

- **‘Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol’ – thema allweddol ‘Uchelgeisiol ac yn Dysgu’** – er enghraifft, rhaglen newydd ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion o gwmpas y themâu allweddol Darllen, Gwybodaeth a Dysgu i helpu ysgolion i rymuso disgyblion a gwella eu perfformiad mewn meysydd fel geirfa, deall, datrys problemau, ac ymwybyddiaeth o lythrennedd digidol a gwybodaeth.
- **‘Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol’ – thema allweddol ‘Ffyniannus a Diogel’** – er enghraifft, mae’r gwasanaeth llyfrgell yn cefnogi partneriaid gan gynnwys Pontydd i Waith ac Ysbrydoli i Weithio.
- **‘Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol’ – thema allweddol ‘Iach ac Egnïol’** – er enghraifft, mae’r gwasanaeth llyfrgell wedi ymrwymo’n llawn i’r cynlluniau canlynol sy’n gysylltiedig ag iechyd: Cynllun Presgripsiwn Llyfrau / Darllen yn Well gyda Dementia / Darllen yn Well ar gyfer Iechyd Meddwl / Darllen yn Well ar gyfer Plant / Darllen yn Well ar gyfer Plant yn eu Harddegau / Empathy Lab / Iechyd Da.
- **‘Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol’ – thema allweddol ‘Unedig a Chysylltiedig’** – er enghraifft, mae’r gwasanaeth yn cefnogi Grwpiau Darllen Cymraeg a’r Clwb *Scrabble* Cymraeg.

5. Cyfeiriad i’r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn ddilynol, mae Caerffili yn cyfeirio at Gynllun Gweithredu a Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Caerffili 2020 – 2022, sy’n nodi bod y gwasanaeth llyfrgell yn ‘angor cymunedol’ ac yn wasanaeth rheng flaen sy’n gweithio i sicrhau adferiad economaidd, addysgol a digidol ar ôl Covid. Mae’r strategaeth hon yn nodi’r targedau canlynol:

1. Mae llyfrgelloedd yn parhau i gefnogi plant, oedolion ifanc, a theuluoedd.
2. Cefnogi cymuned bwrdeistref Caerffili drwy’r argyfwng Costau Byw.
3. Uwchraddio a chymorth TGCh / Digidol ar gyfer y gweithlu a datblygiadau i’r gwasanaeth llyfrgell.
4. Datblygiadau o ran adeiladau llyfrgelloedd.
5. Adnoddau Stoc Llyfrgelloedd a Rheoli Casglu.

Caiff y gwasanaeth llyfrgell ei lywodraethu gan Gynllun Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod Lleol 2019-2023. Ni chafodd unrhyw gynigion i wneud arbedion o ran y gwasanaeth llyfrgell eu nodi yn ystod 2021/22 na 2022/23, ond mae’r gwasanaeth yn cydnabod y gall effaith pandemig COVID-19, yr argyfwng costau byw a chyfyngiadau ariannol eraill effeithio ar wasanaethau llyfrgell wrth symud ymlaen ac y gall fod cyfyngiadau ariannol eraill yn bosibl hyd at fis Mawrth 2025.

6. Casgliad

Mae llyfrgelloedd Caerffili yn amlwg yn brysur ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y gymuned leol. Mae ymwelwyr fesul pen yn parhau i fod yn gymharol uchel ac mae Caerffili yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru ar gyfer presenoldeb mewn digwyddiadau llyfrgell fesul pen. Mae’n ymddangos bod y gwariant a dargedwyd at stoc plant yn y flwyddyn flaenorol wedi cael effaith; mae nifer y llyfrau plant a fenthycir wedi cynyddu’n sylweddol ac mae’n uwch na’r canolrif

fesul pen. Mae'r gwasanaeth wedi nodi newidiadau o ran arferion defnyddwyr, fel mwy o ddefnydd o Wi-Fi ac apiau yn hytrach na gwefan y llyfrgell. Er y rhagwelir y bydd symud i fodel Hyb Cymunedol yn helpu i leddfu anawsterau staffio, mae'r sefyllfa staffio yng Nghaerffili yn peri pryder. Mae'r nifer mawr o fannau gwasanaeth ag un aelod o staff yn unig yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau mewn meysydd fel cymorth TG. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r gwasanaeth fod yn falch o'i allu i barhau i ddarparu rhaglenni datblygu darllenwyr ac i gadw pob llyfrgell ar agor pan fydd achosion o salwch ac absenoldeb brys. Yn y flwyddyn sydd i ddod, mae'n bwysig bod Caerffili yn cynnal arolygon rheolaidd o ddefnyddwyr unwaith eto, ochr yn ochr â mathau eraill o weithgarwch ymgynghori â chwsmeriaid o bosibl, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion cwsmeriaid yn effeithiol.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Caerdydd

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, y datganiadau effaith a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Gaerdydd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Caerdydd gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, mae Caerdydd yn cyflawni 9 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Caerdydd yn parhau i berfformio'n gryf yn y rhan fwyaf o feysydd. Mae'r gwasanaeth yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau a gwasanaethau i gefnogi ei gymunedau amrywiol ac, yn benodol, mae wedi parhau â'i ymrwymiad cryf i iechyd a lles. Caiff hyn ei gydnabod gan gwsmeriaid llyfrgelloedd sy'n teimlo bod y llyfrgell yn gwneud gwahaniaeth o ran datblygu sgiliau ac iechyd a lles. Mae'r gwasanaeth yn gryf o ran ei ddarpariaeth i blant a hefyd o ran hyfforddiant i ddefnyddwyr a digwyddiadau sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Mae ymwybyddiaeth bod patrymau ymgysylltu â llyfrgelloedd yn newid, er enghraifft, mewn perthynas â darpariaeth ddigidol. Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth fel rhan o'i fodel llyfrgelloedd a hybiau. Er bod lefelau staffio ac arweinyddiaeth broffesiynol cyffredinol yn cyrraedd y targedau, mae'r lefel isel o staff proffesiynol yn parhau i beri pryder.

- Mae Caerdydd yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer oedolion sy'n teimlo bod y llyfrgell yn gwneud gwahaniaeth o ran datblygu sgiliau, ac iechyd a lles (DA1).
- Mae defnyddwyr yn rhoi sgôr uchel i'r hyfforddiant a ddarperir; dywedodd 100% o fynychwyr sesiynau hyfforddi fod yr hyfforddiant wedi eu helpu i gyflawni eu nodau (DA5).
- Mae Caerdydd yn y chwarter uchaf o wasanaethau llyfrgell ar gyfer nifer yr ymweliadau a rhith-ymweliadau fesul pen (DA8).
- Mae adnoddau plant yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth; mae yn y chwarter uchaf o wasanaethau llyfrgell ar gyfer % y gwariant ar ddeunyddiau adnoddau plant (DA9).
- Caerdydd yw'r unig awdurdod llyfrgell yng Nghymru sydd wedi cyrraedd y targed ar gyfer lefelau staff fesul pen (DA13).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliau craidd

Nododd Caerdydd ei fod wedi bodloni pob un o'r 12 Hawl Craidd yn llawn drwy hunanasesiad, gan ddarparu sylwebaeth ddefnyddiol. Cytunodd yr asesydd annibynnol â'r hunanasesiad.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA), ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Caerdydd yn cyflawni 9 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol/Darllen yn Well	√	
iii) Casgliad penodol ar gyfer iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	√	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad manau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Caffaeliadau fesul pen	√	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	-	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	√	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	√	
DA 16 Oriau agor fesul pen	√	Cyflawni'n llawn

2.3. Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau ynghlwm wrth y dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1. Mae'r ffigurau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr holl awdurdodau hynny a ddarparodd ddata yn natganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd a'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod yr amharu a welwyd yn ystod cyfnod y pandemig wedi effeithio ar rai ohonynt o bosibl. O ganlyniad, mae cyfyngiadau ar y graddau y gellid ystyried bod modd cymharu'r data hyn.

Cwblhaodd Caerdydd ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion a defnyddwyr sy'n blant ym mis Medi 2022.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y bobl ifanc sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	93%	=5/16	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	78%	=13/16	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau:	100%	=1/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn.

Darparodd Caerdydd ddatganiad effaith a oedd yn canolbwyntio ar brofiad cwsmer ag iechyd gwael a oedd yn wynebu mwy o ynysu cymdeithasol yn dilyn marwolaeth ei wraig. Soniodd ef am y gwerth sydd ynghlwm wrth gymryd rhan mewn digwyddiadau gwahanol mewn Hybiau Cymunedol ac yn y gymuned. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys taith i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol, teithiau cerdded a chwarae gemau mewn ymgynulliadau wythnosol yn Hyb Powerhouse yn Llanedeyrn. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cyfrannu at ei ymdeimlad o les, cyfeillgarwch ac ymgysylltiad â'r gymuned.

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau ynghlwm wrth y dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, o gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Caerdydd ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle mae 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 o awdurdodau wedi cyflenwi data yn ddangosyddion lle nad oedd data perthnasol ar gael oddi wrth rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	89%	2/16	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	94%	1/16	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	96%	13/16	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	80%	16/16	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	92%	17/17	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	69%	15/16	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	95%	=15/17	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	8.0	16/16	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	222	1/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	253	6/19	5	131	424
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen	271	5/22	13	165	559
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	4,814	1/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	7,979	1/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	107	=10/22	43	106.5	167
DA 10 Llyfrau Cymraeg a fenthycir fesul pen	247	5/22	13	53	864
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	8.87	8/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael a gaiff ei ddefnyddio gan y cyhoedd	10%	=11/19	7%	11%	77%

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau ¹⁰					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	256	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	6,836	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£27,330	1/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	65%	10/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	5%	21/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	24%	2/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	5%	19/21	1%	15%	35%
c) cyfanswm gwariant fesul pen	£2,865	1/21	-£479	£145	£2,865
DA 15 Cost net am bob ymweliad ¹¹	£1.29	3/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ¹²					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0.004%	9/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.17%	14/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae Caerdydd yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer oedolion sy'n teimlo bod y llyfrgell yn gwneud gwahaniaeth o ran datblygu sgiliau ac iechyd a lles (DA1). Mae'r gwasanaeth wedi mynd ati i ddatblygu nifer o fentrau arloesol sy'n gysylltiedig â lles, gan gynnwys sgriniau digidol sy'n arddangos gwybodaeth am iechyd a lles; cyfieithu fideos Cancer Research UK i mewn i ieithoedd cymunedol; ymgorffori gweithgarwch corfforol mewn sesiynau amser stori; llyfrgell chwaraeon sy'n benthyg offer; a gweithgareddau corfforol ar gyfer pobl hŷn (DA4).

Roedd presenoldeb defnyddwyr mewn sesiynau hyfforddi yn y chwarter uchaf a dywedodd 100% o fynychwyr sesiynau hyfforddi fod yr hyfforddiant wedi eu helpu i gyflawni eu nodau (DA5). Mae Caerdydd yn darparu rhaglen o gyfleoedd hyfforddi gan gynnwys hyfforddiant i mewn i waith; cymorth i denantiaid y Cyngor; a rhaglenni addysg oedolion ar gyfer cyflogadwyedd a hamdden. Fodd bynnag, er gwaethaf canlyniadau cadarnhaol mewn meysydd eraill, mae'r gwasanaeth islaw'r canolrif ar gyfer mesurau bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2); mae Caerdydd wedi cael sgôr llai cadarnhaol na gwasanaethau eraill ar gyfer mesurau gan gynnwys cyfleusterau TG a dewis llyfrau, er bod y sgoriau yn dal i fod yn uchel.

¹⁰ *Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.*

¹¹ *Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

¹² *Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Caerdydd yn y chwarterl uchaf o wasanaethau llyfrgell ar gyfer nifer yr ymweliadau a rhith-ymweliadau fesul pen. Mae hefyd uwchlaw'r canolrif ar gyfer benthydwyr gweithredol fesul pen (DA8). Er nad yw ymweliadau ffisegol wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig o hyd, mae rhith-ymweliadau wedi cynyddu'n sylweddol. Mae mwy o lyfrau plant yn cael eu benthyca ac mae'r gwasanaeth yn y chwarterl uchaf ar gyfer nifer y llyfrau plant a fenthycir fesul pen. Mae'r galw am ddeunyddiau darllen digidol yn parhau i gynyddu'n gyflym hefyd. Mae Hyb Rhiwbeina ar ei newydd wedd, a lanswyd ym mis Ionawr 2023, yn dangos ffocws y gwasanaeth llyfrgell ar ddarparu manau cymunedol bywiog. Mae presenoldeb mewn digwyddiadau uwchlaw'r canolrif (DA6). Mae rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer oedolion wedi cael ei darparu drwy'r Hybiau Cymunedol dros y 12 mis diwethaf, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol ac unigrwydd. Mae sefydliadau partner yn defnyddio Hybiau/Llyfrgelloedd fel lleoliadau ar gyfer darparu gweithgareddau lles. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau i blant, gyda gweithgareddau ar draws yr ystod oedran.

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae Caerdydd yn parhau i sicrhau bod y casgliadau plant yn cael eu blaenoriaethu gyda chynnydd yn yr arian a ddyrennir o'r gyllideb yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gwasanaeth yn y chwarterl uchaf o wasanaethau llyfrgell ar gyfer canran y gyllideb a ddyrennir i adnoddau plant (DA9). Mae nifer y llyfrau Cymraeg a fenthycir fesul pen cryn dipyn yn uwch na'r canolrif (DA10). Mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio gyda dewiswr Cymraeg newydd ac mae hyn, yn rhannol, wedi arwain at gasgliadau gwell. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i gasgliadau Cymraeg LHDTTC+, gyda chefnogaeth Paned o Gê. Mae Caerdydd yn y chwarterl uchaf o wasanaethau ar gyfer ceisiadau a gyflenwir o fewn 7 a 14 diwrnod (DA12).

Mae nifer y cyfrifiaduron personol fesul pen uwchlaw'r canolrif (DA11). Mae gostyngiad wedi bod yn y defnydd o gyfrifiaduron personol cyhoeddus, sy'n cael ei briodoli i'r ffaith bod mwy o gwsmeriaid yn dod â'u dyfeisiau eu hunain ac yn cyrchu cyfleusterau Wi-Fi am ddim. Mae cyflwyniadau diweddar i'r gwasanaeth TG yn cynnwys argraffu Wi-Fi ac ap fideo iaith arwyddion sy'n caniatáu i gwsmeriaid byddar gyfathrebu'n uniongyrchol â dehonglwyr.

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Caerdydd yw'r unig awdurdod llyfrgelloedd yng Nghymru sydd wedi cyrraedd y targed ar gyfer lefelau staff fesul pen. Fodd bynnag, er bod arweinyddiaeth gymwys ar waith o hyd, mae'n is na'r canolrif ar gyfer nifer y staff cymwysedig fesul pen (DA13). Mae Caerdydd cryn dipyn yn uwch na'r canolrif ar gyfer nifer y gwirfoddolwyr ac oriau gwirfoddolwyr. Eleni, mae rheolwr gwirfoddoli cymunedol a mentor gwirfoddoli cymunedol wedi cael eu recriwtio, gyda'r nod o ehangu cyrhaeddiad ac effaith y rhaglen gwirfoddolwyr cymunedol. Gwelwyd lefelau uchel o amharu ar y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (DA16). Mae Caerdydd yn nodi bod y materion a brofwyd yn ymwneud yn bennaf â salwch staff a thraffig a oedd yn golygu bod yn rhaid agor yn hwyr. Mae'r gwasanaeth yn y chwarterl uchaf o awdurdodau

llyfrgelloedd ar gyfer gwariant gweithredol (DA14). Fodd bynnag, mae gan Gaerdydd un o'r ffigurau isaf ar gyfer cost net fesul ymweliad (DA15).

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Caerdydd yn nodi bod y gwasanaeth yn parhau i chwarae rhan allweddol o ran ymrwymadau strategol y Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio. Mae Hybiau yn darparu mannau cymunedol lle gall pobl hŷn gwrdd, cysylltu, dysgu a chynnal ymdeimlad o ddiben, yn ogystal â manteisio ar weithgareddau a all eu helpu i aros yn iach ac yn annibynnol. Mae'r gwasanaeth yn darparu rhaglen gymunedol ar gyfer pobl hŷn sy'n anelu at fynd i'r afael ag unigrwydd a lleihau ynysu cymdeithasol. Mae plant yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu potensial drwy ddarparu cymorth dysgu a llythrennedd, a thrwy raglen o ddigwyddiadau am ddim sy'n anelu at ysbrydoli a chefnogi datblygiad sgiliau STEM. Caiff uchelgeisiau o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru eu cefnogi drwy gasgliadau Cymraeg a rhaglenni gweithgareddau. Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglenni ymgysylltu iechyd er mwyn helpu i adeiladu Caerdydd Iachach, gan gynnwys gweithredu fel cyfrwng ar gyfer rhoi gwybodaeth am iechyd i'r cyhoedd, grwpiau cymorth cymheiriaid, gweithgareddau partner a rhaglenni atal.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn sydd i ddod, mae lles yn ffocws allweddol i Gaerdydd wrth iddo weithio gyda phartneriaid i gyflawni prosiectau, gan gynnwys bibliotherapi a Dechrau'n Iach, Byw'n Iach a Heneiddio'n Iach. Bydd y gwasanaeth hefyd yn cyfrannu at les diwylliannol ac yn datblygu casgliadau sy'n alinio â chymunedau unigol er mwyn sicrhau bod pob cwsmer yn gallu uniaethu â'r casgliadau llyfrau yn ei Lyfrgell/Hyb Lleol. Bydd gwaith cynllunio casgliadau yn allweddol wrth i'r gwasanaeth weithio i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid, gan gynnwys monitro tueddiadau sy'n newid ymhlith cwsmeriaid mewn perthynas â llyfrau ffisegol a digidol.

6. Casgliad

Mae Caerdydd yn parhau i berfformio'n gryf yn y rhan fwyaf o feysydd. Mae'r gwasanaeth yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau a gwasanaethau i gefnogi ei gymunedau amrywiol ac, yn benodol, mae wedi parhau â'i ymrwymiad cryf i iechyd a lles. Caiff hyn ei gydnabod gan gwsmeriaid llyfrgelloedd sy'n teimlo bod y llyfrgell yn gwneud gwahaniaeth o ran datblygu sgiliau ac iechyd a lles. Mae'r gwasanaeth yn gryf o ran ei ddarpariaeth i blant a hefyd o ran hyfforddiant i ddefnyddwyr a digwyddiadau sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Mae ymwybyddiaeth bod patrymau ymgysylltu â llyfrgelloedd yn newid, er enghraifft, mewn perthynas â ddarpariaeth ddigidol. Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth fel rhan o'i fodel llyfrgelloedd a hybiau. Er bod lefelau staffio ac arweinyddiaeth broffesiynol cyffredinol yn cyrraedd y targedau, mae'r lefel isel o staff proffesiynol yn parhau i beri pryder.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Sir Gaerfyrddin

Hysbysiad cywiro

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol, darganfuwyd anghywirdeb yn y data a ddarparwyd ar gyfer nifer y gwasanaethau sefydlog sydd ar agor 10+ awr. Y rhif cywir yw 11, tra bod yr adroddiad yn nodi 12. Mae'r data cywir yn golygu bod DAau 3,4 a 6 wedi'u bodloni mewn gwirionedd, heb eu diwallu fel y manylir yn yr adroddiad. Yn y crynodeb gweithredol dywedodd y datganiad: "Cyflawnodd Sir Gaerfyrddin bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae Sir Gaerfyrddin yn cyflawni **5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chyflawnwyd pedwar targed**" gyda'r canlynol:

"Cyflawnodd Sir Gaerfyrddin bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae Sir Gaerfyrddin yn **cyflawni 8 yn llawn ac 1 yn rhannol. 1 targed ddim yn cael ei gyflawni.**"

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Sir Gaerfyrddin i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Sir Gaerfyrddin gyflawni'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, gwnaeth Sir Gaerfyrddin gyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chyflawnwyd pedwar targed.

Mae Sir Gaerfyrddin yn perfformio'n dda mewn sawl maes. Mae oedolion a phlant yn rhoi sgôr uchel i'w wasanaethau ac mae'r llyfrgell yn cydweithio â sefydliadau partner i annog defnyddwyr newydd i'r llyfrgell. Er bod nifer y benthycwyr gweithredol yn is na'r canolrif, roedd benthyciadau llyfrau oedolion a phlant, yn ogystal â benthyciadau Cymraeg fesul pen, yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd Cymru. Fodd bynnag, fe wnaeth cau Llyfrgell Cross Hands dros dro effeithio ar allu'r gwasanaeth i gyrraedd nifer o dargedau eleni. Nodir bod y gwasanaeth llyfrgell yn gweithio gyda'r awdurdod a sefydliadau lleol i adleoli'r llyfrgell, er nad oes gwybodaeth ar gael am ddyddiad ailagor posibl. Mae Sir Gaerfyrddin yn archwilio opsiynau hunanwasanaeth i helpu i ymestyn yr oriau agor mewn ardaloedd gwledig.

- Mae 100% o'r oedolion a holwyd yn profi'r llyfrgell fel un pleserus, diogel a chynhwysol (DA1).
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi gan gwsmeriaid; nododd 100% o'r cwsmeriaid a arolygwyd bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda' yn gyffredinol (DA2).
- Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda ar benthyciadau llyfrau; Mae benthyciadau llyfrau oedolion a phlant y pen yn Sir Gaerfyrddin yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd Cymru (QI8).
- Mae Sir Gaerfyrddin yn y chwarterl uchaf o wasanaethau llyfrgell ar gyfer gwariant deunyddiau fesul pen (DA9).
- Mae Sir Gaerfyrddin yn y chwarterl uchaf o wasanaethau llyfrgell am nifer y staff cymwys fesul pen (DA13).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliau craidd

Nododd Sir Gaerfyrddin ei fod wedi bodloni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesiad, gan ddarparu sylwebaeth fanwl a defnyddiol yn y datganiad ar bob maes dan sylw. Cytunodd yr asesydd annibynnol â'r hunanasesiad.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Sir Gaerfyrddin yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chyflawnwyd pedwar targed.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Heb ei gyflawni
a) Cymorth TGCh	X	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	X	
c) Cymorth e-lywodraeth	X	
d) Datblygu darllenwyr	X	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Heb ei gyflawni
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	X	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	X	
iii) Casgliad penodol ar iechyd a lles	X	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	X	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	X	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	X	Heb ei gyflawni
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Caffael fesul pen	√	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	√	
DA 10 Adnoddau yn Gymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar ddeunyddiau Cymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
(a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
(a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	√	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	√	
DA 16 Oriau agor fesul pen	X	Heb ei gyflawni

2.3. Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi anelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Mae'r ffigyrau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n darparu data yn y datganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod eraill o bosibl wedi'u heffeithio gan amhariad yn ystod cyfnod y pandemig. O ganlyniad, mae cyfyngiadau i ba raddau y gellid ystyried cymharu'r data hyn.

Cwblhaodd Sir Gaerfyrddin ei arolwg defnyddwyr sy'n oedolion a phlant ym mis Chwefror 2023.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	95%	3/16	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	91%	6/16	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau.	99%	5/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn.

Darparodd Sir Gaerfyrddin ddatganiad effaith a oedd yn adrodd ar lwyddiant a chyflwyniad prosiect peilot 'iPads at the Bedside'. Ceisiodd y cynllun peilot, dan arweiniad Ymddiriedolaeth Hywel Dda, ddarparu iPad i gleifion ar Ward Mynydd Mawr yn Ysbyty Tywysog Phillip at ddibenion cyfathrebu ac adloniant yn ystod eu hadferiad tymor canolig i dymor hir. Ymunodd Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin, sy'n awyddus i ddarparu gwasanaethau TG clyfar i gwsmeriaid llyfrgelloedd, â'r prosiect i gefnogi'r cynnig digidol gan ddarparu dau adnodd ar-lein allweddol gan gynnwys deunyddiau sain. Arweiniodd y cynllun peilot llwyddiannus at ehangu'r gwasanaeth ar draws rhwydwaith Hywell Dda gyda channoedd o gofrestrïadau llyfrgell newydd yn

cael eu cofnodi'n wythnosol a chefnogaeth barhaus yn cael ei darparu gan Lyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin. Adroddwyd bod cleifion wedi elwa o'r gwasanaeth gydag adborth gan y rhai oedd yn ymwneud â'r prosiect yn cynnwys: *"Rwy'n ddiolchgar iawn am yr holl gyngor a chymorth a dderbyniwyd gan y Llyfrgell ac rwy'n gadarnhaol bod y cleifion wedi cael budd o'r gwasanaethau hyn yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol."*

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	86%	3/16	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	71%	6/16	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	100%	=1/16	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau	97%	2/16	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	=2/17	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	87%	=7/16	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	100%	=1/17	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.7	=1/16	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	11	=10/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	151	8/19	5	131	424
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen					
	166	11/22	13	165	559
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	1,777	16/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	956	6/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	48	21/22	43	106.5	167
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen					
	864	1/22	13	53	864
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	15.62	3/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	7%	=17/19	7%	11%	77%

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau ¹³					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	13	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	708	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£18,165	3/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	60%	=17/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	13%	=7/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	4%	=9/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	23%	=4/21	1%	15%	35%
c) cyfanswm gwariant fesul pen	-£479	21/21	-£479	£145	£2,865
DA 15 Cost net am bob ymweliad ¹⁴	£4.68	18/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ¹⁵					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0.05%	=11/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.94%	16/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae cwsmeriaid yn rhoi sgôr uchel i lyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin; mae adborth yr arolwg yn dangos bod y gwasanaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer holl Ddangosyddion Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd Cwsmeriaid (DA2). Mae'n cael sgôr arbennig o uchel gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau (sgôr allan o ddeg); oedolion sy'n profi'r llyfrgell fel un pleserus, diogel a chynhwysol; a chwsmeriaid yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda iawn' yn gyffredinol. Oherwydd cau Llyfrgell Cross Hands dros dro, ni lwyddodd Sir Gaerfyrddin i gyrraedd y targedau ar gyfer Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol (DA3) na Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant (DA4) gan fod nifer y safleoedd lle roedd cefnogaeth ar gael wedi gostwng i 11. Mae presenoldeb mewn hyfforddiant defnyddwyr a hyfforddiant anffurfiol fesul pen yn uwch na'r canolrif a dywedodd 99% o'r mynychwyr fod yr hyfforddiant wedi eu helpu i gyflawni eu nodau (DA5). Mae cydweithio ag adrannau mewnol y cyngor a sefydliadau fel y Scarlets, Fusion, Cymunedau am Waith a Mwy, Spice a Chynghorau Tref yn caniatáu i'r gwasanaeth gyrraedd a chyfathrebu ag unigolion nad ydynt o bosibl wedi defnyddio'r llyfrgell o'r blaen.

¹³Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.

¹⁴Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

¹⁵Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir Gaerfyrddin islaw'r canolrif ar gyfer nifer yr ymweliadau a benthycwyr gweithredol fesul pen (DA8). Er gwaethaf hyn, mae'r gwasanaeth yn adrodd bod benthyciadau llyfrau oedolion a phlant yn parhau i gynyddu o'i gymharu â 2021/22 wrth i bobl ddychwelyd i ddefnyddio llyfrgelloedd wedi'r pandemig. Mae benthyciadau llyfrau oedolion a phlant fesul pen yn Sir Gaerfyrddin yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd Cymru. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer rhith-ymweliadau fesul pen. Effeithiodd cau Llyfrgell Cross Hands dros dro ar allu Sir Gaerfyrddin i gyrraedd y targed ar gyfer DA6. Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd presenoldeb mewn digwyddiadau fesul pen o gwmpas y canolrif. Mae'r gwasanaethau'n cynnig ystod eang o ddiwyddiadau, gan gynnwys sesiynau Gofod Gwneud a 'Chlwb Croeso Cynnes y Gaeaf'.

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae Sir Gaerfyrddin yn y chwarterl uchaf o wasanaethau llyfrgell ar gyfer gwariant deunyddiau fesul pen (DA9). Mae'r gwasanaeth wedi parhau â'i fuddsoddiad mewn deunyddiau Cymraeg, ac mae benthyciadau Cymraeg fesul pen ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd (DA10). Mae'r gwasanaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer nifer y cyfrifiaduron fesul pen, ond yn y chwarterl isaf ar gyfer canran yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd (DA11). Mae hyn yn debygol o fod, yn rhannol, oherwydd nad yw'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn gallu adrodd oriau defnyddio'r 110 o iPads/*hubblets* (tabledi hunanwasanaeth). Dim ond tua diwedd y flwyddyn y dychwelodd sefydliadau sy'n darparu cyrsiau TG, cymorth chwilio am swydd, sesiynau ysgrifennu CV, felly disgwylir i ffigurau defnydd gynyddu y flwyddyn nesaf.

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Er bod Sir Gaerfyrddin yn y chwarterl uchaf o wasanaethau llyfrgell ar gyfer nifer y staff cymwys fesul pen, nid yw'n cyrraedd y targed ar gyfer lefelau staffio cyffredinol, gyda staff fesul pen o gwmpas y canolrif (DA13). Nid yw Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd yn cyrraedd y targed ar gyfer oriau agor â staff fesul pen (DA16) o ganlyniad i gau llyfrgell Cross Hands dros dro, ynghyd â newidiadau i lwybrau teithiol. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn gweithio gyda'r awdurdod a sefydliadau lleol i adleoli'r llyfrgell i leoliad newydd addas. Mae opsiynau llyfrgell hunanwasanaeth yn Llyfrgell Castellnewydd Emlyn yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd gael mynediad i lyfrau llyfrgell allan o oriau gwaith arferol staff y llyfrgell. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau i fynediad i adeiladau ac oriau agor ar ôl y pandemig, nid yw Llyfrgell Sanclêr a llyfrgell Llandeilo wedi dychwelyd i ganiatáu mynediad i ddefnyddwyr yn ystod oriau heb staff.

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Dywed Sir Gaerfyrddin bod cerrig milltir allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf wedi gweld y gwasanaeth yn cefnogi ac yn gwella iechyd meddwl a llesiant; pontio'r rhaniad digidol; mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol; lleihau anghydraddoldebau; annog gwytnwch; ac arfogi unigolion yn well o ran heriau'r dyfodol. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Mae'r prosiect "Lleoedd Croeso Cynnes" sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru - 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' – mae llyfrgelloedd yn cynnig lle diogel, niwtral o fewn y gymuned sy'n darparu cyfleoedd i bobl gysylltu â'i gilydd.
- Mae gwasanaethau Gofod Gwneud a gynigir mewn llyfrgelloedd rhanbarthol yn cefnogi strategaeth ddigidol Llywodraeth Cymru, datganiad cenhadaeth 2 "Arfogi pobl â'r cymhelliant, y mynediad, y sgiliau a'r hyder i ymgysylltu â byd cynyddol ddigidol, yn seiliedig ar eu hanghenion".
- Gan weithio gyda'r Asiantaeth Ddarllen, cynhaliodd Sir Gaerfyrddin sawl digwyddiad i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig, gan gefnogi amcanion Llesiant trwy weithio gyda phartneriaid fel Presgripsiynu Cymdeithasol.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod i'r dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn ganlynol, mae Sir Gaerfyrddin yn tynnu sylw at nifer o ddatblygiadau arloesol, er mai ychydig o fanylion a ddarperir. Mae'r gwasanaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd Llyfrgelloedd Cymunedol, yn enwedig i drigolion nad ydynt o bosib yn gallu teithio neu sy'n amharod i deithio i'r llyfrgelloedd rhanbarthol. Er mwyn parhau i gefnogi'r ddarpariaeth leol, mae Sir Gaerfyrddin yn archwilio atebion hunanwasanaeth, gan adeiladu ar lwyddiant ei llyfrgell hunanwasanaeth gyntaf yng Nghastellnewydd Emlyn i helpu i warchod llyfrgelloedd cymunedol llai a hwyluso oriau agor hirach mewn ardaloedd gwledig. Mae'r gwasanaeth hefyd yn nodi ymddangosiad Deallusrwydd Artiffisial sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau llyfrgell yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n tynnu sylw at esblygiad gweithgareddau Gofod Gwneud ar draws y gwasanaeth i gefnogi unigolion creadigol ac arloesol.

6. Casgliad

Mae Sir Gaerfyrddin yn perfformio'n dda mewn sawl maes. Mae oedolion a phlant yn rhoi sgôr uchel i'w wasanaethau ac mae'r llyfrgell yn cydweithio â sefydliadau partner i annog defnyddwyr newydd i'r llyfrgell. Er bod nifer y benthycwyr gweithredol yn is na'r canolrif, roedd benthyciadau llyfrau oedolion a phlant, yn ogystal â benthyciadau Cymraeg fesul pen, yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd Cymru. Fodd bynnag, fe wnaeth cau Llyfrgell Cross Hands dros dro effeithio ar allu'r gwasanaeth i gyrraedd nifer o dargedau eleni. Nodir bod y gwasanaeth llyfrgell yn gweithio gyda'r awdurdod a sefydliadau lleol i adleoli'r llyfrgell, er nad oes gwybodaeth ar gael am ddyddiad ailagor posibl. Mae Sir Gaerfyrddin yn archwilio opsiynau hunanwasanaeth i helpu i ymestyn yr oriau agor mewn ardaloedd gwledig.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Ceredigion

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Geredigion i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Cyflawnodd Ceredigion 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, gwnaeth Ceredigion gyflawni 7 yn llawn ac 1 yn rhannol. Nid yw dau darged wedi'u cyflawni.

Mae Ceredigion yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd. Mae nifer y benthycwyr gweithredol y pen yn uwch na'r canolrif, yn ogystal â nifer y benthyciadau llyfrau oedolion ac e-rifynnau fesul pen. Fodd bynnag, mae darpariaeth plant yn bryder: mae'r gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer cyfran y gwariant ar ddeunyddiau plant a benthyciadau llyfrau plant fesul pen. Mae'r diffyg digwyddiadau a gweithgareddau i'r rhai sydd â gofynion arbennig a phresenoldeb isel mewn digwyddiadau yn gyffredinol yn faes arall a fydd angen sylw dros y misoedd nesaf. Er bod Ceredigion yn perfformio'n gymharol dda o ran nifer y swyddi proffesiynol fesul pen, mae lefelau staffio cyffredinol yn bryder, er ein bod eto i weld pa newidiadau sy'n deillio o'r ad-drefnu adrannol sydd ar ddod. Nid yw Ceredigion yn bodloni Hawliau Craidd 11 na 12, ond bydd ymgynghori â defnyddwyr a datblygu strategaeth llyfrgelloedd yn rhoi ymdeimlad cryfach i'r gwasanaeth o'i gyfeiriad yn y dyfodol. Effeithiodd y manylion cyfyngedig sydd ar gael yn y sylwebaeth sy'n cyd-fynd â'r datganiad o Geredigion ar allu'r asesydd annibynnol i ddarparu darlun llawn o weithgarwch o fewn y gwasanaeth llyfrgell hwn.

- Mae hyfforddiant defnyddiwr yn cael sgôr uchel; dywedodd 100% o'r mynychwyr fod hyfforddiant defnyddwyr wedi eu helpu i gyflawni eu nodau (DA5).
- Mae stoc y llyfrgell yn cael ei ddefnyddio'n helaeth; mae nifer y benthycwyr gweithredol fesul pen yn uwch na'r canolrif, yn ogystal â nifer y benthyciadau llyfrau oedolion fesul pen (DA8).
- Mae'r casgliad Cymraeg yn cael ei ddefnyddio'n helaeth; mae'r gwasanaeth yn y chwarter uchaf ar gyfer benthyciadau Cymraeg fesul pen (DA10).
- Mae Ceredigion yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgell ar gyfer staff cymwys fesul pen ac mae'n un o dri gwasanaeth yn unig i gyrraedd y targed ar gyfer y mesur hwn (DA13).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliau craidd

Nododd Ceredigion ei fod wedi bodloni 10 o'r Hawliau Craidd yn llawn drwy hunanasesiad, gan ddarparu rhywfaint o sylwebaeth gyfyngedig yn y datganiad. Cytunodd yr asesydd annibynnol â'r hunanasesiad. Ni chyflawnwyd CE12, ond mae'r gwasanaeth bellach yn edrych ar ddatblygu'r ystod lawn o strategaethau'r llyfrgell. Ni chyflawnwyd CE11 chwaith gan nad yw'r gwasanaeth wedi ymgynghori â defnyddwyr yn ystod cyfnod y Fframwaith hwn, er ei fod yn bwriadu gwneud hynny y flwyddyn nesaf.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Ceredigion yn cyflawni 7 yn llawn ac 1 yn rhannol. Nid yw dau darged wedi'u cyflawni.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol ar iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	x	Heb ei gyflawni
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Caffael fesul pen	√	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	√	
DA 10 Adnoddau yn Gymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar ddeunyddiau Cymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Heb ei gyflawni
(a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	x	
(b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	x	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	√	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	√	
DA 16 Oriau agor fesul pen	√	Cyflawni'n llawn

2.3. Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi anelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Mae'r ffigyrau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n darparu data yn y datganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod eraill o bosibl wedi'u heffeithio gan amhariad yn ystod cyfnod y pandemig. O ganlyniad, mae cyfyngiadau i ba raddau y gellid ystyried cymharu'r data hyn.

Nid yw Ceredigion wedi cynnwys canlyniadau arolwg defnyddwyr yn natganiad eleni. Mae'n bwriadu ymgynghori y flwyddyn nesaf.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	Heb ei ddarparu	-	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	Heb ei ddarparu	-	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau.	100%	=1/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn.

Darparodd Ceredigion ddatganiad effaith a oedd yn canolbwyntio ar brofiad cwsmer oedd mewn cyflwr gofidus ac a oedd angen defnyddio cyfrifiadur i uwchlwytho ffotograffau i wefan ond a oedd yn ei chael hi'n anodd gwneud hynny. Cynigiodd aelod o staff y llyfrgell gefnogaeth i'r dyn a'i helpu i uwchlwytho'r ffotograffau a chael e-bost derbynneb. Mae'r enghraifft hon yn dangos sut y gall y llyfrgell ddarparu cymorth digidol yn ogystal â chynnig gwasanaeth niwtral ac unigryw, rhad ac am ddim ar adeg o angen na ellid dod o hyd iddo mewn manau eraill yn yr ardal.

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Ceredigion ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	Heb ei ddarparu	-	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	Heb ei ddarparu	-	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	Heb ei ddarparu	-	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau	Heb ei ddarparu	-	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	Heb ei ddarparu	-	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	Heb ei ddarparu	-	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	Heb ei ddarparu	-	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	Heb ei ddarparu	-	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	5	17/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	156	7/19	5	131	424
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen					
	13	22/22	13	165	559
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	781	21/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	818	8/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	133	5/22	43	106.5	167
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen					
	290	3/22	13	53	864
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	6.23	18/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	10%	=11/19	7%	11%	77%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau¹⁶					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	0	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	0	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£10,341	12/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	77%	2/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	21%	=1/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	1%	=20/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	1%	21/21	1%	15%	35%
c) cyfanswm gwariant fesul pen	£0	=12/21	-£479	£145	£2,865

¹⁶Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 15 Cost net am bob ymweliad ¹⁷	£6.22	19/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ¹⁸					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0.14%	=15/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	2.39%	18/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae Ceredigion yn cyrraedd y targedau ar gyfer Cefnogaeth ar gyfer Datblygiad Unigol (DA3) a Cefnogaeth ar gyfer Iechyd a Llesiant (CA4). Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda swyddog Iechyd a Lles y cyngor ac mae'n datblygu mwy o bartneriaethau gyda chynghorau eraill a chyrrff cenedlaethol i gynyddu ei gynnis gwasanaeth e.e. darparu cynnyrch mislif am ddim a bagiau gwyrdd ar gyfer gwastraff gardd. Mae Ceredigion uwchlaw'r canolrif ar gyfer hyfforddiant anffurfiol fesul pen (DA5). Mae'n is na'r canolrif ar gyfer presenoldeb hyfforddiant defnyddwyr ffurfiol, ond dywedodd 100% o'r rhai a fynychodd fod yr hyfforddiant wedi eu helpu i gyflawni eu nodau. Mae'r gwasanaeth yn adrodd ei bod wedi bod yn anodd denu defnyddwyr i ddigwyddiadau hyfforddi eleni, gyda rhai sesiynau heb unrhyw bresenoldeb. Fodd bynnag, mae fideos hyfforddiant ar dudalen Facebook y llyfrgell wedi bod yn boblogaidd. Mae'n bwysig bod Ceredigion yn ymgynghori â defnyddwyr yn ystod y flwyddyn sydd i ddod fel y cynlluniwyd i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion cwsmeriaid (DA1/2).

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae nifer y benthycwyr gweithredol fesul pen yn uwch na'r canolrif, yn ogystal â nifer y benthyciadau llyfrau oedolion fesul pen (DA8). Fodd bynnag, roedd y gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer benthyciadau llyfrau plant fesul pen. Roedd rhith-ymweliadau fesul pen hefyd yn uwch na'r canolrif. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod lawrlwythiadau electronig yn parhau i fod yn boblogaidd ac mae Ceredigion yn y chwarterel uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer e-fenthyciadau fesul pen. Er bod ymweliadau fesul pen yn is na'r canolrif ar gyfer awdurdodau llyfrgelloedd Cymru, mae'r gwasanaeth yn nodi bod ffigyrau ymwelwyr ond yn cofnodi pobl sydd wedi defnyddio cyfrifiadur, neu wedi benthycy neu ddychwelyd llyfr; nid ydynt yn cynnwys pobl sydd wedi dod i mewn i'r adeilad am reswm arall. Ni chyflawnodd Ceredigion y targed ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau i'r rhai sydd â gofynion arbennig, ac mae presenoldeb mewn digwyddiadau fesul pen yn y chwarterel isaf o awdurdodau llyfrgelloedd (DA6).

¹⁷Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

¹⁸Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae Ceredigion yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgell ar gyfer gwariant fesul pen (DA9). Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn adrodd bod y lefel hon o wariant oherwydd cynnwys Pressreader a Newsbank, yn ogystal â gorwariant ar y gyllideb adnoddau eleni. Mae'n werth nodi hefyd mai dim ond 12% roedd cyllideb plant yn cyfrif amdano, gan roi Ceredigion o dan ganolrif awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer y mesur hwn. Roedd y gwasanaeth yn y chwarterl uchaf ar gyfer benthyciadau Cymraeg fesul pen ac mae Ceredigion yn cyrraedd y targed ar gyfer gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg (DA10).

Roedd Ceredigion yn is na'r canolrif ar gyfer mesurau mynediad ar-lein (DA11), ond mae'n bosibl bod rheolau cadw pellter cymdeithasol parhaus sy'n lleihau nifer yr oriau sydd ar gael yn ystod y flwyddyn wedi cyfrannu at lefelau mynediad is. Ni chyflawnodd y gwasanaeth y targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA12). Fodd bynnag, gall hyn fod yn rhannol oherwydd bod Ceredigion, fel nifer o awdurdodau, wedi parhau â'r arfer a gyflwynwyd yn ystod Covid o wthio dyddiadau dyledus ymlaen yn awtomatig, gan ddiystyru unrhyw geisiadau.

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Er bod Ceredigion yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgell ar gyfer staff cymwys fesul pen, nid oedd yn cyrraedd y targed ar gyfer lefelau staffio cyffredinol (DA13). Mae'r gwasanaeth yn dweud eu bod nhw naw swydd yn brin o allu cyrraedd y safon. Mae hyn yn cynnwys swydd wag yn dilyn ymddeoliad deiliad swydd proffesiynol nad yw'n debygol o gael ei llenwi fel swydd yn y dyfodol. Mae Ceredigion yn perfformio islaw'r canolrif ar gyfer cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl ac arosfannau'r llyfrgell deithiol/danfon i'r cartref a fethwyd (DA16). Mae gwariant gweithredol ychydig yn is na'r canolrif (DA14), ond mae gan y gwasanaeth un o'r ffigurau cost net uchaf fesul ymweliad (DA15).

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Darparodd Ceredigion nifer o enghreifftiau i ddangos sut mae'n cyfrannu. Mae detholiad o'r rhain yn cael eu hamlygu isod.

- **Cymru ffyniannus:** clybiau swyddi yn y rhan fwyaf o lyfrgelloedd; datblygu rôl y llyfrgell i ddarparu cefnogaeth ar gyfer Credyd Cynhwysol; darparu mynediad hawdd i'r cyhoedd i ddefnyddio cofrestr dai Ceredigion.
- **Cymru lachach:** mynediad at hunangymorth a bibliotherapi; asiant ar gyfer Wireless for the Blind.
- **Cymru fwy cyfartal:** Dosbarthiadau TG; Dechrau Llyfr; cynllun darllen yr haf.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:** mae'r holl staff yn gwbl ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg); marchnata deunyddiau Saesneg a Chymraeg yn gyfartal; amseroedd stori a grwpiau llyfrau yn y ddwy iaith.
- **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang:** consortia prynu llyfrau a chonsortia digidol/e-lyfrau.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod i'r dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn ganlynol, darparodd Ceredigion gyfrif byr, gan nodi y bydd yr adran ehangach yn cael ei hailstrwythuro'r flwyddyn nesaf ac nid oedd yn hysbys eto pa effaith y bydd hyn yn ei chael ar wasanaeth y llyfrgell. Mae'r diffyg strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth bresennol (Hawl Craidd 12) hefyd yn amharu ar allu'r gwasanaeth i gynllunio ar gyfer y dyfodol yn effeithiol. Mae'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys ailgyflwyno ffioedd a thaliadau (wedi'u gohirio yn ystod Covid) i gyrraedd targedau incwm y cyngor, wrth edrych ar y posibilrwydd o ddiddymu dirwyon, yn y tymor canolig i'r tymor hir. Mae'n amlwg bod goblygiadau posibl i hyn o ran darparu gwasanaethau i gwsmeriaid sydd o dan anfantais economaidd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gobeithio adeiladu ar nifer y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal, er y cydnabyddir bod hyn yn anodd gyda'r lefelau staffio presennol.

6. Casgliad

Mae Ceredigion yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd. Mae nifer y benthycwyr gweithredol y pen yn uwch na'r canolrif, yn ogystal â nifer y benthyciadau llyfrau oedolion ac e-rifynnau fesul pen. Fodd bynnag, mae darpariaeth plant yn bryder: mae'r gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer cyfran y gwariant ar ddeunyddiau plant a benthyciadau llyfrau plant fesul pen. Mae'r diffyg digwyddiadau a gweithgareddau i'r rhai sydd â gofynion arbennig a phresenoldeb isel mewn digwyddiadau yn gyffredinol yn faes arall a fydd angen sylw dros y misoedd nesaf. Er bod Ceredigion yn perfformio'n gymharol dda o ran nifer y swyddi proffesiynol fesul pen, mae lefelau staffio cyffredinol yn bryder, er ein bod eto i weld pa newidiadau sy'n deillio o'r ad-drefnu adrannol sydd ar ddod. Nid yw Ceredigion yn bodloni Hawliau Craidd 11 na 12, ond bydd ymgynghori â defnyddwyr a datblygu strategaeth llyfrgelloedd yn rhoi ymdeimlad cryfach i'r gwasanaeth o'i gyfeiriad yn y dyfodol. Effeithiodd y manylion cyfyngedig a ddarparwyd yn y sylwebaeth sy'n cyd-fynd â'r data o Geredigion ar allu'r asesydd annibynnol i ddarparu darlun llawn o weithgarwch o fewn y gwasanaeth llyfrgell hwn.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Gonwy i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Cyflawnodd Conwy pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, gwnaeth Conwy gyflawni 9 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Conwy yn parhau i berfformio'n dda ac yn parhau i fod uwchlaw'r canolrif mewn nifer o feysydd, yn arbennig o ran darpariaeth TG a darpariaeth iaith Gymraeg. Mae'r ymrwymiad cryf i iechyd a llesiant, yn enwedig iechyd meddwl, yn amlwg ynghyd â llawer o bartneriaethau allanol buddiol. Mae Conwy yn adrodd am newid tuag at ymgysylltu digidol, gyda nifer cynyddol o ymweliadau gwefannau a lawrlwythiadau electronig, yn ogystal â chwsmeriaid yn dod â'u dyfeisiau eu hunain i'w defnyddio mewn llyfrgelloedd. Mae'r gwasanaeth yn awyddus i hyrwyddo adnoddau Cymraeg (corfforol ac ar-lein) a gweithgareddau (e.e. amseroedd stori, dysgu cymunedol). Mae chwarter y gwariant deunyddiau ar stoc i blant a bu cynnydd mewn benthyciadau i blant fel canran o eitemau a fenthyciwyd yn gorfforol. Er bod Conwy yn dangos tystiolaeth o ymrwymiad cryf i ddatblygu staff, nodir heriau sylweddol gostyngiad mewn staffio, ac yn nifer y staff proffesiynol.

- Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Conwy wedi parhau yn ei nod strategol i ymestyn model Llyfrgelloedd CBSC fel Hybiau Cymunedol, gan alluogi'r gwasanaeth i gyfrannu at flaenoriaethau cenedlaethol allweddol sy'n ymwneud â thlodi, llythrennedd, pobl hŷn, mynediad digidol ac unigrwydd ac ynysigrwydd.
- Er bod gostyngiad wedi bod yn nifer aelodau'r llyfrgell a benthycwyr gweithredol, mae nifer yr ymweliadau â gwefan y llyfrgell a lawrlwythiadau digidol wedi cynyddu; mae rhith-ymweliadau fesul pen ymhell uwchlaw'r canolrif (DA8).
- Cyflawnwyd ymgysylltiad cyn-bandemig mewn sesiynau defnyddwyr yn 2022-23 ac mae presenoldeb mewn hyfforddiant defnyddwyr ffurfiol ac anffurfiol yn uwch na'r canolrif (DA5).
- Er bod arweinyddiaeth gymwys yn parhau i fod yn ei le a bod y gwasanaeth yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygiad staff, nid yw targedau staffio yn cael eu cyrraedd (DA13).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliau craidd

Nododd Conwy ei fod wedi bodloni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesiad, gan ddarparu sylwebaeth fanwl a defnyddiol yn y datganiad ar bob maes dan sylw. Cytunodd yr asesydd annibynnol â'r hunanasesiad.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Conwy yn cyflawni 9 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol ar iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	√	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Caffael fesul pen	√	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	-	
DA 10 Adnoddau yn Gymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar ddeunyddiau Cymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
(a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
(b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	√	
DA 16 Oriau agor fesul pen	√	Cyflawni'n llawn

2.3. Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi anelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Mae'r ffigyrau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n darparu data yn y datganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod eraill o bosibl wedi'u heffeithio gan amhariad yn ystod cyfnod y pandemig. O ganlyniad, mae cyfyngiadau i ba raddau y gellid ystyried cymharu'r data hyn.

Cwblhaodd Conwy ei arolwg defnyddwyr sy'n oedolion a phlant ym mis Tachwedd 2018. Roedd disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau arolwg defnyddwyr yn hydref 2022. Fodd bynnag, cytunwyd gyda Phennaeth y Gwasanaeth, Aelod Cabinet a chydweithwyr Llywodraeth Cymru yr Is-adran Diwylliant na fyddai hyn yn cael ei gynnal fel y cynlluniwyd oherwydd newidiadau sydd ar fin digwydd i fframwaith WPLS.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	90%	=7/16	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	87%	8/16	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau.	96%	=9/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn.

Darparodd Conwy astudiaeth achos o Grŵp Gwau a Sgwrsio Bae Colwyn sy'n cael ei ddisgrifio fel rhywbeth sy'n cyfrannu at greu adferiad cymunedol a chyfleoedd cymdeithasol; empathi a chefnogaeth economaidd; a dealltwriaeth a chefnogaeth i'r rhai sy'n byw gyda dementia. Daeth y grŵp i fodolaeth ddiwedd 2022 pan oedd pobl yn teimlo effaith cost byw cynyddol, gan gynnwys costau ynni sy'n cynyddu'n gyflym. Roedd menter Croeso Cynnes Llyfrgelloedd Conwy yn darparu diodydd, byrbrydau a rhywle cynnes a chroesawgar i dreulio amser. Gan ddefnyddio gwlan a nodwyddau oedd wedi'u rhoi, mae'r grŵp o 12 fynychwr rheolaidd wedi creu hetiau, menig a sgarffiau i'w rhoi am ddim i unrhyw un sydd eu hangen yn ogystal â Myffiau Ffidlo ar gyfer canolfan gofal dydd dementia leol.

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Conwy ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r

sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	82%	5/16	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	74%	=4/16	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	97%	=8/16	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau	91%	=8/16	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	98%	=9/17	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	95%	2/16	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	97%	=10/17	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.0	=12/16	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	31	4/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	310	4/19	5	131	424
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen					
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell	141	14/22	13	165	559
a) ymweliadau fesul pen	2,106	11/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	4,382	2/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	128	7/22	43	106.5	167
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen					
DA 11 Mynediad ar-lein	133	7/22	13	53	864
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	16.99	1/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	18%	3/19	7%	11%	77%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau¹⁹					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	30	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	1,230	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£15,123	6/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	73%	3/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	11%	=12/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	1%	=20/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	15%	11/21	1%	15%	35%
c) cyfanswm gwariant fesul pen	£666	5/21	-£479	£145	£2,865

¹⁹Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 15 Cost net am bob ymweliad ²⁰	£1.91	6/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ²¹					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0.05%	=11/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0%	=1/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cwblhaodd Conwy ei arolygon defnyddwyr oedd yn oedolion a phlant ym mis Tachwedd 2018, yn ail flwyddyn y chweched fframwaith, gyda chanlyniadau cadarnhaol. Wrth gwrs, mae llawer wedi newid ers 2018, ond mae 2022-23 wedi gweld dychweliad i wasanaeth wyneb yn wyneb llawn, gydag amseroedd stori, sesiynau TG a grwpiau darllen ac ati wedi ail-ddechrau. Cyflawnwyd ymgysylltiad cyn-bandemig mewn sesiynau defnyddwyr yn 2022-23 a bu cynnydd yn nifer y bobl a ddywedodd bod presenoldeb wedi eu helpu i gyflawni eu nodau (DA5).

Mae'r cynllun Darllen yn Dda ar gyfer lechyd Meddwl yn faes blaenoriaeth o fewn yr Agenda Drawsnewid, ac adlewyrchir hyn yn y ffaith bod Conwy uwchlaw'r canolrif ar gyfer canran yr oedolion sydd wedi dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer iechyd a llesiant (DA1). Mae Conwy wedi datblygu partneriaethau ymhellach gyda gwasanaethau llyfrgelloedd cyfagos, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), tîm Iechyd y Cyhoedd ac Age Connects Lleol i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun Darllen yn Dda ar gyfer Iechyd Meddwl (Llyfrau ar Bresgripsiwn). Mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Pobl Bregus, datblygodd y gwasanaeth llyfrgell ofod yn Llyfrgell Bae Colwyn i sefydlu Coleg Adfer Lles Meddwl. Mae sesiynau Cyfeillion Darllen Llyfrgell Bae Colwyn wedi cynnig lle i blant hŷn ailgysylltu ar ôl effaith Covid 19 ac mae llawer o rieni'r plant yn aros yn ystod y sesiynau i gysylltu â rhieni eraill.

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi parhau yn ei nod strategol i ymestyn model llyfrgelloedd CBSC fel Hybiau Cymunedol ac mae'n cynnal adolygiad o lyfrgelloedd â chymorth cymunedol a'r gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig i gymunedau llai. Nodwyd bod presenoldeb defnyddwyr mewn digwyddiadau wedi dychwelyd bron i lefelau cyn y pandemig, er ei fod yn is na'r canolrif (DA6). Er bod Conwy yn adrodd am ddirywiad mewn aelodau llyfrgell a benthycwyr gweithredol, mae nifer y benthycwyr gweithredol fesul pen yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif (DA8). Mae nifer yr ymweliadau â gwefan y llyfrgell wedi cynyddu ac mae newid o fenthyciadau AV tuag at lawrlwythiadau, gan arwain at gynnydd nodedig yn y defnydd o'r gwasanaeth hwn. Gwelwyd cynnydd amlwg hefyd mewn benthyciadau i blant fel canran o eitemau a fenthyciwyd yn gorfforol. Cynyddodd ymgysylltiad Her Ddarllen yr Haf yn 2022 wrth i'r llyfrgell gyfuno rhaglen weithgareddau'r SRC â sesiynau Snac

²⁰Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

²¹Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

a Stori a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan ddarparu cinio ochr yn ochr â'r sesiwn llyfrgell.

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae Conwy wedi cynyddu cyfran y gwariant deunyddiau ar stoc i blant (DA9). Mae meysydd ffocws eraill yn cynnwys fformatau sain digidol a chorfforol; a chasgliadau i gefnogi'r argyfwng cost byw. Gwelwyd cynnydd amlwg mewn cwsmeriaid sy'n dod â'u dyfais eu hunain ac yn defnyddio gofod llyfrgell i weithio, gan arwain at lai o ddefnydd o gyfrifiaduron hygyrch i'r cyhoedd. Felly mae'r gwasanaeth wedi lleihau nifer y cyfrifiaduron personol mewn llyfrgelloedd (er bod hyn yn parhau i fod yn y chwarterl uchaf o wasanaethau llyfrgelloedd (DA11)), a thrwy gyllid gan Wasanaethau Addysg Conwy, wedi gwella capasiti WiFi mewn partneriaeth â Grwp Llandrillo Menai. Mae Conwy hefyd wedi ymestyn yr ystod o adnoddau ar-lein.

Gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru a gweithio gydag Archifau, Celfyddydau ac Amgueddfa, mae'r awdurdod wedi datblygu gwefan newydd ar gyfer gwasanaethau diwylliannol, gan ddarparu amrywiaeth o ddeunydd Cymraeg i bob oed. Ar ben hynny, mae benthyciadau Cymraeg fesul pen yn uwch na'r canolrif (DA10). Mae'r ddarpariaeth Gymraeg arall yn cynnwys amser stori dwyieithog wythnosol; hyrwyddo diwylliant a llenyddiaeth Cymru i bobl ifanc; a darparu ystafelloedd i'w llogi ar gyfer dysgu cymunedol. Mae staff y llyfrgell yn cefnogi dysgwyr Cymraeg yn Llyfrgell Llandudno ac Abergele yn anffurfiol gyda rhaglen 'Cyfeillion Darllen' - sesiwn weithgaredd a sgwrsio i ddysgwyr Cymraeg ymarfer eu hiaith newydd mewn lleoliad anffurfiol.

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Yn dilyn ailstrwythuro staff yn 2018/19 oherwydd pwysau ariannol bu gostyngiad sylweddol mewn staffio proffesiynol, ac mae lefelau staffio yn parhau i fod yn is na'r ffigur targed (DA13), er eu bod yn uwch na'r canolrif ar gyfer canran y gyllideb weithredol a ddyrannwyd i staffio (DA14). Mae'r gwasanaeth wedi ariannu pedwar cwrs Gradd Sylfaen ar gyfer staff rheng flaen er mwyn cynllunio olyniaeth gwasanaeth. Cwblhaodd pedwar aelod o staff Brentisiaeth Uwch Treftadaeth Ddiwylliannol Lefel 5 ac mae tri arall newydd gofrestru. Mae'r gwasanaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer cyfran o amser staff a neilltuwyd i hyfforddiant (DA13). Bwriedir cynnal rhaglen hyfforddiant pellach i gyd-fynd â chyflwyno'r Strategaeth Llyfrgell a Gwybodaeth newydd. Bu newidiadau ers 2018-19 i'r oriau agor mewn rhai llyfrgelloedd cymunedol, tra bod oriau agor yn Llyfrgell Llanrwst, Glasdir wedi cael eu cynyddu am gyfnod peilot o ddwy flynedd (i amser llawn) yn dilyn symud i'r adeilad newydd. Mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y targed oriau agor (DA16). Mae cerbyd Llyfrgell Deithiol newydd wedi arwain at welliannau nodedig yn y ddarpariaeth gwasanaeth ac ni fethwyd unrhyw arosfannau'r llyfrgell deithiol eleni.

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae datblygiad parhaus Llyfrgelloedd fel Hybiau Cymunedol wedi parhau i fod yn graidd i genhadaeth Conwy, gan alluogi'r gwasanaeth i gyfrannu at flaenoriaethau cenedlaethol allweddol mewn perthynas â thlodi, llythrennedd, pobl hŷn, mynediad digidol ac unigrwydd ac ynysigrwydd. Er mwyn cynnig mynediad at

gymorth allweddol yn ystod yr argyfwng costau byw, mae Conwy wedi sefydlu'r holl lyfrgelloedd fel Mannau Diogel; wedi gweithio i ddatblygu menter Croeso Cynnes; a chynnal sesiynau 'snac a stori' gwyliau haf, yn ogystal â pharhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi sgiliau digidol, cynhwysiant digidol a chyflogadwyedd. Mae Conwy yn cymryd rhan weithredol yng ngwaith Cymunedau Digidol Cymru. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cydweithio â nodau Strategaeth Diwylliant Conwy i gyflwyno perfformiadau cerddorol, dawns a gweithdai celfyddydol mewn gofod llyfrgelloedd. Mae gweithgarwch mewn partneriaeth â Creu Conwy wedi cyfrannu at nodau Cymru o Gymunedau Cydlynol, Cymru â Diwylliant Bywiog a'r Gymraeg yn Ffynnu a Chymru 2050.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod i'r dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn ganlynol, mae Conwy yn cyfeirio at ei Strategaeth Llyfrgell a Gwybodaeth. Mae'r gwasanaeth yn symud ymlaen â'i Lyfrgelloedd fel model Hybiau Cymunedol ac mae wedi cyflwyno cais am gyllid strategol ar gyfer Cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin i ariannu swydd tymor penodol ychwanegol i gefnogi cyflwyno'r hybiau, yn ogystal â chronfa gyfalaf ar gyfer seilwaith digidol a thrawsnewid ar draws pob safle llyfrgell. Nodir bod heriau ariannol yn parhau i fod yn bryder difrifol i'r gwasanaeth. Bydd Cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn diogelu elfennau o ddarpariaeth gwasanaeth craidd dros y 12 i 18 mis nesaf, ond gallai'r diffyg cyllidebol presennol a wynebir gan yr Awdurdod Lleol yn 2024/5 effeithio ar ddarparu gwasanaethau yn dibynnu ar ganlyniad adolygiad cyllidebol ledled y cyngor sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae Conwy yn parhau i ganolbwyntio ar lyfrgelloedd fel tirweddau therapiwtig, gan ddatblygu cysylltiadau cryfach gydag iechyd a gofal cymdeithasol ac edrych ar lwybrau cyfeirio newydd drwy fframwaith y Coleg Adfer. Mae gan y gwasanaeth swyddogaeth Awdurdod gyfan Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oedran, gan gyflogi swydd i helpu adolygu, datblygu ac ymgorffori gwaith sy'n Gyfeillgar i Oedran, gan gynnwys datblygu gwasanaethau llyfrgelloedd cartref a symudol.

6. Casgliad

Mae Conwy yn parhau i berfformio'n dda ac yn parhau i fod uwchlaw'r canolrif mewn nifer o feysydd, yn arbennig o ran darpariaeth TG a darpariaeth iaith Gymraeg. Mae'r ymrwymiad cryf i iechyd a llesiant, yn enwedig iechyd meddwl, yn amlwg ynghyd â llawer o bartneriaethau allanol buddiol. Mae Conwy yn adrodd am newid tuag at ymgysylltu digidol, gyda nifer cynyddol o ymweliadau gwefannau a lawrlwythiadau electronig, yn ogystal â chwsmeriaid yn dod â'u dyfeisiau eu hunain i'w defnyddio mewn llyfrgelloedd. Mae'r gwasanaeth yn awyddus i hyrwyddo adnoddau Cymraeg (corfforol ac ar-lein) a gweithgareddau (e.e. amseroedd stori, dysgu cymunedol). Mae chwarter y gwariant deunyddiau ar stoc i blant a bu cynnydd mewn benthyciadau i blant fel canran o eitemau a fenthyciwyd yn gorfforol. Er bod Conwy yn dangos tystiolaeth o ymrwymiad cryf i ddatblygu staff, nodir heriau sylweddol gostyngiad mewn staffio, ac yn nifer y staff proffesiynol.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Sir Ddinbych

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Sir Ddinbych i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Roedd Sir Ddinbych yn bodloni'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 8 yn llawn a 2 yn rhannol.

Nid yw Gwynedd yn cyrraedd y targed ar gyfer staffio fesul pen, ac mae yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer y mesur hwn (DA13). Yn yr un modd, nid yw'n cyrraedd y targed ar gyfer staff cymwys fesul pen, er ei fod hefyd yn uwch na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn. Mae gan Wynedd reolwr gweithredol cymwys, ond ni ddarperir data am ganran yr amser a dreulir gan staff ar ddatblygiad proffesiynol. Nid oes gwirfoddolwyr yn llyfrgelloedd Gwynedd. Mae Gwynedd yn cyrraedd y targed ar gyfer oriau agor, ond ni ddarperir data ar nifer y gwasanaethau sy'n cau'n annisgwyl (DA16).

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau o'r ffyrdd y mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth leol a chenedlaethol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn cynnwys y canlynol:

- Sesiynau Cymorth Digidol unigol yn cael eu cynnig mewn llyfrgelloedd a gartref i gefnogi'r rhai sydd angen cymorth i ddefnyddio technoleg ddigidol
- Symud i gerbydau trydan, a darparu gwasanaeth llyfrgell ar-alw am ddim i'r cartref
- Darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg elwa ar sesiynau fel 'Paned a Chlonc' i ymarfer eu Cymraeg
- Cefnogi'r Gymraeg fel iaith yr aelwyd drwy annog rhannu rhigymau a chaneuon Cymraeg
- Darparu benthyciad Llyfrgell Pethau sy'n atgyfnerthu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran ei Strategaeth Economi Gylchol.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod i'r dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn ganlynol, mae Gwynedd yn cyfeirio at ei Gynllun Llyfrgelloedd – Llyfrgelloedd Llawn Bywyd 2023-28, sy'n nodi gweledigaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi ymrwymo i ddatblygu'r nodau ym meysydd Darllen; Iechyd a Llesiant; yr Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru; a Gwybodaeth a Digidol. Bydd y gwasanaeth yn parhau i ddatblygu partneriaethau, yn benodol gyda'r Rhwydwaith Economi Gylchol a Grŵp Llandrillo Menai yng nghydestun addysg gymunedol a'r Llyfrgell Pethau. Yn genedlaethol, bydd Gwynedd yn arwain ar gael System Rheoli Llyfrgelloedd ar gyfer Llyfrgelloedd Cymru a fydd yn gwella ansawdd a mynediad i adnoddau a gwasanaethau llyfrgell yn gyffredinol.

6. Casgliad

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys benthycwyr gweithredol, caffael a benthyciadau, yn benodol deunyddiau Cymraeg a llyfrau i oedolion. Mae'r gwasanaeth yn amlwg wedi'i ymrwymo i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru drwy ei adnoddau a'i weithgareddau, ac mae ei ddarpariaeth yn arbennig o gryf ymhlith awdurdodau llyfrgelloedd Cymru. Yn ogystal, mae Gwynedd yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau arloesol, gan gynnwys creu Llyfrgell Pethau. Mae yna rai bylchau yn y data a ddarparwyd yn natganiad Gwynedd yn ei ddatganiad. Bydd darparu set lawnach o ddata yn y blynyddoedd sydd i ddod, gan gynnwys arolygon defnyddwyr oedolion a phlant llawn yn ystod y cylch tair blynedd sydd yn y canllawiau, yn helpu i lunio asesiad mwy cynhwysfawr o berfformiad Gwynedd.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Ynys Môn

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Ynys Môn i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Cyflawnodd Ynys Môn 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn a 2 yn rhannol. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, gwnaeth Ynys Môn gyflawni 8 yn llawn a 2 yn rhannol.

Mae Ynys Môn yn perfformio'n gymharol dda mewn sawl maes, gan gynnwys nifer y caffaeliadau, cefnogaeth y gwasanaeth i ddeunyddiau plant a Chymraeg sy'n cael eu nodi'n arbennig. Er bod presenoldeb mewn digwyddiadau a sesiynau hyfforddi yn is na'r canolrif, mae'r gwasanaeth yn amlwg yn gwneud ymdrechion i ymestyn ei ddarpariaeth ac yn annog pobl i ddychwelyd i lyfrgelloedd ar ôl y pandemig. Nodir y nifer gymharol uchel o rith-ymweliadau fesul pen ac mae'n awgrymu newidiadau parhaus ym mhatrymau defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth wedi wynebu rhai heriau, yn enwedig o ran ei ddarpariaeth TG. Fodd bynnag, dylid ei ganmol am flaenoriaethu datblygiad staff, er gwaethaf parhau i gario swyddi gwag. Dylai'r gwasanaeth flaenoriaethu cynnal arolygon defnyddwyr yn y dyfodol agos i helpu i lywio ei gyfeiriad yn y dyfodol a sicrhau bod ei strategaeth ar gael, gan ganiatáu iddo fodloni Hawliau Craidd yn llawn yn y meysydd hyn. Byddai hefyd yn ddefnyddiol tynnu sylw at sut mae gwasanaethau'r llyfrgell yn cyfrannu'n benodol at gynllun y cyngor ar gyfer 2023-28.

- Mae darpariaeth ar-lein Ynys Môn yn cael ei defnyddio'n helaeth; mae'r gwasanaeth yn perfformio yn y chwarter uchaf o wasanaethau llyfrgell ar gyfer rith-ymweliadau fesul pen (DA8).
- Gwneir ymdrechion i gynnal lefelau stoc; mae'r gwasanaeth yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgell ar gyfer nifer yr eitemau a gaffaelwyd fesul pen (DA9).
- Mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei chefnogi'n dda gan y gwasanaeth ac yn cael ei defnyddio'n helaeth gan gymunedau lleol; mae'r gwasanaeth yn y chwarter uchaf ar gyfer benthyciadau Cymraeg ac mae deunyddiau Cymraeg yn cyfrif am 15% o'r gyllideb deunyddiau (DA10).
- Mae'r gwasanaeth yn dangos ymrwymiad cryf i hyfforddiant staff gyda 4.6% o oriau staff yn cael eu neilltuo i ddatblygiad proffesiynol (DA13).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliau craidd

Nododd Ynys Môn ei fod wedi bodloni 10 o'r 12 Hawl Graidd yn llawn ac wedi bodloni'r ddau Hawl Graidd oedd yn weddill drwy hunanasesiad. Mae'r asesydd annibynnol yn derbyn yr hunanasesiad yn seiliedig ar asesiadau a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol. Yn achos CE11, nodir er bod paneli defnyddwyr yn cael eu cynnal, nad yw arolwg defnyddiwr ffurfiol wedi'i gynnal yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn achos CE12, mae dogfennau ar gael mewn print, ond mae strategaeth 2023-28 yn cael ei datblygu ac ni ddarperir dolen ar-lein.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Ynys Môn yn cyflawni 8 yn llawn a 2 yn rhannol.

Dangosydd Ansawdd		Cyflawni?
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol ar iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	√	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Caffael fesul pen	√	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	-	
DA 10 Adnoddau yn Gymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar ddeunyddiau Cymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n rhannol
(a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	x	
(b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	√	
DA 16 Oriau agor fesul pen	√	Cyflawni'n llawn

2.3. Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi anelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Mae'r ffigyrau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n darparu data yn y datganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod eraill o bosibl wedi'u heffeithio gan amhariad yn ystod cyfnod y pandemig. O ganlyniad, mae cyfyngiadau i ba raddau y gellid ystyried cymharu'r data hyn.

Nid yw Ynys Môn wedi cwblhau arolygon defnyddwyr oedolion na phlant drwy gydol cyfnod y fframwaith. Mae disgwyl cynnal arolwg ar gyfer 2023-24.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	Heb ei ddarparu	-	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	Heb ei ddarparu	-	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau.	82%	17/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Ynys Môn ddatganiad effaith yn manylu ar sesiynau Rhannu Rhigwn: sesiynau Amser Rhigwm Cymraeg ar gyfer babanod a phlant cyn oedran ysgol. Cynhelir y sesiynau'n wythnosol mewn dwy lyfrgell ac fe'u harweinir gan y Llyfrgellydd Plant a Phobl Ifanc mewn partneriaeth ag Ymwelwyr Iechyd a Cymraeg i Blant. Mae'r sesiynau'n boblogaidd gyda theuluoedd Cymraeg eu hiaith a'r teuluoedd hynny nad ydynt yn Gymraeg iaith gyntaf. Mae'r sesiynau'n darparu gofod niwtral, hwyliog i rieni ddysgu a gwella'r Gymraeg, yn ogystal â datblygu rhyngweithio cymdeithasol a hyder.

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Ynys Môn ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	Heb ei ddarparu	-	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	Heb ei ddarparu	-	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	Heb ei ddarparu	-	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau	Heb ei ddarparu	-	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	Heb ei ddarparu	-	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	Heb ei ddarparu	-	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	Heb ei ddarparu	-	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	Heb ei ddarparu	-	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	2	=19/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	11	17/19	5	131	424
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen					
	120	16/22	13	165	559
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	1,425	18/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	2,386	3/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	106	=12/22	43	106.5	167
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen					
	263	4/22	13	53	864
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	6.38	17/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	Heb ei ddarparu	-	7%	11%	77%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau³²					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	6	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	300	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£12,519	10/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	64%	11/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	11%	=12/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	3%	=11/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	22%	6/21	1%	15%	35%
c) cyfanswm gwariant fesul pen	£1,672	4/21	-£479	£145	£2,865

³²Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 15 Cost net am bob ymweliad ³³	£2.28	7/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ³⁴					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0.17%	17/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	3.74%	20/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae Ynys Môn yn cyrraedd y targedau ar gyfer cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol (DA3) ac iechyd a llesiant (DA4) yn llawn. Nid yw'r gwasanaeth wedi cwblhau arolygon defnyddwyr oedolion na phlant drwy gydol y fframwaith, ond mae arolwg wedi'i gynllunio ar gyfer 2023-24. Mae Ynys Môn yn y chwarter isaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer mynychu hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddwyr, ac ar gyfer canran y mynychwyr a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi eu helpu i gyflawni eu nodau (DA5). Mae'r datganiad yn nodi bod sesiynau hyfforddi defnyddwyr a drefnwyd ymlaen llaw wedi gostwng yn sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd cyn y pandemig. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg galw, ond hefyd oherwydd newid i ddigwyddiadau a gweithgareddau yn hytrach na sesiynau hyfforddi ffurfiol. Darparwyd hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr i nifer o ysgolion. Fodd bynnag, adroddir bod y galw yn cynyddu am gymorth anffurfiol yn enwedig gyda llenwi ffurflenni ar-lein, sganio dogfennau a chwilio am swyddi.

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Ynys Môn wedi cynyddu nifer y gweithgareddau eleni fel rhan o gynlluniau adfer wedi Covid. Mae hyn yn cynnwys sesiynau Ymwelwyr Iechyd, sesiynau Paned a Sgwrs, Amser Rhigwm, Brownies, gweithdai ysgrifennu creadigol, sesiynau crefft, gwaith allgymorth, a digwyddiad mawr Diwrnod y Llyfr. Fodd bynnag, mae presenoldeb mewn digwyddiadau yn llyfrgelloedd Ynys Môn islaw'r canolrif (DA6). Mae Ynys Môn yn dweud bod cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'i safle wrth i hyder ddychwelyd ar ôl Covid. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer ymweliadau fesul pen (DA8). Serch hynny, er gwaethaf adrodd am ostyngiad ar y flwyddyn flaenorol, mae Ynys Môn yn perfformio yn y chwarter uchaf o wasanaethau llyfrgell ar gyfer rhith-ymweliadau fesul pen, gan ddangos ei bod yn ymddangos bod patrymau newidiol defnydd llyfrgell oherwydd y pandemig yn parhau. Mae nifer y benthycwyr gweithredol fesul pen yn agos at y canolrif ac yn dangos cynnydd ers y llynedd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn agos at y canolrif ar gyfer benthyciadau llyfrau oedolion a phlant fesul pen. Mae pecynnau galw a chasglu, a gyflwynwyd oherwydd Covid, bellach yn gynnig parhaol a gellir eu derbyn ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â phori a benthycia personol. Mae'r galw am adnoddau electronig yn parhau i gynyddu.

³³Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

³⁴Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae Ynys Môn yn cyrraedd y targed ar gyfer nifer y caffaeliadau ac mae yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgell am nifer yr eitemau a gaffaelwyd fesul pen (DA19). Mae'n dangos ymrwymiad cryf i adnoddau plant gyda 28% o'r gyllideb adnoddau yn cael ei gwario ar adnoddau plant. Mae hefyd yn blaenoriaethu adnoddau Cymraeg, sy'n cyfrif am 15% o'r gyllideb deunyddiau (DA10). Fel gwasanaeth llyfrgell gyda chyfran uchel o'r boblogaeth breswyl Gymraeg, mae Ynys Môn yn prynu sawl copi o sawl teitl. Bu cynnydd mewn benthyciadau deunyddiau Cymraeg, ac mae'r gwasanaeth yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgell ar gyfer y dangosydd hwn.

Mae'r gwasanaeth wedi dod ar draws problemau caledwedd TG a phroblemau rhwydwaith sylweddol y flwyddyn adrodd hon ac mae cryn dipyn o galedwedd wedi bod yn amhosibl ei ddefnyddio. Mae Ynys Môn yn is na'r canolrif ar gyfer nifer y cyfrifiaduron fesul pen (DA11). Mae'r gwasanaeth yn rhagweld y bydd newidiadau arfaethedig yn y ddarpariaeth TG yn adfer nifer y cyfrifiaduron personol ac yn darparu gwytnwch a diogelwch i'r system. Mae'r gwasanaeth wedi bodloni'r dangosydd yn rhannol ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA12). Mae Ynys Môn yn dweud bod cynnydd dramatig yn nifer y ceisiadau a wnaed ers cyn y pandemig ac mae'r targed 7 diwrnod wedi bod yn heriol o ran trafndiaeth a logisteg.

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Er nad yw Ynys Môn yn cyrraedd y targed ar gyfer lefelau staffio cyffredinol, mae yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgell ar gyfer y mesur hwn (DA13). Mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi cario swyddi gwag drwy'r cyfnod pandemig hwn, ond mae'r rhain wedi'u recriwtio yn ystod 2022-23 ac eithrio un swydd broffesiynol FTE a Chynorthwydd Llyfrgell rhan-amser. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn adrodd bod effeithiau'r swyddi gwag ar gapasiti wrth i ddiwyddiadau a gweithgareddau gynyddu yn amlwg. Mae Ynys Môn yn dangos ymrwymiad cryf i hyfforddiant staff gyda 4.6% o oriau staff yn cael eu neilltuo i ddatblygiad proffesiynol. Mae cau yn annisgwyl ac arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd yn uwch na'r canolrif (DA16). Mae'r gwasanaeth wedi profi prinder staffio eleni sydd wedi arwain at anallu i agor canghennau ar nifer fach o achlysuron.

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlygodd Ynys Môn ei chyfraniadau at ddysgu; darllen a llythrennedd; lles cymunedol; sgiliau ac adfywio; cynhwysiant a chyfranogiad digidol; iechyd a llesiant; hunaniaeth ddiwylliannol; a thlodi.

- **Dysgu** – cefnogi dysgu anffurfiol a'r rhai sy'n cwblhau cymwysterau ffurfiol drwy gydol pob cyfnod o Lyfrau i Fabanod i gyngor TG wedi'i dargedu at genhedlaeth hŷn. Mae Addysg Gymunedol Oedolion a'r gwasanaeth llyfrgelloedd ysgolion yn eistedd yn y llyfrgell.
- **Darllen a llythrennedd** – llyfrau wedi'u targedu at blant, pobl ifanc ac oedolion â lefelau llythrennedd isel; gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno sesiynau mewn sgiliau sylfaenol.

- **Lles cymunedol** - cynorthwyo sefydliadau'r trydydd sector a phartneriaid eraill i hyrwyddo eu gwasanaethau i'r cyhoedd.
- **Sgiliau ac adfywio economaidd** – cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a datblygu'r gweithlu; darparu gwybodaeth busnes; a thynnu trigolion i'r trefi a'r pentrefi i wneud defnydd o siopau a busnesau lleol.
- **Cynhwysiant digidol a chyfranogiad** – ehangu a hyrwyddo'r cynnig Llyfrgell Ddigidol i adlewyrchu cynnydd yn y galw a buddsoddiad parhaus yng ngwasanaeth Borrowbox Cymru gyfan o e-lyfrau ac e-sain.
- **Iechyd a Llesiant** – mae llyfrgelloedd yn cynnal hyrwyddiadau gyda'r nod o leihau unigrwydd ac ynysigrwydd.
- **Hunaniaeth ddiwylliannol** – mae'r llyfrgell yn rhedeg neu'n hwyluso nifer o grwpiau darllen Cymraeg a dysgwyr Cymraeg.
- **Tlodi**– darparu mynediad am ddim i lyfrau, adnoddau, y rhyngwryd a chysiau sgiliau digidol, yn ogystal â Lle Cynnes trwy fisoedd y gaeaf.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod i'r dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn ganlynol, mae'r gwasanaeth yn cyfeirio at Gynllun Cyngor Ynys Môn (2023 i 2028), sy'n canolbwyntio ar gefnogi "lles, llesiant ac ansawdd bywyd preswylwyr, tra'n ymdrechu i greu dyfodol gwell". Fodd bynnag, nid yw'r datganiad yn nodi sut mae hyn yn ymwneud â gwasanaethau'r llyfrgell yn benodol.

6. Casgliad

Mae Ynys Môn yn perfformio'n gymharol dda mewn sawl maes, gan gynnwys nifer y caffaeliadau, cefnogaeth y gwasanaeth i ddeunyddiau plant a Chymraeg sy'n cael eu nodi'n arbennig. Er bod presenoldeb mewn digwyddiadau a sesiynau hyfforddi yn is na'r canolrif, mae'r gwasanaeth yn amlwg yn gwneud ymdrechion i ymestyn ei ddarpariaeth ac yn annog pobl i ddychwelyd i lyfrgelloedd ar ôl y pandemig. Nodir y nifer gymharol uchel o rith-ymweliadau fesul pen ac mae'n awgrymu newidiadau parhaus ym mhatrymau defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth wedi wynebu rhai heriau, yn enwedig o ran ei ddarpariaeth TG. Fodd bynnag, dylid ei ganmol am flaenoriaethu datblygiad staff, er gwaethaf parhau i gario swyddi gwag. Dylai'r gwasanaeth flaenoriaethu cynnal arolygon defnyddwyr yn y dyfodol agos i helpu i lywio ei gyfeiriad yn y dyfodol a sicrhau bod ei strategaeth ar gael, gan ganiatáu iddo fodloni Hawliau Craidd yn llawn yn y meysydd hyn. Byddai hefyd yn ddefnyddiol tynnu sylw at sut mae gwasanaethau'r llyfrgell yn cyfrannu'n benodol at gynllun y cyngor ar gyfer 2023-28.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Merthyr Tudful

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, y datganiadau effaith a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Ferthyr Tudful i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Merthyr Tudful gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, mae Merthyr Tudful yn cyflawni 9 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Caiff llyfrgelloedd Merthyr Tudful eu defnyddio'n dda a'u cefnogi gan y gymuned leol. Er bod ffigurau benthyca yn gymharol isel, mae nifer yr ymweliadau a phresenoldeb mewn digwyddiadau a hyfforddiant yn uchel. Mae'r gwasanaeth yn disgrifio sut mae'n defnyddio data cymdeithasol a demograffig lleol i lywio'r gwaith o ddatblygu gweithgareddau a digwyddiadau, ac mae'n ymddangos bod hyn yn cael effaith gadarnhaol. Mae'r gwasanaeth yn gwneud ymdrechion ar y cyd i gyrraedd aelodau o'r gymuned nad ydynt o bosibl yn defnyddio'r llyfrgell yn rheolaidd. Rhagwelir y bydd y buddsoddiad mewn deunyddiau i blant a deunyddiau Cymraeg yn annog mwy o fenthyca wrth i fwy o bobl ddychwelyd i'r llyfrgell ar ôl Covid. Mae Merthyr Tudful yn haeddu cydnabyddiaeth am ei ymdrechion i gefnogi cymunedau lleol, mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau eraill. Mae ganddo gysylltiadau cryf â gwasanaethau gan gynnwys addysg ac iechyd a lles. Fodd bynnag, mae pwysau hirdymor ar staffio, ac adnoddau yn gyffredinol, yn peri pryder, ac mae'r gwasanaeth yn cydnabod nad yw'r sefyllfa hon yn debygol o wella yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mewn amgylchedd o'r fath, byddai'n ddefnyddiol cysylltu cynlluniau ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth yn y dyfodol yn gliriach â'r blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

- Mae presenoldeb defnyddwyr mewn sesiynau hyfforddi yn dda; mae presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi ffurfiol ac anffurfiol uwchlaw'r canolrif (DA5).
- Mae digwyddiadau llyfrgell yn boblogaidd ymhlith aelodau o gymunedau lleol; mae presenoldeb mewn digwyddiadau fesul pen uwchlaw'r canolrif (DA6).
- Mae llyfrgelloedd yn cael eu cefnogi'n dda; mae Merthyr Tudful uwchlaw'r canolrif ar gyfer nifer yr ymwelwyr fesul pen (DA8).
- Mae galw uchel am ddarpariaeth ddigidol; mae Merthyr Tudful yn agos at y canolrif ar gyfer cyfrifiaduron personol sydd ar gael fesul pen ond mae yn y chwarterel uchaf ar gyfer canran yr amser sydd ar gael a gaiff ei ddefnyddio gan ddefnyddwyr (DA11).
- Nid oes unrhyw achosion wedi bod o gau llyfrgelloedd ar frys neu'n annisgwyl neu achosion o ddanfôn i'r cartref sydd wedi methu (DA16).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliau craidd

Nododd Merthyr Tudful ei fod wedi bodloni pob un o'r 12 Hawl Craidd yn llawn drwy hunanasesiad, gan ddarparu sylwebaeth fanwl a defnyddiol yn y datganiad ar bob maes dan sylw. Cytunodd yr asesydd annibynnol â'r hunanasesiad.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA), ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Merthyr Tudful yn cyflawni 9 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol/Darllen yn Well	√	
iii) Casgliad penodol ar gyfer iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	√	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Caffaeliadau fesul pen	√	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	-	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	√	
DA 16 Oriau agor fesul pen	√	Cyflawni'n llawn

2.3. Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau ynghlwm wrth y dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1. Mae'r ffigurau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr holl awdurdodau hynny a ddarparodd ddata yn natganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd a'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod yr amharu a welwyd yn ystod cyfnod y pandemig wedi effeithio ar rai ohonynt o bosibl. O ganlyniad, mae cyfyngiadau ar y graddau y gellid ystyried bod modd cymharu'r data hyn.

Nid yw Merthyr Tudful wedi cynnal arolwg ar gyfer y cyfnod hwn, er i ganlyniadau arolwg o fis Mawrth 2020 gael eu hadrodd y llynedd. Bydd arolygon yn cael eu hailwampio a'u hailgynllunio a byddant yn dechrau cael eu cynnal eto yn flynyddol yn ystod 2023.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y bobl ifanc sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	Heb ei ddarparu	-	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	Heb ei ddarparu	-	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau:	92%	14/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd Merthyr Tudful ddatganiad effaith a oedd yn canolbwyntio ar sesiynau Dyddiadur Mamolaeth am ddim yn Llyfrgell Aberfan. Mewn ymateb i fwyfwy o faterion yn ymwneud ag ynysu ac iechyd meddwl yn dilyn y pandemig, cynhaliodd y gwasanaeth llyfrgell sesiynau wythnosol yn canolbwyntio ar gadw dyddiadur, ar y cyd â Soul Creative Circle. Rhoddodd hyn fan diogel i rannu syniadau, cymdeithasu a chysylltu ag eraill er mwyn gwella hyder, hunan-barch a lles. Roedd y sesiynau cychwynnol yn llawn gyda 12 o fynychwyr, ac mae eu llwyddiant wedi arwain at gyllid parhaus ar gyfer cynnal mwy o sesiynau i fodloni'r galw. Soniodd cyfranogwyr am brofiadau cadarnhaol gan gynnwys *"mae'r llyfrgell mor gynnes a chroesawgar ac mae'r gweithgareddau yn lleddfol ond hefyd, yn rhyfedd, yn fewnweledol – rydw i wedi cael llawer o hwyl ac yn teimlo cymaint yn well o fod yma."*

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau ynghlwm wrth y dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, o gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Merthyr Tudful ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle mae 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 o awdurdodau wedi cyflenwi data yn ddangosyddion lle nad oedd data

perthnasol ar gael oddi wrth rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	Heb ei ddarparu	-	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	Heb ei ddarparu	-	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	Heb ei ddarparu	-	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	Heb ei ddarparu	-	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	Heb ei ddarparu	-	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	Heb ei ddarparu	-	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	Heb ei ddarparu	-	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	Heb ei ddarparu	-	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	132	2/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	306	5/19	5	131	424
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen					
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	2,242	9/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	1,919	4/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	68	20/22	43	106.5	167
DA 10 Llyfrau Cymraeg a fenthycir fesul pen					
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	8.15	11/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael a gaiff ei ddefnyddio gan y cyhoedd	77%	1/19	7%	11%	77%

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau ³⁵					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	1	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	30	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£8,051	19/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	64%	=11/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	21%	=1/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	2%	=16/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	13%	13/21	1%	15%	35%
c) cyfanswm gwariant fesul pen	£0	=12/21	-£479	£145	£2,865
DA 15 Cost net am bob ymweliad ³⁶	£1.64	5/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ³⁷					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0%	=1/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0%	=1/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae'r datganiad ar gyfer Merthyr Tudful yn disgrifio sut mae iechyd meddwl sy'n gwaethygu wedi effeithio ar gymunedau yn yr ardal leol yn ystod y cyfyngiadau symud ac yn dilyn hynny, ac mae hyn wedi ffurfio rhan sylweddol o waith blaengynllunio'r gwasanaeth. Mae cysylltiadau cryf â phartneriaid yn y Fforwm Iechyd a Lles Lleol ac ym maes hamdden ac mae NERS (y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff) yn ei gwneud hi'n haws cyfeirio pobl at gynlluniau fel y rhaglen gofal cymalau. Mae'r gwaith o ddatblygu manau gwasanaeth wedi'u cydleoli mewn canolfannau hamdden yn rhan o'r gwaith y mae'r llyfrgell yn ei wneud i ymgysylltu â defnyddwyr nad ydynt yn defnyddio'r cyfleuster fel arfer. Er bod Merthyr Tudful yn cyrraedd y targedau cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol (DA3) ac iechyd a llesiant (DA4), mae'r gwasanaeth yn nodi ei bod hi'n anodd hwyluso darllen a rennir yn ei fannau gwasanaeth ar ôl iddo golli rhai aelodau allweddol o staff yn ystod y pandemig a oedd wedi cael eu hyfforddi i gynnal y grwpiau hyn. Mae presenoldeb defnyddwyr mewn sesiynau hyfforddi ffurfiol ac anffurfiol uwchlaw'r canolrif (DA5).

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Merthyr Tudful uwchlaw'r canolrif ar gyfer presenoldeb mewn digwyddiadau fesul pen (DA6) a nifer yr ymweliadau fesul pen (DA8). Mae'r gwasanaeth yn nodi

³⁵ *Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.*

³⁶ *Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

³⁷ *Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

bod ymweliadau wyneb yn wyneb wedi cynyddu'n sylweddol yn enwedig dros gyfnod y gaeaf pan welodd llyfrgelloedd gynnydd mawr yn nifer yr ymweliadau ar ôl iddynt hysbysebu darpariaeth hyb cynnes. Mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio gyda darparwyr lleol i ddarparu banciau bwyd i anifeiliaid anwes a chyfnewidfeydd gwisg ysgol mewn llyfrgelloedd. Er bod rhith-ymweliadau fesul pen wedi gostwng o'r lefelau a welwyd yn ystod y pandemig, mae Merthyr Tudful yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer y dangosydd hwn. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth islaw'r canolrif ar gyfer benthycwyr gweithredol fesul pen ac ar gyfer llyfrau oedolion a fenthycir, llyfrau plant a fenthycir ac e-lyfrau a fenthycir fesul pen.

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae Merthyr Tudful yn cyrraedd y targed ar gyfer nifer y caffaeliadau fesul pen ac mae wedi cynyddu'r arian y mae'n ei wario ar ddeunyddiau i blant, sy'n cyfrif am 20% o'r gyllideb deunyddiau (DA9). Mae'r gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o fenthyciadau ychwanegol i ysgolion, y rhai sy'n darparu gofal, plant sy'n derbyn addysg yn y cartref ac eraill. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhan o grŵp llywio llythrennedd newydd a sefydlwyd i fynd i'r afael â'r pwysau ychwanegol sydd wedi cael ei roi ar blant a'u cyrhaeddiad yn ystod y pandemig. Er ei fod yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg fesul pen, mae adnoddau Cymraeg a fenthycir yn parhau i fod yn isel (DA10), ond mae Merthyr Tudful yn nodi bod hyn yn cynyddu, yn enwedig ar gyfer eitemau i blant. Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau'r llyfrgell yn cael eu darparu'n ddwyieithog erbyn hyn ac mae'r llyfrgell yn un o bartneriaid yr ŵyl Gymraeg leol 'Shwmaeronment'. Mae Merthyr Tudful yn agos at y canolrif ar gyfer y cyfrifiaduron personol sydd ar gael fesul pen ond mae yn y chwarter uchaf ar gyfer canran yr amser sydd ar gael a gaiff ei ddefnyddio gan ddefnyddwyr (DA11). Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn nodi, gan fod pobl wedi newid y ffordd y maent yn defnyddio gwasanaethau rhyngwryd, ei fod yn gweld cynnydd yn nifer y rhai sy'n defnyddio Wi-Fi.

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Nid yw Merthyr Tudful yn cyrraedd y targedau ar gyfer staffio cyffredinol a staff cymwysedig fesul pen (DA13). Hefyd, mae'r gwasanaeth yn nodi y gall fod newidiadau staffio nad ydynt yn rhai cadarnhaol yn y dyfodol, yn sgil y pwysau ar gyllidebau. Nodir hefyd mai dim ond yn ddiweddar y mae gwirfoddolwyr wedi dechrau dychwelyd i wasanaethau llyfrgell a bod y niferoedd yn is o lawer na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Ni fu unrhyw achosion o orfod cau llyfrgelloedd ar frys neu'n annisgwyl neu achosion o ddanfôn i'r cartref sydd wedi methu (DA16). Fodd bynnag, mae'r llyfrgell yn nodi bod oriau agor wedi cael eu cwtogi, bod un llyfrgell heb ailagor o hyd ar ôl COVID a bod achosion pellach o gwtogi oriau agor yn debygol.

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Merthyr Tudful effeithiau mewn perthynas â nifer o amcanion, gan ddod i'r casgliadau canlynol:

- **Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed** - e.e. sicrhau bod gan bobl sgiliau llythrennedd, llythrennedd TG a rhifedd
- **Ymdrechu i sicrhau bod miliwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu** - e.e. digwyddiadau a gweithgareddau dwyieithog
- **Sicrhau bod ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd hyd yn oed yn well i fyw ac i weithio ynddynt** - mae darparu gwasanaethau canghennau lleol yn ogystal â manau mwy o faint yn bwydo i mewn i'r Dull System Gyfan sy'n cael ei hyrwyddo ledled Bwrdd Iechyd Cwm Taf wrth fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag iechyd a lles
- **Adeiladu economi gryfach, wyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at ddatgarboneiddio** - e.e. datblygu manau gwyrdd ar dir gwastraff y tu ôl i'r llyfrgell i'w defnyddio ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau
- **Arwain Cymru mewn sgwrs ddinesig genedlaethol ynghylch ein dyfodol cyfansoddiadol, a sicrhau bod gan ein gwlad y presenoldeb cryfaf posibl ar y llwyfan byd-eang** - pan gaeodd y Siop Siarad, symudodd llawer o'r rhai a oedd yn mynychu i'r llyfrgell lle roeddent yn gallu parhau â'r trafodaethau ynghylch democratiaeth a bywyd yn gyffredinol.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn ddilynol, mae Merthyr Tudful yn nodi bod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod lefelau defnydd yn dychwelyd i'r hyn a welwyd cyn y pandemig. Hefyd, gan fod costau wedi cynyddu'n sylweddol ond nad yw'r un peth wedi bod yn wir am gyllid, mae'n debygol y bydd rhai gwasanaethau yn cael eu cwtogi yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod ei fod yn wynebu amser ansicr wrth symud ymlaen. Bydd Merthyr Tudful yn parhau i weithio yn y cyfeiriad strategol a nodir drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a blaenoriaethau lleol, gan ganolbwyntio ar lythrennedd, llythrennedd TG a mynediad; fodd bynnag, dim ond rhai manylion a ddarparwyd yn y datganiad i gysylltu'r nodau hyn â chyd-destunau lleol a chenedlaethol.

6. Casgliad

Caiff llyfrgelloedd Merthyr Tudful eu defnyddio'n dda a'u cefnogi gan y gymuned leol. Er bod ffigurau benthyca yn gymharol isel, mae nifer yr ymweliadau a phresenoldeb mewn digwyddiadau a hyfforddiant yn uchel. Mae'r gwasanaeth yn disgrifio sut mae'n defnyddio data cymdeithasol a demograffig lleol i lywio'r gwaith o ddatblygu gweithgareddau a digwyddiadau, ac mae'n ymddangos bod hyn yn cael effaith gadarnhaol. Mae'r gwasanaeth yn gwneud ymdrechion ar y cyd i gyrraedd aelodau o'r gymuned nad ydynt o bosibl yn defnyddio'r llyfrgell yn rheolaidd. Rhagwelir y bydd y buddsoddiad mewn deunyddiau i blant a deunyddiau Cymraeg yn annog mwy o fenthyca wrth i fwy o bobl ddychwelyd i'r llyfrgell ar ôl Covid. Mae Merthyr Tudful yn haeddu cydnabyddiaeth am ei ymdrechion i gefnogi cymunedau lleol, mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau eraill. Mae ganddo gysylltiadau cryf â gwasanaethau gan gynnwys addysg ac iechyd a lles. Fodd bynnag, mae pwysau ar staffio, ac adnoddau yn gyffredinol, yn peri pryder, ac mae'r gwasanaeth yn

cydnabod nad yw'r sefyllfa hon yn debygol o wella yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mewn amgylchedd o'r fath, byddai'n ddefnyddiol cysylltu cynlluniau ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth yn y dyfodol yn gliriach â'r blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Sir Fynwy

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, y datganiadau effaith a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Sir Fynwy i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Sir Fynwy gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, mae Sir Fynwy yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chyflawnwyd 3 DA ac ni ddarparwyd unrhyw ddata i asesu'r dangosydd sy'n weddill.

Mae Sir Fynwy yn perfformio'n gymharol dda o ran mynediad a'r defnydd o'r llyfrgell: mae uwchlaw'r canolrif ar gyfer ymweliadau; benthycwyr gweithredol; a llyfrau plant ac oedolion a fenthycir fesul pen. Mae wedi ffurfio partneriaethau â sefydliadau lleol, mae'n cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau ar gyfer y gymuned leol, ac mae'n gwneud ymdrechion i ymgysylltu â phobl nad ydynt o bosibl yn defnyddio'r llyfrgell yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y gwasanaeth o dan bwysau ariannol ac yn profi toriadau yn y gyllideb, sy'n effeithio ar adnoddau a staffio. Er bod y gwasanaeth yn cyflawni pob un o'r 12 Hawl Craidd yn llawn, dim ond 5 o'r 10 DAau sydd â thargedau ynghlwm wrthynt y mae'n eu cyflawni'n llawn ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o'r pwysau hyn ac mae'n ymddangos ei fod yn gwneud ei orau i ddiwallu anghenion ei gymuned mewn amgylchiadau anodd.

- Mae galw uchel am hyfforddiant anffurfiol; mae Sir Fynwy yn y chwarterel uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer nifer y defnyddwyr sy'n mynychu hyfforddiant anffurfiol (DA5).
- Caiff llyfrgelloedd eu cefnogi'n dda gan aelodau o gymunedau lleol; mae Sir Fynwy uwchlaw'r canolrif ar gyfer ymweliadau fesul pen a benthycwyr gweithredol fesul pen (DA8).
- Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda o ran llyfrau a fenthycir; mae llyfrau plant a fenthycir a llyfrau oedolion a fenthycir fesul pen uwchlaw'r canolrif (DA8).
- Gwneir defnydd da o gyfrifiaduron â mynediad cyhoeddus; mae'r gwasanaeth uwchlaw'r canolrif ar gyfer canran yr amser sydd ar gael pan gaiff cyfrifiaduron eu defnyddio (DA11).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliau craidd

Nododd Sir Fynwy ei fod wedi bodloni pob un o'r 12 Hawl Craidd yn llawn drwy hunanasesiad, gan ddarparu sylwebaeth fanwl a defnyddiol yn y datganiad ar bob maes dan sylw. Cytunodd yr asesydd annibynnol â'r hunanasesiad.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA), ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Sir Fynwy yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chyflawnwyd tri DA ac ni ddarparwyd unrhyw ddata i asesu'r dangosydd sy'n weddill.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol/Darllen yn Well	√	
iii) Casgliad penodol ar gyfer iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	√	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	Heb ei ddarparu	-
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Caffaeliadau fesul pen	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Heb ei gyflawni
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	x	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	x	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	x	
iv) Canran DPP	√	
DA 16 Oriau agor fesul pen	x	Heb ei gyflawni

2.3. Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau ynghlwm wrth y dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1. Mae'r ffigurau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr holl awdurdodau hynny a ddarparodd ddata yn natganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd a'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod yr amharu a welwyd yn ystod cyfnod y pandemig wedi effeithio ar rai ohonynt o bosibl. O ganlyniad, mae cyfyngiadau ar y graddau y gellid ystyried bod modd cymharu'r data hyn.

Cwblhaodd Sir Fynwy ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Mawrth 2023 a'i arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant ym mis Hydref 2022.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y bobl ifanc sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	82%	=13/16	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	83%	12/16	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau:	91%	15/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Fynwy dri datganiad effaith yn ymwneud ag agweddau gwahanol ar y gwasanaeth. Er mwyn sicrhau paredd, mae'r aseswr annibynnol wedi dewis un i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Un o nodau cyffredinol y gwasanaeth llyfrgell yw helpu pobl Sir Fynwy i fyw bywydau hapusach ac iachach ac mae hyn yn cynnwys lleihau unigrwydd ac ynysu. Mae Sir Fynwy yn darparu Gwasanaeth Danfon i'r Cartref sy'n danfon llyfrau ym mhob fformat i gwsmeriaid na allant ymweld â'u llyfrgell leol oherwydd eu bod yn fregus, yn sâl neu fod ganddynt broblemau symudedd. Mae hyn yn cynnwys cwsmeriaid unig ac agored i niwed sydd hefyd yn cael budd o'r rhyngweithio â staff sy'n ymweld â nhw. Mae rhai cwsmeriaid yn ystyried bod y gwasanaeth yn 'achubiaeth'. Nododd un cwsmer: *“Roeddwn i mor ofidus pan nad oeddwn i'n gallu darllen oherwydd fy mod i'n colli fy ngolwg. Roeddwn i'n teimlo, pe na bawn i'n gallu darllen, byddwn i eisiau marw. Ond yna fe ddaeth y gwasanaeth Danfon i'r Cartref i'r adwy.”*

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau ynghlwm wrth y dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, o gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Fynwy ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle mae 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 o awdurdodau wedi cyflenwi data yn ddangosyddion lle nad oedd data perthnasol ar

gael oddi wrth rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	53%	14/16	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	46%	11/16	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	97%	=8/16	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	87%	13/16	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	98%	=9/17	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	70%	14/16	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	96%	14/17	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.3	=8/16	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	1	=21/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	318	3/19	5	131	424
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen					
164	164	12/22	13	165	559
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	3,416	2/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	365	17/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	136	4/22	43	106.5	167
DA 10 Llyfrau Cymraeg a fenthycir fesul pen					
41	41	=17/22	13	53	864
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	7.83	12/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael a gaiff ei ddefnyddio gan y cyhoedd	14%	=5/19	7%	11%	77%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau³⁸					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	26	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	584	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£8,411	18/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	57%	=19/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	12%	=9/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	17%	3/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	14%	12/21	1%	15%	35%
c) cyfanswm gwariant fesul pen	£0	=12/21	-£479	£145	£2,865

³⁸ Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 15 Cost net am bob ymweliad ³⁹	£1.47	4/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ⁴⁰					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0.34%	=18/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0%	=1/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Gan fod pump o fannau gwasanaeth Sir Fynwy yn gweithredu fel manau ymholi ar gyfer gwasanaethau'r cyngor, mae staff yn dod i gysylltiad ag amrywiaeth eang o ymwelwyr ac yn cael cyfle i ymgysylltu â chyfran uchel o'r gymuned, a dangos y gwasanaeth llyfrgell iddynt. Mae Sir Fynwy yn cyflawni'r canolrif ar gyfer awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru o ran gofal cwsmeriaid a sgôr allan o 10 a roddir gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau (DA12). Fodd bynnag, ar gyfer mesurau eraill yn y dangosydd hwn, mae islaw'r canolrif. Mae hefyd islaw'r canolrif ar gyfer Gwneud gwahaniaeth (DA1), heblaw am oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell yn bleserus, yn ddiogel ac yn gynhwysol, lle mae'n cyflawni'r canolrif. Er bod y gwasanaeth islaw'r canolrif ar gyfer presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi i ddefnyddwyr, mae yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgell ar gyfer y nifer sy'n mynychu hyfforddiant anffurfiol (DA5). Mae cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant (DA4) yn cael ei gyflawni'n rhannol oherwydd nad yw'r gwasanaeth yn cynnig Llyfrau Llesol. Fodd bynnag, yn 2022/23, cyflwynodd Sir Fynwy ei gasgliadau sy'n dileu'r rhwystrau i siarad am farwolaeth – ar gyfer oedolion a phlant.

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir Fynwy yn agos at y canolrif ar gyfer presenoldeb mewn digwyddiadau (DA6). Mae partneriaethau agos wedi cael eu ffurfio â siopau llyfrau lleol, awduron, grwpiau cymunedol ac ati i ennyn diddordeb mewn gweithgareddau. Ymhlith y gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig mae grŵp sgwrsio Wcreineg, dosbarthiadau babi Cymraeg gan gynnwys ioga a thylino, Cuppa & Connect (i fynd i'r afael ag unigedd) a Chymorth i Fenywod. Mae Sir Fynwy uwchlaw'r canolrif ar gyfer ymweliadau fesul pen a benthycwyr gweithredol fesul pen (DA8). Mae llyfrau plant a fenthycir a llyfrau oedolion a fenthycir uwchlaw'r canolrif hefyd. Mae'r gwasanaeth islaw'r canolrif ar gyfer rhith-ymweliadau fesul pen ac mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod dirywiad wedi bod yn y maes hwn, yn rhannol efallai o ganlyniad i ddychwelyd i wasanaeth wyneb yn wyneb llawnach yn ogystal â chyflwyno Ap PORI (nad yw wedi'i gynnwys yn yr ystadegau).

³⁹ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

⁴⁰ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Nid yw Sir Fynwy yn cyrraedd y targed ar gyfer caffaeliadau ac mae yn y chwarter isaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer gwariant ar ddeunyddiau fesul pen (DA9). Mae'r gwasanaeth yn nodi bod gostyngiad o 10% wedi bod yn y gyllideb a ddyrennir yn y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, mae Sir Fynwy yn cyrraedd y targed ar gyfer cyfran y gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg, gyda chanran y gwariant yn cynyddu ers y llynedd (DA10). Mae nifer y llyfrau Cymraeg a fenthycir fesul siaradwr Cymraeg yn is na'r canolrif, ond nodir nad oes llawer iawn o siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy, felly mae'r llyfrgell yn canolbwyntio ar adnoddau i ddysgwyr Cymraeg. Mae'r llyfrgell yn rhagweld, wrth i fwy o gyrsiau Cymraeg gael eu cyflwyno, y bydd cynnydd mewn buddsoddiad ar adnoddau yn y maes hwn. Mae Sir Fynwy yn agos at y canolrif ar gyfer nifer y cyfrifiaduron personol sydd ar gael fesul pen ac mae canran yr amser sydd ar gael lle caiff cyfrifiaduron â mynediad cyhoeddus eu defnyddio uwchlaw'r canolrif (DA11). Ni wnaeth y gwasanaeth gyrraedd y targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA12) ac mae'n cydnabod bod hwn yn faes lle mae angen gwella'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'n nodi bod llai o gapasiti i ddsbarthu stoc ymhlith ei gyfleusterau oherwydd pwysau cyllidebol yn effeithio ar ei berfformiad.

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Nid yw Sir Fynwy yn cyrraedd y targed ar gyfer staffio cyffredinol fesul pen ac mae yn y chwarter isaf o wasanaethau llyfrgell ar gyfer y mesur hwn (DA13). Mae hefyd islaw'r canolrif ar gyfer staff cymwysedig fesul pen ac nid oes rheolwr gweithredol cymwys ar waith. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y targed ar gyfer cyfran amser staff a ddyrennir i hyfforddiant. Mae hefyd yn werth nodi bod gwariant gweithredol yn y chwarter isaf o awdurdodau llyfrgelloedd ac mae'r ganran a ddyrennir i staffio hefyd yn is na'r canolrif (DA14). Nid yw Sir Fynwy yn cyrraedd y targed ar gyfer oriau agor fesul pen (DA16). Mae'r gwasanaeth yn adolygu ei fannau gwasanaeth ac yn rhagweld y bydd y gwasanaeth sydd ar gael yn cael ei ymestyn lle mae opsiynau i wneud mân addasiadau i oriau agor. Fodd bynnag, mae pwysau parhaus ar y gyllideb yn golygu bod ymestyn oriau agor yn broblematic. Er bod canran yr oriau pan gaiff y llyfrgell ei chau yn annisgwyl uwchlaw'r canolrif ar gyfer gwasanaethau sefydlog, nid yw Sir Fynwy wedi methu â darparu unrhyw wasanaethau danfon i'r cartref.

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae Sir Fynwy yn tynnu sylw at gyfraniad y gwasanaeth at lesiant corfforol a meddyliol, er enghraifft, drwy'r gwasanaeth Danfon i'r Cartref sy'n darparu cysylltiad wedi'i gynllunio, sgwrs a mynediad at ddeunyddiau darllen priodol. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at symud tuag at ddatgarboneiddio hefyd: Mae paneli solar wedi cael eu ffitio a goleuadau LED wedi'u hól-osod mewn Hybiau Cymunedol ac mae'r llyfrgell yn cynnig hyfforddiant Llythrennedd Carbon. Caiff dysgu gydol oes ei gefnogi, er enghraifft, drwy'r cynllun Dechrau Da, Sialensiau Darllen yr Haf ac ymweliadau â dosbarthiadau.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn ddilynol, mae Sir Fynwy yn nodi bod pwysau cyllidebol wedi cael ei deimlo ym mhob rhan o'r maes gwasanaeth, gyda gostyngiad o 50% yn y gyllideb brynu ar gyfer 2023-24 a llai o staff ym mhob rhan o'r gwasanaeth, mewn swyddi rheng flaen yn ogystal â rhai swyddfa gefn. Caiff cyfeiriad y gwasanaeth yn y dyfodol ei lywio gan yr angen i leddfu'r pwysau hyn. Mae hyn yn cynnwys:

- Lle y bo'n bosibl, symud cwsmeriaid danfon i'r cartref i ddyfeisiau digidol er mwyn lleihau gwariant ar brint mawr a'u galluogi, lle y bo'n bosibl, i hunanddewis teitlau drwy Borrow Box
- Gwella presenoldeb digidol y gwasanaeth – ar y we ac ar gyfryngau cymdeithasol – er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr a'r llyfrau a fenthycir
- Gwella'r arlwy ddiigidol, e.e. gosod y feddalwedd ddiweddaraf ar bob cyfrifiadur personol cyhoeddus a chyflwyno argraffu Wi-Fi
- Gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i ehangu cyrhaeddiad ac ymgysylltu â defnyddwyr newydd.

6. Casgliad

Mae Sir Fynwy yn perfformio'n gymharol dda o ran mynediad a'r defnydd o'r llyfrgell: mae uwchlaw'r canolrif ar gyfer ymweliadau; benthycwyr gweithredol; a llyfrau plant ac oedolion a fenthycir fesul pen. Mae wedi ffurfio partneriaethau â sefydliadau lleol, mae'n cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau ar gyfer y gymuned leol, ac mae'n gwneud ymdrechion i ymgysylltu â phobl nad ydynt o bosibl yn defnyddio'r llyfrgell yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y gwasanaeth o dan bwysau ariannol ac yn profi toriadau yn y gyllideb, sy'n effeithio ar adnoddau a staffio. Er bod y gwasanaeth yn cyflawni pob un o'r 12 Hawl Craidd yn llawn, dim ond 5 o'r 10 DAu sydd â thargedau ynghlwm wrthynt y mae'n eu cyflawni'n llawn ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o'r pwysau hyn ac mae'n ymddangos ei fod yn gwneud ei orau i ddiwallu anghenion ei gymuned mewn amgylchiadau anodd.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Castell-nedd Port Talbot

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn natganiad blynyddol, datganiadau effaith ac adroddiad naratif Castell-nedd Port Talbot a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Castell-nedd Port Talbot gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, mae Castell-nedd Port Talbot yn cyflawni 8 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un heb ei gyflawni.

Mae llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot yn amlwg yn cael eu gwerthfawrogi gan aelodau'r gymuned leol sydd â barn uchel ohonynt o ran gwasanaeth cwsmeriaid a'r gwahaniaeth y maent yn ei wneud i'w bywydau. Mae gan y gwasanaeth bartneriaethau cryf gyda sawl sefydliad lleol ac mae wedi ymroi i ddarparu gwasanaethau allgymorth yn ogystal â rhai mewn llyfrgelloedd. Mae lefelau presenoldeb mewn hyfforddiant a digwyddiadau, yn ogystal â chyfanswm yr ymweliadau fesul pen, yn gwella ar ôl cyfnod Covid. Er nad yw'r ffigur ar gyfer rhithymweliadau yn arbennig o uchel, mae'n ymddangos bod cynnig digidol y gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi gan fod e-ddosbarthiadau yn y chwarterel uchaf. Mae'r gwasanaeth yn amlwg yn gwneud ymdrechion i wella ei ddarpariaeth Gymraeg. Fodd bynnag, ceir pryderon ynghylch y lefel o gaffaeliadau, lefelau staffio ac oriau agor. Yng ngoleuni'r pryderon hyn, byddai'n ymddangos bod cynllun y gwasanaeth i ganolbwyntio ar gryfhau'r gwasanaeth, yn enwedig drwy hyfforddi staff a datblygu partneriaethau, yn un doeth. Fodd bynnag, byddai o gymorth cysylltu'r cynlluniau hyn yn eglur â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

- Mae'r gwasanaeth yn y chwarterel uchaf ar gyfer canran yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd; i ddod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer iechyd a llesiant; ac wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau, yn ogystal â chanran y bobl ifanc sy'n credu bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a darganfod pethau (DA1).
- Ceir presenoldeb da mewn cyfleoedd hyfforddi defnyddwyr; mae presenoldeb mewn hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol yn y chwarterel uchaf o awdurdodau llyfrgell (DA5).
- Ceir presenoldeb da mewn digwyddiadau a gweithgareddau llyfrgell hefyd; mae presenoldeb mewn digwyddiadau fesul pen yn y chwarterel uchaf o wasanaethau llyfrgell (DA6).
- Mae'r gwasanaeth yn gwella'n raddol yn sgil pandemig Covid ac mae'r ffigur ar gyfer ymweliadau fesul pen yn uwch na'r canolrif (DA8).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliadau craidd

Nododd Castell-nedd Port Talbot ei fod wedi bodloni pob un o'r 12 Hawl Craidd yn llawn drwy hunanasesiad, gan ddarparu sylwebaeth fanwl a defnyddiol yn y datganiad ar bob maes dan sylw. Cytunodd yr asesydd annibynnol â'r hunanasesiad.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Castell-nedd Port Talbot yn cyflawni 8 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un heb ei gyflawni.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol ar iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	√	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Caffael fesul pen	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau yn Gymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y deunyddiau Cymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	x	
DA 16 Oriau agor fesul pen	x	Heb ei gyflawni

2.3. Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi anelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Mae'r ffigyrau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n darparu data yn y datganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod eraill o bosibl wedi'u heffeithio gan amhariad yn ystod cyfnod y pandemig. O ganlyniad, mae cyfyngiadau i ba raddau y gellid ystyried cymharu'r data hyn.

Cwblhaodd Castell-nedd Port Talbot ei arolwg defnyddwyr sy'n oedolion ac yn blant ym mis Mawrth 2022-23.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	97%	2/16	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	93%	=3/16	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau.	94%	13/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot ddatganiad effaith yn ymwneud â chymorth a ddarparwyd i ffoaduriaid o Wcráin a adleoliwyd i'r ardal. Roedd hyn yn cynnwys gweithio ochr yn ochr â Chydgysylltwyr Ardal Lleol i ddatblygu rhaglen o sesiynau a gweithdai. Yn Llyfrgell Castell-nedd Port Talbot, cynigiodd foreau coffi fan cyfarfod i ffoaduriaid a phwynt cyswllt i gael cymorth gan gynrychiolwyr adrannau awdurdod lleol. Fe wnaeth hyn hefyd gynnig cyfle 'cyfeillio' â thrigolion lleol yn arwain at 'rannu diwyllianau'. Gwahoddwyd ffoaduriaid i gymryd rhan mewn gweithgareddau llyfrgell ac ymuno a grwpiau llyfrgell. O ganlyniad, mae plant wedi gwneud ffrindiau newydd ac wedi magu hyder ac mae hyn wedi cynnig mwy o gyfle i gymdeithasu a themlo'n gysylltiedig o fewn y gymuned mewn lle diogel a chroesawgar. Meddai un ffoadur: *"Rwy'n cael fy hun yn gwbl hapus o fod yma. Dyna fy nihangfa o'm realiti fy hun."*

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	90%	1/16	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	84%	2/16	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	98%	7/16	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	96%	3/16	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	=2/17	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	90%	=5/16	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	98%	=5/17	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.7	=1/16	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	39	3/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	415	2/19	5	131	424
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen					
	357	2/22	13	165	559
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	2,503	5/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	147	21/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	113	9/22	43	106.5	167
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen					
	44	=15/22	13	53	864
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	5.78	19/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	14%	=5/19	7%	11%	77%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau⁴¹					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	1	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	147	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£13,226	8/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	62%	15/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	9%	=16/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	5%	8/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	23%	=4/21	1%	15%	35%
c) cyfanswm gwariant fesul pen	£0	=12/21	-£479	£145	£2,865

⁴¹ Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 15 Cost net am bob ymweliad ⁴²	£3.22	13/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ⁴³					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0%	=1/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	2.6%	19/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae Castell-nedd Port Talbot yn perfformio'n dda o ran Gwneud gwahaniaeth (DA1). Yn benodol, mae'r gwasanaeth yn y chwarterel uchaf ar gyfer canran yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd; i ddod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer iechedd a llesiant; ac i wneud gwahaniaeth i'w bywydau, yn ogystal â chanran y bobl ifanc sy'n credu bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a darganfod pethau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn uwch na'r canolrif ar gyfer pob agwedd ar wasanaeth cwsmeriaid, ac yn arbennig o gryf o ran y sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau.

Mae'r gwasanaeth yn nodi, er nad oes unrhyw grwpiau darllen a rennir yn y llyfrgell (DA4), ceir 25 o grwpiau darllen oedolion a phlant, gan gynnwys grwpiau Cymraeg eu hiaith. Hefyd, ceir sesiynau rheolaidd lle mae staff llyfrgelloedd yn ymweld â lleoliadau mewn cymunedau (e.e. ysgolion, cylchoedd chwarae, cartrefi nyrsio) i ddarllen i gynulleidfa oedolion. Mae gan bum llyfrgell ddigwyddiadau/gweithgareddau rheolaidd ar hyn o bryd, ar y cyd â Macmillan, Rhoi'r Gorau i Smygu a HWYL - cyfeiriadau a chanllawiau ar gyfer iechedd meddwl. Mae niferoedd sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol yn y chwarterel uchaf o awdurdodau llyfrgell (DA5). Wrth ddarparu hyfforddiant, mae staff llyfrgell yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allanol fel Cymunedau Digidol Cymru, Cymunedau dros Waith a'r Ganolfan Byd Gwaith.

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae presenoldeb mewn digwyddiadau fesul pen yn y chwarterel uchaf o wasanaethau llyfrgell (DA6). Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau wedi cynyddu'n sylweddol ers codi cyfyngiadau Covid. Mae'r ffigur ar gyfer ymweliadau fesul pen yn uwch na'r canolrif (DA8) ac mae'r gwasanaeth yn nodi bod ffigurau yn gwella, er eu bod yn dal i fod yn is na lefelau cyn 2020. Mae nifer y benthyccwyr gweithredol yn uwch na'r canolrif, ac felly hefyd y ffigur ar gyfer dosbarthu llyfrau i oedolion. Mae Castell-nedd Port Talbot yn is y canolrif ar gyfer rhith-ymweliadau fesul pen. Fodd bynnag, fel sy'n wir ar gyfer llawer o wasanaethau llyfrgell, mae'r wefan yn cael ei defnyddio llai ac mae mwy o ryngweithio yn digwydd trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol ac apiau fel Borrowbox a Pori erbyn hyn. Ceir tystiolaeth o ymgysylltu digidol cryf gan fod y gwasanaeth yn y chwarterel uchaf o awdurdodau ar gyfer e-

⁴² Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

⁴³ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

ddosbarthiadau.

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Nid yw Castell-nedd Port Talbot yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau (DA9) ac mae'n is na'r canolrif ar gyfer gwariant fesul pen ar ddeunyddiau. Mae hefyd yn is na'r canolrif ar gyfer y gyfran o'r gyllideb sy'n cael ei gwario ar adnoddau plant. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn nodi cynnydd i stoc Cymraeg, gan bron i ddyblu gwariant iaith Gymraeg y llynedd a pharhau i fodloni'r gwariant targed eleni (DA10). Fodd bynnag, mae dosbarthiadau fesul pen o siaradwyr Cymraeg yn is na'r canolrif. Mae Castell-nedd Port Talbot yn y chwarter isaf o awdurdodau llyfrgell ar gyfer cyfrifiaduron personol fesul pen, ond yn uwch na'r canolrif ar gyfer canran o amser sydd ar gael y defnyddir cyfrifiaduron personol. Mae'r gwasanaethau yn nodi bod llawer mwy o ddefnyddwyr yn dod â'u dyfeisiau eu hunain i ddefnyddio WiFi llyfrgelloedd, ac yn sgil hynny llai o alw am gyfrifiaduron personol bwrdd gwaith traddodiadol. Mae Castell-nedd Port Talbot yn bodloni'r targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA12).

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Nid yw Castell-nedd Port Talbot yn bodloni'r targedau ar gyfer lefelau staffio cyffredinol na staff cymwysedig. Mae'r rheolwr gweithredol yn gymwysedig, ond mae'r gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer staff cymwysedig fesul pen (DA13). Mae'r gwasanaeth yn nodi bod nifer y staff cyfwerth ag amser llawn wedi gostwng rhyw fymryn oherwydd mân ddiwygiadau i gontractau staff a newidiadau i oriau gwaith i rai aelodau staff. Hefyd, nid yw Castell-nedd Port Talbot yn bodloni'r targed ar gyfer y gyfran o amser staff sydd wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddiant. Yn y datganiad, rhestrir yr heriau parhaus o reoli amser staff a salwch yn ymwneud â Covid, yn ogystal â rheoli cau ac adleoli Llyfrgell Castell-nedd, fel rhesymau am lefelau is o hyfforddiant staff. Er i oriau agor gynyddu ers 2018-19 oherwydd i oriau ychwanegol gael eu hychwanegu at Lyfrgell Castell-nedd, nid yw Castell-nedd Port Talbot yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor o hyd (DA16). Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod hyn yn eithrio darpariaeth trwy lyfrgelloedd a reolir yn gymunedol ac nad oedd unrhyw achosion na chynlluniwyd o gau canghennau sefydlog eleni.

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Castell-nedd Port Talbot yn nodi bod y gwasanaeth llyfrgelloedd, wrth bennu ei nodau strategol, yn dilyn yr amcanion a nodir yng Nghynllun Corfforaethol Castell-nedd Port Talbot, Adfer, Ailosod, Adfywio (2022-2027), sef:

- Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
- Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy
- Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd, ein diwylliant a'n treftadaeth lleol
- Bod pobl leol yn fedrus ac yn cael mynediad i swyddi gwyrdd o ansawdd uchel.

Mae'r amcanion llesiant hyn yn adlewyrchu'r angen i ymateb i'r pandemig ac yn ymwneud â nodau Cymru gyfan, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi darparu o ran prosiectau cenedlaethol sydd wedi cael eu harwain gan nodau Llywodraeth Cymru: Haf o Hwyl 2022 a'r Ymgyrch Iechyd a Llesiant – Lle i Gysylltu. Fodd bynnag, prin oedd y manylion a ddarparwyd yn dynodi sut mae gwasanaethau llyfrgell yn cyfrannu'n benodol at flaenoriaethau'r cyngor a'r llywodraeth.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd dros y flwyddyn ganlynol, mae Castell-nedd Port Talbot yn cyfeirio at ei Gynllun Adfer ar ôl y pandemig. Er bod y pwyslais yn ystod y pedair blynedd diwethaf wedi bod ar brosiectau adleoli ac ailddatblygu graddfa fawr, y nod yn ystod y flwyddyn nesaf fydd cryfhau'r gwasanaeth; parhau i ddatblygu staff drwy hyfforddiant; ac ymgysylltu â phartner sefydliadau a defnyddwyr.

6. Casgliad

Mae llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot yn amlwg yn cael eu gwerthfawrogi gan aelodau'r gymuned leol sydd â barn uchel ohonynt o ran gwasanaeth cwsmeriaid a'r gwahaniaeth y maent yn ei wneud i'w bywydau. Mae gan y gwasanaeth bartneriaethau cryf gyda sawl sefydliad lleol ac mae wedi ymroi i ddarparu gwasanaethau allgymorth yn ogystal â rhai mewn llyfrgelloedd. Mae lefelau presenoldeb mewn hyfforddiant a digwyddiadau, yn ogystal â chyfanswm yr ymweliadau fesul pen, yn gwella ar ôl cyfnod Covid. Er nad yw'r ffigur ar gyfer rhith-ymweliadau yn arbennig o uchel, mae'n ymddangos bod cynnig digidol y gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi gan fod e-ddosbarthiadau yn y chwarterel uchaf. Mae'r gwasanaeth yn amlwg yn gwneud ymdrechion i wella ei ddarpariaeth Gymraeg. Fodd bynnag, ceir pryderon ynghylch y lefel o gaffaeliadau, lefelau staffio ac oriau agor. Yng ngoleuni'r pryderon hyn, byddai'n ymddangos bod cynllun y gwasanaeth i ganolbwyntio ar gryfhau'r gwasanaeth, yn enwedig drwy hyfforddi staff a datblygu partneriaethau, yn un doeth. Fodd bynnag, byddai o gymorth cysylltu'r cynlluniau hyn yn eglur â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Casnewydd

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn natganiad blynyddol, datganiadau effaith ac adroddiad naratif Casnewydd a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Mae Casnewydd yn bodloni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn ac 1 yn rhannol. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, mae Casnewydd yn cyflawni 7 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae dau heb eu cyflawni.

Mae defnyddwyr llyfrgelloedd Casnewydd yn amlwg yn teimlo bod y llyfrgell yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda o ran Gwneud Gwahaniaeth (DA1). Mae llawer o weithgareddau'r gwasanaeth eleni wedi canolbwyntio ar annog plant a phobl ifanc i ddychwelyd i'r llyfrgell, gydag ysgolion ac fel teuluoedd. Mae'n ymddangos bod hyn wedi cael effaith gan fod gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau farn uchel o'r llyfrgell. Mae colli'r swydd Llyfrgellydd Llythrennedd Gwybodaeth wedi cael effaith ar y ddarpariaeth i oedolion, yn ogystal â goblygiadau i lefelau staffio cyffredinol. Mae lefelau staffio ac oriau agor yn destun pryder. Gallai'r heriau hyn arwain at oblygiadau i allu'r gwasanaeth i ddenu defnyddwyr yn ôl i'r llyfrgell ar ôl Covid. Nodir fod y gwasanaeth yn rhagweld heriau sylweddol dros y byrdymor i'r tymor canolig oherwydd pwysau cyllidebol.

- Mae Casnewydd yn y chwarterl uchaf ar gyfer canran yr oedolion sy'n credu fod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau (DA1).
- Ceir cefnogaeth dda i gyfleoedd hyfforddi i ddefnyddwyr; mae Casnewydd yn uwch na'r canolrif ar gyfer presenoldebau fesul pen mewn hyfforddiant defnyddwyr (DA5).
- Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda o ran rhith-ymweliadau fesul pen, sy'n uwch na'r canolrif (DA8).
- Mae Casnewydd yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgell o ran ceisiadau sydd ar gael o fewn 7 diwrnod calendr (DA12).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliadau craidd

Nododd Casnewydd ei fod yn bodloni 11 o'r Hawliau Craidd yn llawn ac 1 yn rhannol drwy hunanasesiad, gan ddarparu sylwebaeth fanwl a defnyddiol yn y datganiad ar bob maes dan sylw. Cytunodd yr asesydd annibynnol â'r hunanasesiad. Bodlonwyd

Hawl Graidd 12 yn rhannol gan fod Strategaeth Llyfrgelloedd 2017-20 ar gael, ond fe wnaeth Covid oedi llunio Strategaeth Llyfrgelloedd wedi'i diweddaru.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Casnewydd yn cyflawni 7 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae dau heb eu cyflawni.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol ar iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	√	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Caffael fesul pen	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau yn Gymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y deunyddiau Cymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	X	
DA 16 Oriau agor fesul pen	X	Heb ei gyflawni

2.3. Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi anelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Mae'r ffigyrau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n darparu data yn y datganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod eraill o bosibl wedi'u heffeithio gan amhariad yn ystod cyfnod y pandemig. O ganlyniad, mae cyfyngiadau i ba raddau y gellid ystyried cymharu'r data hyn.

Cwblhaodd Casnewydd ei arolwg defnyddwyr sy'n oedolion ac yn blant ym mis Mawrth 2022-23.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	93%	=5/16	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	93%	=3/16	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau.	Heb ei darparu	-	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Casnewydd ddatganiad effaith a gyfeiriodd at fam a'i dau o blant a symudodd i'r ddinas yn ddiweddar. Mae'r teulu yn mynychu ac yn gwerthfawrogi'r sesiynau Clwb Stori rheolaidd yn y Llyfrgell Ganolog. Roedd y llyfrgell yn cynnig lle diogel a niwtral lle gallai'r fam gael cymorth gan staff i ddarganfod mwy am yr ardal leol gan gynnwys ysgolion a chyfleoedd gwirfoddoli. O ganlyniad i'r cymorth a ddarparwyd, llwyddodd i ddod o hyd i waith gwirfoddol sy'n cyd-fynd â'i phrofiad proffesiynol.

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Casnewydd ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	80%	6/16	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	74%	=4/16	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	97%	=8/16	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	94%	=4/16	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	98%	=9/17	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	82%	=11/16	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	97%	=10/17	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.5	=5/16	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	28	5/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	56	15/19	5	131	424
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen					
	80	20/22	13	165	559
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	1,106	20/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	733	9/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	43	22/22	43	106.5	167
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen					
	20	21/22	13	53	864
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	3.32	22/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	24%	2/19	7%	11%	77%

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau ⁴⁴					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	3	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	90	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£6,726	21/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	66%	=8/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	20%	4/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	6%	7/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	8%	16/21	1%	15%	35%
c) cyfanswm gwariant fesul pen	£0	=12/21	-£479	£145	£2,865
DA 15 Cost net am bob ymweliad ⁴⁵	£3.52	14/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ⁴⁶					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0.14%	=15/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0%	=1/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yn adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae Casnewydd yn perfformio'n dda o ran Gwneud gwahaniaeth (DA1), gan berfformio yn unol â'r canolrif neu'n uwch ar gyfer pob mesur, ac yn y chwarter uchaf ar gyfer canran yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. O ran mesurau gwasanaethau cwsmeriaid, mae'r gwasanaeth yn perfformio yn arbennig o dda o ran dewis o lyfrau ac o dan sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed (DA2). Er bod Casnewydd yn bodloni'r targedau ar gyfer cymorth iechyd a llesiant (DA3), mae'r gwasanaeth yn nodi nad yw llawer o weithgareddau partneriaeth gwybodaeth iechyd ac ymwybyddiaeth iechyd meddwl wedi ailgychwyn eto ers iddynt gael eu gohirio yn ystod y pandemig. Mae Casnewydd wedi sefydlu grŵp a arweinir gan wirfoddolwyr drwy'r cynllun Cyfeillion Darllen mewn un gangen, a bydd yn asesu'r cynllun peilot hwn gyda'r nod o'i gyflwyno mewn mwy o safleoedd yn y dyfodol. Mae Casnewydd yn uwch na'r canolrif ar gyfer presenoldebau fesul pen mewn hyfforddiant i ddefnyddwyr, ond yn is na'r canolrif ar gyfer hyfforddiant anffurfiol (DA5). Roedd llawer o'r gweithgarwch hyfforddi defnyddwyr eleni yn canolbwyntio ar ymweliadau diweddar ag ysgolion. Darparwyd llai o hyfforddiant o oedolion, gan bartneriaid a'r gwasanaeth llyfrgelloedd.

⁴⁴ Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.

⁴⁵ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

⁴⁶ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r gwasanaeth wedi cynyddu nifer y digwyddiadau a gweithgareddau a gynigir eleni. Bu'r pwyslais ar blant a theuluoedd, gan gynnwys rhaglen o weithgareddau gwyliau a chlybiau stori wythnosol. Fodd bynnag, mae presenoldeb mewn digwyddiadau fesul pen yn y chwarter isaf o awdurdodau llyfrgell Cymru (DA6). Mae colli'r swydd Llyfrgellydd Llythrennedd Gwybodaeth wedi cael effaith ar ddarpariaeth i oedolion, ac felly hefyd newidiadau i'r ffyrdd y mae gwasanaethau eraill (e.e. gwaith a sgiliau) yn ymgysylltu â chleientiaid bellach. Mae nifer yr ymweliadau yn y chwarter isaf o awdurdodau llyfrgell; fodd bynnag, mae rhith-ymweliadau fesul pen yn uwch na'r canolrif (DA8). Mae benthycwyr gweithredol a dosbarthiadau llyfrau oedolion a phlant fesul pen yn y chwarter isaf o awdurdodau llyfrgell.

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Nid yw Casnewydd yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau (DA9), er bod gwariant ar ddeunyddiau fesul pen oddeutu'r canolrif. Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg, ond mae dosbarthiadau fesul pen i siaradwyr Cymraeg yn is na'r canolrif. Mae Casnewydd yn cydnabod lefel isel o ymgysylltiad â'r stoc hwn ac anhawster yn dod o hyd i stoc Cymraeg sy'n adlewyrchu diwylliant cymunedau'r de-ddwyrain. Mae dros hanner y gyllideb iaith Gymraeg wedi'i neilltuo i stoc iau, sydd â lefel uwch o ddefnydd. Disgwylir i amseroedd stori a sesiynau tylino babanod Cymraeg ailgychwyn yn y flwyddyn i ddod. Er bod Casnewydd yn y chwarter isaf ar gyfer nifer y cyfrifiaduron personol fesul pen, ceir defnydd cymharol dda o'i gyfleusterau TG, ac mae yn y chwarter uchaf ar gyfer yr amser y mae cyfrifiaduron personol yn cael eu defnyddio yn weithredol (DA11). Mae'r gwasanaeth yn dweud bod y gostyngiad i nifer y cyfrifiaduron personol cyhoeddus yn adlewyrchu newidiadau i adeiladau llyfrgell ac effaith pandemig Covid. Mae Casnewydd yn bodloni'r targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau ac yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgell ar gyfer ceisiadau sydd ar gael o fewn 7 diwrnod calendr (DA12).

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Nid yw Casnewydd yn bodloni'r targedau ar gyfer lefelau staffio cyffredinol nac ar gyfer staff cymwysedig fesul pen, er bod ganddo reolwr gweithredol cymwysedig o hyd (DA13). Mae yn y chwarter isaf o awdurdodau llyfrgell ar gyfer lefelau staffio. Cafodd maint y staff ei leihau o un yn 22-23 oherwydd i swydd broffesiynol wag gael ei dileu oherwydd pwysau ariannol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn methu â bodloni'r targed ar gyfer y gyfran o amser staff sydd wedi'i neilltuo i hyfforddiant. Er eu bod yn y chwarter isaf o awdurdodau llyfrgell ar gyfer cyfanswm gwariant fesul pen (DA14), mae'r ffigur cost fesul ymweliad yn llyfrgelloedd Casnewydd yn uwch na'r canolrif (DA15). Yn ystod pandemig Covid, fe wnaeth y gwasanaeth roi'r gorau i ddefnyddio gwirfoddolwyr mewn llyfrgelloedd cangen a chynhaliwyd y gwaharddiad hwn yn amodol ar adolygiad gwasanaeth sydd ar fin cael ei gynnal. Nid yw Casnewydd yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor (DA16), er ei bod yn werth nodi nad yw'r oriau agor a adroddwyd yn cynnwys unrhyw amseroedd pan allai gwasanaethau llyfrgell mewn safle a rennir fod ar gael y tu allan i oriau llyfrgell wedi'u staffio.

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Casnewydd yn tynnu sylw at ymrwymïadau yn y Rhaglen Lywodraethu y mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Casnewydd naill ai'n eu cefnogi ar hyn o bryd neu â gweithgarwch wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol sy'n cyd-fynd â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol.

- **Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed:** Gwasanaeth Danfoniadau Cartref; rhaglen Cyfeillion Darllen beilot yn Llyfrgell Malpas, â chyflwyniad arfaethedig i lyfrgelloedd cangen mawr yn ystod 2023; gwaith partneriaeth gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Casnewydd i ddarparu cymorth llythrennedd digidol wedi'i deilwra i ofalwyr maeth.
- **Parhau ein rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau yn codi:** rhaglen ddigideiddio ar gyfer deunydd yn ymwneud â hanes Casnewydd a Gwent.
- **Dathlu amrywiaeth a gweithredu i gael gwared ar anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau:** casglu stoc lyfrau ieithoedd cymunedol yn y Llyfrgell Ganolog.
- **Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a chelfyddydau i ffynnu:** canolbwyntio ar ddarparu stoc sy'n addas ar gyfer dysgwyr ac ar gyfer plant iau a gweithio mewn partneriaeth â'r Mudiad Meithrin i gynnal sesiynau rhigwm a ioga babanod Cymraeg eu hiaith.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd dros y flwyddyn ganlynol, mae Casnewydd yn nodi y rhoddyd strwythur corfforaethol newydd ar waith ym mis Hydref 2022, a arweiniodd i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd ddod yn rhan o'r tîm Adfywio Cymunedol yn y maes gwasanaeth Tai a Chymunedau newydd. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i weithio i ddatblygu cysylltiadau gyda'r timau hyn. Fodd bynnag, bydd y Gwasanaeth yn wynebu heriau sylweddol dros y byrdymor i'r tymor canolig wrth i Gyngor Dinas Casnewydd gymryd camau i ymateb i bwysau cyllidebol a ragwelir. Mae adolygiad optimeiddio asedau ar y gweill ar hyn o bryd, sy'n cynnwys y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, a nodwyd bod cydleoli gwasanaethau cymunedol yn faes allweddol i'w ddatblygu ymhellach. Bydd datblygiad Strategaeth Llyfrgelloedd newydd bellach yn rhan o'r dull corfforaethol cyffredinol. Ffactor arall a fydd yn hysbysu'r cyfeiriad yn y dyfodol yw effeithiau hirdymor pandemig Covid, ac yn benodol pa un fydd hyn yn arwain at newid parhaol i'r defnydd o wasanaethau ar-lein.

6. Casgliad

Mae defnyddwyr llyfrgelloedd Casnewydd yn amlwg yn teimlo bod y llyfrgell yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda o ran Gwneud Gwahaniaeth (DA1). Mae llawer o weithgareddau'r gwasanaeth eleni wedi canolbwyntio ar annog plant a phobl ifanc i ddychwelyd i'r llyfrgell, gydag ysgolion ac fel teuluoedd. Mae'n ymddangos bod hyn wedi cael effaith gan fod gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau farn uchel o'r llyfrgell. Mae colli'r swydd Llyfrgellydd Llythrennedd

Gwybodaeth wedi cael effaith ar y ddarpariaeth i oedolion, yn ogystal â goblygiadau i lefelau staffio cyffredinol. Mae lefelau staffio ac oriau agor yn destun pryder. Nodir fod y gwasanaeth yn rhagweld heriau sylweddol dros y byrdymor i'r tymor canolig oherwydd pwysau cyllidebol.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Sir Benfro

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn natganiad blynyddol, datganiadau effaith ac adroddiad naratif Sir Benfro a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Mae Sir Benfro yn bodloni bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, cyflawnodd Casnewydd 6 yn llawn a 2 yn rhannol. Ni chyflawnwyd dau.

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Sir Benfro yn boblogaidd yn y gymuned leol; mae ymweliadau fesul pen yn uwch na'r canolrif ar gyfer gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru a cheir barn uchel o'r gwasanaeth o ran y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i fywydau pobl. Mae cau Llyfrgell Arberth wedi effeithio ar berfformiad y gwasanaeth o ran sawl DA eleni, ond darparodd Sir Benfro wybodaeth gynhwysfawr yn amlinellu sut y bydd yn gallu symud allan o'i safle dros dro ac ailgychwyn gwasanaeth llawn yn fuan. Mae cyllidebau ar gyfer staffio a chaffaeliadau yn bryder parhaus. Fodd bynnag, un o gryfderau datganiad Sir Benfro yw ei gynlluniau eglur ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol bod hwn yn debygol o fod yn gyfnod anodd ond mae wedi nodi blaenoriaethau ymarferol i symud y gwasanaeth ymlaen.

- Mae Sir Benfro yn perfformio'n dda o ran Gwneud gwahaniaeth; mae yn y chwarterl uchaf i awdurdodau llyfrgell Cymru o ran canran y bobl ifanc sy'n credu bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a darganfod pethau; canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau; ac sydd â phrofiad o'r llyfrgell fel lle i'w fwynhau, sy'n ddiogel ac yn gynhwysol (DA1).
- Mae gan blant a phobl ifanc farn uchel o Sir Benfro; mae yn y chwarterl uchaf o wasanaethau llyfrgelloedd i ddefnyddwyr 16 oed ac iau yn rhoi sgôr allan o ddeg (DA2).
- Er bod defnydd o wasanaethau llyfrgelloedd yn dal i gael ei effeithio gan etifeddiaeth pandemig Covid, mae ffigurau defnydd yn cynyddu ac mae nifer yr ymweliadau fesul pen yn uwch na'r canolrif erbyn hyn (DA8).
- Ceir cefnogaeth dda i ddarpariaeth Gymraeg; mae dosbarthiadau fesul pen o siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r ffigur canolrifol (DA10).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliadau craidd

Nododd Sir Benfro ei fod wedi bodloni pob un o'r 12 Hawl Craidd yn llawn drwy hunanasesiad. Mae'r asesydd annibynnol yn derbyn yr hunanasesiad yn seiliedig ar asesiadau a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA), ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Sir Benfro yn cyflawni 6 yn llawn a 2 yn rhannol. Mae dau heb eu cyflawni. Fe wnaeth cau Llyfrgell Arberth ar frys ym mis Tachwedd 2022 effeithio ar allu'r gwasanaeth i gyflawni DA3 a DA6 yn llawn.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n rhannol
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	x	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol ar iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	x	Heb ei gyflawni
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Caffael fesul pen	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau yn Gymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y deunyddiau Cymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	√	
DA 16 Oriau agor fesul pen	√	Cyflawni'n llawn

2.3. Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi anelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Mae'r ffigyrau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n darparu data yn y datganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod eraill o bosibl wedi'u heffeithio gan amhariad yn ystod cyfnod y pandemig. O ganlyniad, mae cyfyngiadau i ba raddau y gellid ystyried cymharu'r data hyn.

Cwblhaodd Sir Benfro ei arolwg defnyddwyr sy'n oedolion ac yn blant ym mis Mawrth 2023.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	98%	1/16	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	93%	=3/16	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau.	96%	=9/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Benfro asesiad effaith yn canolbwyntio ar brofiad ymwelydd ag awtistiaeth â Llyfrgell Aberdaugleddau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae wedi ymweld â'r llyfrgell ac wedi gwerthfawrogi'r croeso cynnes gan staff sydd wedi creu man diogel iddo. Mae'r staff yn treulio amser yn darllen ac yn sgwrsio ag ef, sy'n gwneud iddo deimlo'n ddiogel ac yn hapus ac mae'n ystyried bod y staff yn gyfeillion ac yn gymdeithion iddo. Mae'r staff wedi gweithio yn ofalus i feithrin perthynas ag ef a sicrhau ei fod yn teimlo'n ddiogel yn y llyfrgell ac o ganlyniad, mae ei ymweliadau rheolaidd â'r llyfrgell yn cael eu dewis o flaen ac uwchben unrhyw ymweliadau eraill a gynigir.

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Benfro ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	75%	7/16	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	68%	8/16	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	100%	=1/16	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	91%	=8/16	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	98%	=9/17	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	87%	=7/16	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	98%	=5/17	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.7	=1/16	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	3	18/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	130	11/19	5	131	424
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen					
	83	19/22	13	165	559
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	2,232	10/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	217	19/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	71	19/22	43	106.5	167
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen					
	56	10/22	13	53	864
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	7.20	15/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	9%	=13/19	7%	11%	77%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau⁴⁷					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	35	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	1,446	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£11,476	11/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	60%	=17/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	8%	20/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	3%	=11/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	29%	2/21	1%	15%	35%
c) cyfanswm gwariant fesul pen	£234	9/21	-£479	£145	£2,865

⁴⁷ Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 15 Cost net am bob ymweliad ⁴⁸	£2.76	10/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ⁴⁹					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0.95%	22/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.25%	15/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae Sir Benfro yn perfformio'n dda o ran Gwneud gwahaniaeth (DA1); mae yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgell Cymru o ran canran y bobl ifanc sy'n credu bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a darganfod pethau; canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau; ac sydd o'r farn bod y llyfrgell yn lle y maent yn ei fwynhau, sy'n ddiogel ac yn gynhwysol. Er ei fod yn uwch na'r canolrif ar gyfer canran yr oedolion sy'n dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol am iechyd a llesiant, mae'r gwasanaeth yn nodi bod y ffigur hwn wedi gostwng, felly ceir cynlluniau i adolygu'r ddarpariaeth o wybodaeth iechyd a llesiant. Mae Sir Benfro yn y chwarterl uchaf o wasanaethau llyfrgelloedd ar gyfer defnyddwyr 16 ac iau yn rhoi sgôr allan o ddeg (DA2). Mae hefyd yn perfformio'n dda o ran bodlonrwydd cwsmeriaid sy'n oedolion, sydd oddeutu'r canolrif ar gyfer pob mesur. Roedd y gwasanaeth yn cyflawni'r dangosydd ar gyfer Cefnogaeth i ddatblygiad unigolion (DA3) yn rhannol, oherwydd cau brys Llyfrgell Arberth (o ganlyniad i ddifrod strwythurol). Er i'r gwasanaeth gymryd mesurau a ystyriwyd yn drwyadl i sicrhau y gallai gwasanaeth sylfaenol barhau i gael ei ddarparu, nid yw mynediad i'r cyhoedd at TG wedi bod yn bosibl tra bod y llyfrgell ar ei safle dros dro.

Mae presenoldeb mewn hyfforddiant ffurfiol yn is na'r canolrif (DA5). Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod nifer y presenoldebau mewn sesiynau hyfforddi defnyddwyr yn is na'r ffigur cyn Covid, pan roedd sesiynau yn cael eu darparu gan drydydd partiön, fel Canolfan Byd Gwaith, i raddau helaeth. Cafodd capasiti cyfyngedig staff llyfrgelloedd effaith ar nifer y sesiynau hefyd. Fodd bynnag, mae'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant anffurfiol, a chanran y rhai a oedd yn bresennol a ddywedodd bod hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau yn cyfateb i'r ffigur canolrifol, neu'n agos ato.

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Cynhaliwyd sesiynau ar gyfer pobl â gofynion arbennig mewn 10 llyfrgell, ond cafodd y sesiwn yn Arberth ei chanslo oherwydd y cau brys. Ni wnaeth Sir Benfro fodloni'r targed ar gyfer DA6 felly. Mae presenoldeb fesul pen mewn digwyddiadau yn is na'r canolrif, ond yn dechrau gwella ar ôl Covid. Plant oedd mwy na hanner y rhai a oedd yn bresennol mewn digwyddiadau. Mae nifer yr ymweliadau fesul pen rhyw fymryn yn uwch na'r canolrif (DA8). Er bod y gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer nifer y

⁴⁸ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

⁴⁹ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

trawiadau gwefan, benthycwyr gweithredol a dosbarthiadau llyfrau, mae'r llyfrgell yn adrodd bod pob mesur wedi cynyddu o'r flwyddyn cynt.

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae'r gwasanaeth yn adrodd ei fod wedi cynyddu ei wariant a nifer yr eitemau a brynwyd o ganlyniad i ddefnyddio rhan o gronfa lyfrau wrth gefn sydd wedi bod yn weithredol ers rhai blynyddoedd. Mae'r gwasanaeth yn teimlo y dylai'r gronfa wrth gefn helpu i gynnal y ddarpariaeth dros y tymor canolig, y rhagwelir y bydd yn amgylchedd ariannol heriol iawn. Fodd bynnag, er gwaethaf y ddarpariaeth ychwanegol hon, ni wnaeth Sir Benfro fodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau ac roedd ei wariant fesul pen ar ddeunyddiau yn is na'r canolrif (DA9). Mae canran y gyllideb a neilltuwyd i adnoddau plant hefyd yn is na'r canolrif, er bod Sir Benfro yn dweud bod hyn wedi cynyddu ers y llynedd. Mae Sir Benfro yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau Cymraeg a rhyw fymryn yn uwch na'r canolrif ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg fesul pen o siaradwyr Cymraeg (DA10). Mae'r gwasanaeth wedi bod yn canolbwyntio ar adnoddau Cymraeg ar gyfer plant ifanc a stoc oedolion ar gyfer y llyfrgell symudol. Lluniwyd Cynllun Gweithredu i hyrwyddo adnoddau Cymraeg yn fwy effeithiol.

Mae Sir Benfro yn is na'r canolrif ar gyfer nifer y cyfrifiaduron personol fesul pen, ond hefyd yn is na'r canolrif ar gyfer canran yr amser y caiff y rhain eu defnyddio yn weithredol (DA11). Mae'r gwasanaeth yn nodi bod defnydd o gyfrifiaduron personol eisoes yn gostwng cyn Covid ac mae wedi adolygu lefel y ddarpariaeth yng ngoleuni'r galw dirywiol hwn am gyfrifiaduron personol sefydlog ochr yn ochr â niferoedd cynyddol o gwsmeriaid yn dod â'u dyfeisiau eu hunain a mwy o ddefnydd o WiFi yn ystod oriau di-staff. Mae rhaglen barhaus o ddisodli cyfrifiaduron personol ym mhob llyfrgell sefydlog yn cael ei chynnal. Mae Sir Benfro yn bodloni'r targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA12) yn gyfforddus.

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Nid yw Sir Benfro yn bodloni'r targedau ar gyfer lefelau staffio cyffredinol na staff cymwysedig fesul pen, er bod ganddo reolwr gweithredol cymwysedig ac yn bodloni'r targed ar gyfer y gyfran o amser staff sydd wedi'i neilltuo i hyfforddiant (DA13). Mae gwirfoddolwyr wedi'u lleoli mewn tair llyfrgell a reolir yn gymunedol. Nodir bod dwy lyfrgell a reolir yn gymunedol wedi lleihau eu horiau ar ôl Covid ac yn ceisio recriwtio mwy o wirfoddolwyr, gan fod eu niferoedd wedi dirywio. Mae Sir Benfro yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor, ond mae cau manau gwasanaeth sefydlog na chynlluniwyd ac arosfannau symudol/danfoniadau cartref a fethwyd yn uwch na'r canolrif (DA16). Roedd hyn oherwydd bod angen gwaith atgyweirio brys yn Llyfrgell Arberth yn arwain at symud i safle dros dro; llifogydd yn Llyfrgell Saundersfoot; a bod angen gwaith atgyweirio brys i gerbyd y llyfrgell symudol.

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Sir Benfro yn cysoni blaenoriaethau a amlinellir yn ei Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd â nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i greu cymunedau cryfach ac iachach, i leihau tloedi ac i

ddarparu rhagoriaeth yn effeithlon. Mae'r gwasanaeth yn darparu nifer o enghreifftiau penodol, ac amlinellir detholiad o'r rhain isod.

- **Cymru lewyrchus (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol):** Bydd llyfrgelloedd Penfro ac Arberth yn cael eu symud i leoliad mwy canolog yn eu cymunedau yn rhan o ddatblygiadau ehangach sy'n cynnwys atyniadau diwylliannol, caffis a chartrefi newydd. Bydd y llyfrgelloedd newydd hefyd mewn cyfleusterau 'adeilad newydd' a rennir ac sy'n fwy effeithlon o ran ynni.
- **Cymru iachach (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol): Llesiant ac Atal (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant):** Mae ystafelloedd 'Hyb Bywyd' ar gael mewn rhai llyfrgelloedd fel y gall gweithwyr iechyd proffesiynol gyfarfod mewn lleoliad anghlinigol digyffro.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol): Partneriaeth ac Integreiddio (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant):** sicrhaodd y Gwasanaeth Llyfrgelloedd statws Lefel Arian ar gyfer 'Buddsoddwyr mewn Gofalwyr' fel cydnabyddiaeth o arferion gorau o ran nodi a chynorthwyo gofalwyr di-dâl o bob oed.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol):** mae'r gwasanaeth wedi nodi tri maes i'w hystyried: adnoddau Cymraeg (llyfrau ac e-lyfrau), gweithio partneriaeth ac asesu sgiliau Cymraeg ymhlith staff.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd dros y flwyddyn ganlynol, mae Sir Benfro yn amlinellu i symudiad o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol i'r Gyfarwyddiaeth Addysg, y rhagwelir fydd yn arwain at fwy o ymgysylltiad ag ysgolion, dysgu i oedolion a gwasanaethau cynhwysiant. Bydd llyfrgell newydd yn cael ei hagor yn Arberth, mewn partneriaeth â'r gymuned leol, a bydd y gwasanaeth yn parhau i fwrw ymlaen a'r llyfrgell newydd ym Mhenfro, y disgwylir iddi agor yn 2025. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod y bydd materion cyllidebu yn heriol, ond mae'n bwriadu archwilio gwaith cydweithredol pellach gyda chynghorau tref a chymuned er mwyn diogelu a gwella gwasanaethau tra'n lleihau costau. Mae Sir Benfro hefyd yn bwriadu cwblhau a dechrau gweithredu polisi stoc newydd a gwella gwasanaethau digidol trwy newid darparwr Wi-Fi, treialu argraffu Wi-Fi a gwella presenoldeb gwe'r llyfrgelloedd. Bydd hefyd yn adolygu ei gynllun cyfathrebu i ymchwilio i'r ymarferoldeb o gael gwared ar ffioedd cadw a dirwyon, a darparu ei brosiect iaith Gymraeg.

6. Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Sir Benfro yn boblogaidd yn y gymuned leol; mae ymweliadau fesul pen yn uwch na'r canolrif ar gyfer gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru a cheir barn uchel o'r gwasanaeth o ran y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i fywydau pobl. Mae cau Llyfrgell Arberth wedi effeithio ar berfformiad y gwasanaeth o ran sawl DA eleni, ond darparodd Sir Benfro wybodaeth gynhwysfawr yn amlinellu sut y bydd yn gallu symud allan o'i safle dros dro ac ailgychwyn gwasanaeth llawn yn fuan. Mae cyllidebau ar gyfer staffio a chaffaeliadau yn bryder parhaus. Fodd bynnag, un o gryfderau datganiad Sir Benfro yw ei gynlluniau eglur ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol bod hwn yn debygol o fod yn

gyfnod anodd ond mae wedi nodi blaenoriaethau ymarferol i symud y gwasanaeth ymlaen.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Powys

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn natganiad blynyddol, datganiadau effaith ac adroddiad naratif Powys a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Powys gyflawni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn a 2 yn rhannol. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, cyflawnodd Powys 8 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chyflawnwyd dau darged.

Mae Powys yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys dosbarthiadau Cymraeg, presenoldeb mewn hyfforddiant defnyddwyr, rhith-ymweliadau a benthycwyr gweithredol. Mae cymorth iechyd a llesiant yn un o gryfderau eraill y gwasanaeth, wedi'i gefnogi gan weithio partneriaeth gyda nifer o sefydliadau. Rhagwelir y bydd y rhaglen Trawsnewid Symudol yn helpu'r gwasanaeth i sicrhau y gall trigolion nad ydynt yn gallu ymweld â llyfrgell barhau i ddefnyddio'r gwasanaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y gwasanaeth yn bwrw ymlaen â chynlluniau i gynnal arolwg defnyddwyr cyfredol yn y flwyddyn i ddod. Mewn llawer o ffyrdd, mae Powys yn dechrau cyfnod a allai fod yn gyffrous, â dau brosiect adeiladu cyfalaf ar fin cychwyn. Mae gan y gwasanaeth bwyslais eglur hefyd o ran dyfodol cymorth digidol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa staffio yn destun pryder, ac yn benodol nifer o flynyddoedd heb Brif Lyfrgellydd yn y swydd oherwydd secondiad rheolwr gweithredol. Mae hyn yn digwydd ar adeg pan fod arweinyddiaeth dda yn debygol o fod yn arbennig o bwysig o gofio'r prosiectau trawsnewid allweddol sy'n cael eu cynnal a datblygiad strategaeth/gwasanaeth digidol.

- Ceir presenoldeb da mewn cyfleoedd hyfforddi defnyddwyr; mae Powys yn uwch na'r canolrif ar gyfer presenoldeb mewn hyfforddiant defnyddwyr ffurfiol (DA5).
- Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda o ran rhith-ymweliadau a benthycwyr gweithredol fesul pen, y mae'r ddau ohonynt yn uwch na'r canolrif (DA8).
- Ceir defnydd da o'r ddarpariaeth Gymraeg; mae dosbarthiadau Cymraeg fesul pen o siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r canolrif (DA10).
- Ceir mynediad da at ddarpariaeth ddigidol; mae'r gwasanaeth yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgell ar gyfer y ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol fesul pen (DA11).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliadau craidd

Nododd Powys ei fod yn cyflawni 10 o'r Hawliau Craidd yn llawn ac 1 yn rhannol drwy hunanasesiad, ac roedd yr Hawl Graidd sy'n weddill heb ei gyflawni. Fodd bynnag, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod Powys yn cyflawni 10 Hawl Graidd yn llawn a 2 yn rhannol. Yn achos CE11, er nad yw'r gwasanaeth wedi cynnal arolwg defnyddwyr ers y pandemig, mae wedi cynnal arolygon oedolion a phlant yn ystod cyfnod y Fframwaith ac mae'n bwriadu cynnal arolygon yn y flwyddyn i ddod.

Hawl Graidd	Hunanasesiad	Asesydd annibynnol
1. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
2. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
3. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, cyfranogiad cymunedol, a diwylliant a hamdden.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
4. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
5. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
6. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.	Cyflawni'n rhannol	Cyflawni'n rhannol
7. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys Wi-Fi, yn rhad ac am ddim.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
8. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
9. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
10. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
11. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.	Heb ei gyflawni	Cyflawni'n rhannol
12. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at strategaeth, polisiau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA), ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Powys yn cyflawni 7 yn llawn ac 1 yn rhannol. Nid oedd dau darged wedi'u cyflawni.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol ar iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	√	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	X	Heb ei gyflawni
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Caffael fesul pen	√	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	-	
DA 10 Adnoddau yn Gymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y deunyddiau Cymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n rhannol
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	X	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Heb ei gyflawni
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	Heb ei ddarparu ⁵⁰	
iv) Canran DPP	Heb ei ddarparu	
DA 16 Oriau agor fesul pen	√	Cyflawni'n llawn

2.3. Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi anelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Mae'r ffigyrau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n darparu data yn y datganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod eraill o bosibl wedi'u heffeithio gan amhariad yn ystod cyfnod y pandemig. O ganlyniad, mae cyfyngiadau i ba raddau y gellid ystyried cymharu'r data hyn.

Mae gan Bowys gynlluniau i gynnal arolygon defnyddwyr sy'n oedolion ac yn blant yn 2023-24.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	Heb ei ddarparu	/16	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	Heb ei ddarparu	/16	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau.	Heb ei ddarparu	/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Powys ddatganiad effaith yn ymwneud â chwsmer y rhoddwyd cymorth digidol iddi gan y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi hwyluso mynediad at ddsbarthiadau Cymraeg ar-lein i alluogi'r cwsmer i gymryd rhan mewn diddordebau diwylliannol o'i chartref. Mae hyn wedi cyfoethogi ei bywyd, gan ei chadw'n weithredol yn feddyliol a lleihau teimladau o ddiflastod ac arwahanrwydd. Mae darparu mynediad at adnoddau myfyrdod wedi ei chynorthwyo gyda'i hiechyd meddwl a rheolaeth o straen a gorbryder yn deillio o'i chyflwr iechyd. Grymuswyd y cwsmer i ddefnyddio technoleg i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, ac mae'r

⁵⁰ Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Powys wedi bod yn gweithredu heb Brif Lyfrgellydd ers mis Tachwedd 2021.

gwasanaeth llyfrgelloedd wedi meithrin synnwyr o berthyn a chefnogaeth emosiynol yn ystod cyfnodau anodd. Mae hyn wedi effeithio'n gadarnhaol ar ei hiechyd a'i hansawdd bywyd.

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Powys ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	Heb ei ddarparu	-	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	Heb ei ddarparu	-	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	Heb ei ddarparu	-	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	Heb ei ddarparu	-	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	Heb ei ddarparu	-	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	Heb ei ddarparu	-	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	Heb ei ddarparu	-	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	Heb ei ddarparu	-	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	16	9/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	Heb ei ddarparu	-	5	131	424
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen					
97	18/22	13	165	559	
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	2,076	14/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	1,270	5/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	131	6/22	43	106.5	167
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen					
69	9/22	13	53	864	
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	16.70	2/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	7%	=17/19	7%	11%	77%

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau ⁵¹					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	59	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	1,909	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£9,256	15/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	61%	16/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	13%	=7/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	7%	=5/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	19%	9/21	1%	15%	35%
c) cyfanswm gwariant fesul pen	£178	10/21	-£479	£145	£2,865
DA 15 Cost net am bob ymweliad ⁵²	£1.16	2/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ⁵³					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0.34%	=18/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	Amh.	-	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Ni ddarperir unrhyw ddata o ran DA1 na DA2 eleni. Mae Powys yn bodloni'r targedau ar gyfer Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol (DA3) a Chefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant (DA4) yn llawn. Yn ogystal â'r gwasanaethau safonol, mae Powys wedi datblygu dau gynllun cymorth llyfrau arall mewn pedair llyfrgell ar draws y sir (ac sydd ar gael ar gais mewn manau eraill): Llyfrau am Ganser - prosiect ar y cyd â Gwella'r Daith Ganser ym Mhowys ac a ariennir gan Gronfa Elusennol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, a Llyfrau am Brofedigaeth i Blant, prosiect gyda Thîm Comisiynu Cyngor Sir Powys i gynorthwyo teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth. Mae gweithgareddau ymwybyddiaeth iechyd meddwl yn cynnwys grŵp galar a sesiynau Mums Matter i famau newydd sy'n teimlo'n isel, yn orbryderus neu wedi'u gorlethu. Mae Powys yn uwch na'r canolrif ar gyfer presenoldeb mewn hyfforddiant defnyddwyr ffurfiol (DA5). Er nad oes unrhyw ddata ar gael ar gyfer hyfforddiant anffurfiol, mae'r holl staff yn darparu cymorth TGCh sylfaenol i gwsmeriaid. Hefyd, trwy gyllid grant Ffyniant Cyffredin, mae'r gwasanaeth yn datblygu rhai llyfrgelloedd yn Hybiau Cymunedol Digidol.

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Powys yn cydnabod bod y gwasanaeth yn dal i fod yn y sefyllfa o ail-adeiladu cynulleidfaoedd ar ôl y pandemig, ac mae wedi cymryd ychydig o amser i ailgychwyn

⁵¹ Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.

⁵² Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

⁵³ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

gweithgareddau. Mae presenoldeb mewn digwyddiad y pen yn is na'r canolrif ar gyfer gwasanaethau llyfrgelloedd Cymru (DA6). Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau yn cynnwys ymweliadau awduron, gweithgareddau Mannau Cynnes, sesiynau cyngor Gyrfa Cymru, clinigau cymorth clyw, a sesiynau galw heibio i ffoaduriaid o Wcráin.

Nid yw Powys yn bodloni'r targed ar gyfer lleoli gwasanaethau (DA7). Nodir dwysedd poblogaeth isel y sir o ran y targed hwn. Hefyd, ers y pandemig, cafwyd gwared ar y ddwy lyfrgell symudol o'r gwasanaeth yn barhaol. Mae Powys yn gweithio ar raglen Trawsnewid Symudol ac yn ystyried ffyrdd o weithredu gwasanaeth danfoniadau cartref ar gyfer trigolion mwy agored i niwed, gyda chymorth grwpiau gwirfoddolwyr ledled y sir. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnig Archebu a Chasglu, ac yn gweithio gyda gwirfoddolwyr i ddarparu deunyddiau darllen i'r rhai nad ydynt yn gallu ymweld â llyfrgell. Mae ymweliadau fesul pen ychydig yn is na'r canolrif (er gwaethaf nifer o bwyntiau gwasanaeth a rennir yn cyfrif cyfanswm yr ymwelwyr, nid mynediad at y llyfrgell yn unig). Fodd bynnag, mae rhith-ymweliadau a benthyccwyr gweithredol fesul pen yn uwch na'r canolrif (DA8). Mae dosbarthiadau llyfrau i oedolion ac e-ddosbarthiadau fesul pen hefyd yn uwch na'r canolrif.

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae Powys yn bodloni'r targed ar gyfer nifer y caffaeliadau fesul pen, er ei fod yn is na'r canolrif ar gyfer gwariant fesul pen ar ddeunyddiau (DA9). Mae'r gwasanaeth yn nodi cynnydd i wariant ar lyfrau plant o ganlyniad i gyllid grant drwy'r ffrwd Lluosi'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i brynu llyfrau Nifer i Fyny i gynorthwyo rhieni i wella eu sgiliau rhifedd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn bodloni'r targed ar gyfer gwariant canrannol ar ddeunyddiau Cymraeg, ac mae'r dosbarthiadau Cymraeg fesul pen yn uwch na'r canolrif (DA10). Mae gan nifer o lyfrgelloedd sesiynau Cymraeg i Blant sy'n cynnwys loga Babi a Stori a Chân yn ogystal â grwpiau sgwrsio Cymraeg i ddysgwyr sy'n oedolion. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol fesul pen yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgell, er bod canran yr amser sydd ar gael a ddefnyddir gan y cyhoedd yn is na'r canolrif (DA11). Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod y defnydd o gyfrifiaduron bwrdd gwaith yn parhau i ostwng; fodd bynnag, ceir defnydd cynyddol o Wi-Fi. Mae Powys yn bodloni'r targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau yn rhannol (DA12), yn rhannol oherwydd y ffaith mai un danfoniad yr wythnos yn unig sydd gan rai llyfrgelloedd bellach.

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Nid yw Powys yn bodloni'r targed ar gyfer staffio cyffredinol fesul pen na staff cymwysedig fesul pen, er bod yr olaf yn uwch na'r canolrif ac mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo un aelod o staff i ennill cymhwyster llyfrgell ar hyn o bryd (DA13). Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Powys wedi bod yn gweithredu heb Brif Lyfrgellydd ers mis Tachwedd 2021. Mae'r Prif Lyfrgellydd ar secondiad ar hyn o bryd a disgwylir iddo ddychwelyd ym mis Ebrill 2024, ac felly mae'r gwasanaeth yn parhau i weithredu heb unrhyw reolwr gweithredol dynodedig, er bod dau Uwch Lyfrgellydd wedi derbyn honoraria o fis Mehefin 2023. Ni ddarperir unrhyw ddata o ran amser a neilltuir ar gyfer hyfforddiant staff. Mae Powys yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor, ond mae'n uwch na'r ffigur canolrifol ar gyfer achosion o gau heb ei gynllunio a brys (DA16). Roedd y rhain oherwydd methiant cyfleustodau a staff ddim ar gael.

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlinellir enghreifftiau o gyfraniadau a wnaed gan wasanaeth llyfrgelloedd Powys isod.

- **Cymru Iachach:** gweithio gyda sefydliadau a grwpiau arbenigol neu gyfeirio atynt.
- **Cymru sy'n Fwy Cyfartal:** y ddarpariaeth o offer TG, band eang a wi-fi am ddim, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig fel Powys, lle mae mynediad at fand eang yn wael, i faes addysg, busnesau bach a chwilio am swyddi; mae cynllun benthyg iPad a ariannwyd gan grant wedi caniatáu i'r gwasanaeth dreialu rhannu adnoddau digidol a mynediad rhyngwyd mi-fi am ddim ymhlith cwsmeriaid sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn ddigidol.
- **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu:** sesiynau gyda Cymraeg i Blant a grwpiau sgwrsio dysgwyr Cymraeg.
- **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang:** mae defnyddio llyfrgelloedd yn denu trigolion ac ymwelwyr i ganol trefi, gan greu gwerth i'r economi leol trwy wariant cysylltiedig; mae'r nifer fawr o wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo llyfrgelloedd erbyn hyn yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau ar gyfer y dyfodol.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd dros y flwyddyn ganlynol, mae Powys yn disgrifio'r pwyslais ar gyfer y dyfodol fel: datblygu gwasanaeth llyfrgelloedd sy'n gynaliadwy yn ariannol; harneisio galluedd digidol; ac ehangu'r rhwydwaith o bartneriaid a gwirfoddolwyr. Mae Cyngor Sir Powys wrthi'n cynnal Adolygiad Gwasanaethau Cwsmeriaid, ac mae ei ganlyniad yn debygol o gael effaith ar y gwasanaeth llyfrgelloedd. Hefyd, mae'r gwasanaeth yn adrodd pwysau staffio ar bob lefel; mae'n gweithredu heb Brif Lyfrgellydd ar hyn o bryd ac yn ei chael yn anodd recriwtio ymgeiswyr o ansawdd da i swyddi ag oriau prin a chontractau achlysurol. Hefyd, mae'r gyllideb stoc ar gyfer 2023-24 wedi cael ei thorri yn sylweddol.

Disgwylir i ddau brosiect cyfalaf ddechrau gwaith adeiladu yn yr hydref, yn Y Lanfa (Llyfrgell y Trallwng ac Amgueddfa Powysland) a Llyfrgell Ystradgynlais. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu hybiau cymunedol digidol, gan gefnogi dinasyddiaeth ddigidol a mynd i'r afael ag allgau digidol. Bydd swyddogion Cymorth Digidol yn hyrwyddo cyfleusterau ar y safle, yn darparu hyfforddiant i staff, yn darparu cymorth galw heibio digidol i'r cyhoedd ac yn recriwtio gwirfoddolwyr i sicrhau cynaliadwyedd y prosiect. Bydd Nifer i Fyny!, prosiect i fagu hyder mathemateg ymhlith rhieni a gofalgwyr, yn lansio ym mis Gorffennaf 2023. Hefyd, mae gwaith ar y gweill i greu gwefan ar gyfer llyfrgelloedd, amgueddfeydd, ac archifau Powys a fydd yn cynnwys lluniau wedi'i digideiddio ac effemera o'r casgliadau astudiaethau lleol. Mae cynlluniau digidol ar gyfer y dyfodol yn cynnwys mabwysiadu amrywiaeth ehangach o blatfformau cyfryngau cymdeithasol i ehangu cyrhaeddiad cynulleidfa a datblygu hunaniaeth frand. Bydd uwchsgilio staff yn flaenoriaeth allweddol, â phwyslais ar greu cynnwys digidol ac Optimeiddio Peiriannau Chwilio.

6. Casgliad

Mae Powys yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys dosbarthiadau Cymraeg, presenoldeb mewn hyfforddiant defnyddwyr, rhith-ymweliadau a benthydwyr gweithredol. Mae cymorth iechyd a llesiant yn un o gryfderau eraill y gwasanaeth, wedi'i gefnogi gan weithio partneriaeth gyda nifer o sefydliadau. Rhagwelir y bydd y rhaglen Trawsnewid Symudol yn helpu'r gwasanaeth i sicrhau y gall trigolion nad ydynt yn gallu ymweld â llyfrgell barhau i ddefnyddio'r gwasanaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y gwasanaeth yn bwrw ymlaen â chynlluniau i gynnal arolwg defnyddwyr cyfredol yn y flwyddyn i ddod. Mewn llawer o ffyrdd, mae Powys yn dechrau cyfnod a allai fod yn gyffrous, â dau brosiect adeiladu cyfalaf ar fin cychwyn. Mae gan y gwasanaeth bwyslais eglur hefyd o ran dyfodol cymorth digidol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa staffio yn destun pryder, ac yn benodol nifer o flynyddoedd heb Brif Lyfrgellydd yn y swydd oherwydd secondiad rheolwr gweithredol. Mae hyn yn digwydd ar adeg pan fod arweinyddiaeth dda yn debygol o fod yn arbennig o bwysig o gofio'r prosiectau trawsnewid allweddol sy'n cael eu cynnal a datblygiad strategaeth/gwasanaeth digidol.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Rhondda Cynon Taf

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, y datganiadau effaith a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Rhondda Cynon Taf i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Rhondda Cynon Taf gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, mae Rhondda Cynon Taf yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chyflawnwyd pedwar ohonynt.

Mae'n amlwg bod llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf yn cael eu gwerthfawrogi gan aelodau o'r gymuned leol. Mae nifer yr ymweliadau fesul pen, a chwsmeriaid sy'n nodi bod y dewis o lyfrau, gofal cwsmeriaid a'r llyfrgell yn gyffredinol yn 'dda' neu'n 'dda iawn', i gyd yn uwch na'r canolrif ar gyfer awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru. Mae'n ymddangos bod defnyddwyr yn dychwelyd i'r gwasanaeth yn raddol ar ôl pandemig Covid, ac mae ymweliadau fesul pen uwchlaw'r canolrif ar gyfer awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Rhondda Cynon Taf yn wynebu sefyllfa ariannol heriol. Mae'r toriadau arfaethedig o ran staffio a'r gyllideb lyfrau yn peri pryder mawr o ystyried bod y gwasanaeth yn methu â chyrraedd targedau yn y meysydd hyn eisoes. Gallai'r cynlluniau i leihau nifer y staff effeithio ar allu'r gwasanaeth i wneud gwelliannau mewn meysydd eraill lle nad yw'n cyrraedd targedau ar hyn o bryd, gan gynnwys oriau agor a darparu gweithgareddau.

- Mae Rhondda Cynon Taf yn perfformio'n dda ar gyfer nifer o feysydd adborth cwsmeriaid; mae cwsmeriaid sy'n nodi bod y dewis o lyfrau, gofal cwsmeriaid a'r llyfrgell yn gyffredinol yn 'dda' neu'n 'dda iawn' i gyd yn uwch na'r canolrif (DA2).
- Mae cyfleoedd i hyfforddi defnyddwyr yn cael eu cefnogi'n dda; mae presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi i ddefnyddwyr a drefnir ymlaen llaw yn gwella o'r pandemig erbyn hyn ac mae uwchlaw'r canolrif ar gyfer gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru (DA5).
- Mae gofod y llyfrgell yn cael ei ddefnyddio'n dda; mae ymweliadau fesul pen yn y chwarterel uchaf o wasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru (DA8).
- Ni chafwyd unrhyw achosion o gau llyfrgelloedd y gwasanaeth yn annisgwyl ac ni chafodd unrhyw ddanfoniadau i'r cartref eu methu (DA16).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliau craidd

Nododd Rhondda Cynon Taf ei fod wedi bodloni pob un o'r 12 Hawl Craidd yn llawn drwy hunanasesiad, gan ddarparu sylwebaeth fanwl a defnyddiol yn y datganiad ar bob maes dan sylw. Cytunodd yr asesydd annibynnol â'r hunanasesiad.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA), ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Rhondda Cynon Taf yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chyflawnwyd pedwar ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol/Darllen yn Well	√	
iii) Casgliad penodol ar gyfer iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	x	Heb ei gyflawni
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Caffaeliadau fesul pen	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Heb ei gyflawni
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	x	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	x	

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	x	
DA 16 Oriau agor fesul pen	x	Heb ei gyflawni

2.3. Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau ynghlwm wrth y dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1. Mae'r ffigurau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr holl awdurdodau hynny a ddarparodd ddata yn natganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd a'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod yr amharu a welwyd yn ystod cyfnod y pandemig wedi effeithio ar rai ohonynt o bosibl. O ganlyniad, mae cyfyngiadau ar y graddau y gellid ystyried bod modd cymharu'r data hyn.

Cwblhaodd Rhondda Cynon Taf ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Mawrth 2022 a'i arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant ym mis Mawrth 2023.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y bobl ifanc sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	90%	=7/16	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	85%	11/16	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau:	96%	=9/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd Rhondda Cynon Taf ddatganiad effaith ar ddarparu mwy o le a gweithgareddau i gymunedau lleol i gefnogi defnydd mwy anhraddodiadol o'r llyfrgell a helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu. Mae hyn yn rhoi cyfle i gwsmeriaid gysylltu ag eraill mewn amgylchedd cynnes, diogel a chroesawgar lle nad oes unrhyw un yn eu barnu. Gyda lleoliadau cymunedol eraill yn cau a'r argyfwng costau byw, roedd hyn yn cael ei ystyried yn bwysig iawn. I ddechrau, fel rhan o raglen Lleoedd i Gysylltu, sefydlwyd tair sesiwn Coffi a Chreffft mewn tair llyfrgell. Daeth cyfanswm o 95 o bobl i'r sesiynau hyn a chafwyd adborth cadarnhaol. Gan adeiladu ar lwyddiant y digwyddiadau hyn, trefnwyd wyth digwyddiad arall a daeth 239 o bobl iddynt. Mae clwb crosio wedi cael ei sefydlu yn llyfrgell Treorci ac mae byrddau

'Posau Cymunedol' mewn sawl llyfrgell. Mae adborth gan ddau berson o'r Wcráin sydd wedi ymgartrefu yma wedi arwain at sefydlu grŵp 'Coffi a Sgwrs' yn y llyfrgell ar gyfer pobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Yn ôl y sôn, mae'r digwyddiadau wedi helpu i gynyddu hyder a lles llawer o aelodau'r gymuned ac wedi arwain at ddefnydd mwy amrywiol o ofod y llyfrgell.

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau ynghlwm wrth y dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, o gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle mae 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 o awdurdodau wedi cyflenwi data yn ddangosyddion lle nad oedd data perthnasol ar gael oddi wrth rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	62%	12/16	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	42%	14/16	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	93%	=14/16	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	94%	=4/16	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	=2/17	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	83%	10/16	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	99%	=3/17	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.4	7/16	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	17%	8/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	8	18/19	5	131	424
DA 6 mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen	129	15/22	13	165	559
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	2,559	4/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	490	13/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	83%	17/22	43	106.5	167
DA 10 Llyfrau Cymraeg a fenthycir fesul pen	44	=15/22	13	53	864
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	6.82	16/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael a gaiff ei ddefnyddio gan y cyhoedd	11%	=9/19	7%	11%	77%

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau ⁵⁴					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	7	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	1,032	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£8,932	17/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff	69%	7/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	16%	5/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	3%	=11/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill	12%	14/21	1%	15%	35%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£0	=12/21	-£479	£145	£2,865
DA 15 Cost net am bob ymweliad ⁵⁵	£2.31	8/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ⁵⁶					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0%	=1/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0%	=1/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae Rhondda Cynon Taf yn cyflawni'r canolrif ar gyfer canran y bobl ifanc sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau (DA1). Mae'n is na'r canolrif ar gyfer adborth gan ddefnyddwyr sy'n oedolion o ran Gwneud gwahaniaeth, ond cydnabyddir y gall amseru arolygon dros gyfnod y pandemig effeithio ar y mesur hwn. Mae cwsmeriaid sy'n nodi bod y dewis o lyfrau, gofal cwsmeriaid a'r llyfrgell yn gyffredinol yn 'dda' neu'n 'dda iawn' i gyd yn uwch na'r canolrif (DA2). Cynhaliwyd tair o'r pedair ymgyrch 'Byw'n Iach yng Nghymru' yn ystod y cyfnod hwn, a threfnwyd gweithgareddau, digwyddiadau ac adnoddau gwybodaeth ar gyfer: Dip Into Reading, Heneiddio'n Dda a Lleoedd i Gysylltu. Mae nifer o sefydliadau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a lles yn defnyddio llyfrgelloedd, gan gynnwys Bwyd Doeth Am Oes (bwyta'n iach), tylino babanod a sesiynau iselder a Covid hir y GIG (DA4). Er bod presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi defnyddwyr yn is na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig, mae'r niferoedd wedi bod yn cynyddu'n raddol drwy gydol y flwyddyn ac, ar y cyfan, roedd presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi defnyddwyr yn uwch na'r canolrif (DA5). Fodd bynnag, roedd cyfranogiad mewn hyfforddiant anffurfiol yn is na'r canolrif. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r gwasanaeth wedi bod yn ceisio ailsefydlu partneriaethau presennol a gollwyd yn ystod y pandemig a chreu partneriaethau newydd â sefydliadau sy'n awyddus i ddefnyddio'r cyfleusterau i ddarparu sesiynau hyfforddi.

⁵⁴ Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.

⁵⁵ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

⁵⁶ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Ni lwyddodd Rhondda Cynon Taf i gyrraedd y targed ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer y rhai sydd â gofynion arbennig gan mai dim ond 11 o'r 13 o fannau gwasanaeth sefydlog a oedd yn cynnig darpariaeth o'r fath. Er i fwyfwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn, roedd presenoldeb mewn digwyddiadau yn is na'r canolrif (DA6). Fodd bynnag, mae ymweliadau fesul pen yn y chwarter uchaf o wasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru, ac mae'r gwasanaeth yn nodi mai dim ond 16% yn is na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig a welir nawr. Mae nifer y rhith-ymweliadau fesul pen yn is na'r canolrif ac mae Rhondda Cynon Taf yn nodi y gallai hyn fod oherwydd bod pobl yn dychwelyd i arferion benthycy traddodiadol ar ôl y pandemig. Er bod yr arolwg yn nodi bod nifer y benthycwyr gweithredol a'r llyfrau oedolion a fenthycir wedi cynyddu, ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer y mesurau hyn, ac ar gyfer nifer y llyfrau plant a fenthycir (DA8).

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Nid yw Rhondda Cynon Taf yn cyrraedd y targed ar gyfer caffaeliadau (DA9), er ei fod yn agos at y canolrif ar gyfer gwariant ar ddeunyddiau fesul pen. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod perfformiad yn erbyn y targed hwn yn annhebygol o wella o ystyried y sefyllfa ariannol sydd ohoni, ac mae'r gwasanaeth wedi cael gwybod y bydd canran o'r gyllideb llyfrau yn cael ei chynnig fel arbediad effeithlonrwydd yn 2023-2024. Mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y targed ar gyfer caffael deunyddiau Cymraeg, ond mae nifer y benthyciadau yn is na'r canolrif fesul siaradwr Cymraeg (DA10). Mae Rhondda Cynon Taf yn cydnabod, er bod nifer y llyfrau Cymraeg a fenthycir wedi cynyddu ers y llynedd, mae'n dal i fod yn is na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg.

Mae Rhondda Cynon Taf yn is na'r canolrif ar gyfer cyfrifiaduron personol fesul pen, ond mae'n cyflawni'r canolrif ar gyfer canran yr amser y mae'r rhain yn cael eu defnyddio (DA11). Mae'r gwasanaeth yn nodi bod y galw am gyfrifiaduron mynediad cyhoeddus a'r defnydd ohonynt wedi gostwng i'w lefel isaf ers i gyfrifiaduron personol mynediad cyhoeddus gael eu cyflwyno. Er mai'r cyfrifiaduron hyn yw'r unig ffordd y gall rhai defnyddwyr gael mynediad i'r rhyngrwyd, mae mwy a mwy o'r rheini sy'n defnyddio llyfrgelloedd yn dibynnu ar eu dyfeisiau eu hunain ac yn defnyddio Wi-Fi y llyfrgell. Erbyn hyn, mae Rhondda Cynon Taf yn darparu llai o gyfrifiaduron personol ar gyfer defnydd bob dydd, ac yn cynnal mwy ohonynt mewn ystafelloedd TG mewn rhai llyfrgelloedd mwy o faint ar gyfer dosbarthiadau a hyfforddiant. Nid yw'r gwasanaeth yn cyrraedd y targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA12) ac mae'n nodi bod ei berfformiad yn erbyn y targed hwn yn annhebygol o wella wrth i bwysau cyllidebol arwain at ostyngiad yn ei gyllideb llyfrau.

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Nid yw Rhondda Cynon Taf yn cyrraedd y targedau ar gyfer staffio cyffredinol fesul pen na staff cymwysedig fesul pen, er bod ganddo reolwr gweithredol cymwysedig. Mae un aelod yn llai o staff cymwysedig (o ganlyniad i ymddeoliad), ond mae dau aelod o staff yn gweithio tuag at gymwysterau proffesiynol ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth hefyd islaw'r targed ar gyfer cyfran amser staff a neilltuir ar gyfer hyfforddiant (DA13). Mae Rhondda Cynon Taf yn nodi bod llai o wirfoddolwyr na'r

cyfartaledd eleni gan fod cynllun lleoliadau gwaith y cyngor wedi cael ei atal dros dro am y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd. Mae cyfanswm y gwariant refeniw yn is na'r canolrif ac mae'r gwasanaeth yn nodi bod hyn yn is na'r llynedd o ganlyniad i arbediad effeithlonrwydd gorfodol o 0.5% a osodwyd ar wasanaethau ym mhob rhan o'r cyngor mewn ymateb i'r sefyllfa ariannol sydd ohoni (DA14). Nid yw Rhondda Cynon Taf yn cyrraedd y targed ar gyfer oriau agor (DA16), ond mae'n nodi bod y model clwstwr yn golygu bod o leiaf un llyfrgell gangen a llyfrgell ardal ar agor ym mhob clwstwr 6 diwrnod yr wythnos er mwyn galluogi cwsmeriaid i gael mynediad at yr adnoddau sydd ar gael. Ni chafwyd unrhyw achosion o gau llyfrgelloedd y gwasanaeth yn annisgwyl ac ni chafodd unrhyw ddanfoniadau i'r cartref eu methu. Nid yw ei lyfrgelloedd symudol yn weithredol eto yn dilyn pandemig Covid ac mae'n parhau i redeg gwasanaeth estynedig i'r cartref ar gyfer aelodau o'r gymuned sy'n methu ymweld â llyfrgell sefydlog. Disgwylir penderfyniad yn ddiweddarach yn y flwyddyn ynghylch a gaiff y model hwn ei fabwysiadu fel newid parhaol i'r gwasanaeth.

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Rhondda Cynon Taf yn tynnu sylw at y ffordd mae llyfrgelloedd yn cyfrannu tuag at y saith nod llesiant a flaenoriaethwyd gan Lywodraeth Cymru. Ymhlith rhai o'r enghreifftiau y tynnwyd sylw atynt mae'r canlynol:

- **Cymru ffyniannus:** cefnogi Clybiau Gwaith a rhaglenni dychwelyd i'r gwaith gyda Gymunedau am Waith a Mwy a sefydliadau lleol eraill; mae cyfleoedd gwirfoddol sy'n cael eu cynnig yn y Gwasanaeth Llyfrgell yn helpu pobl i ennill sgiliau ychwanegol er mwyn gwella eu rhagolygon swyddi.
- **Cymru gydnerth:** mae polisi'r cyngor o ddatblygu hybiau lleol y mae llyfrgelloedd yn rhan ganolog ohonynt yn rhoi mynediad lleol i amrywiaeth eang o wasanaethau addysg, hamdden, cymorth a chyngor. Mae'r rhain yn helpu i adeiladu gwydnwch yn y gymuned drwy ddarparu strwythurau ar gyfer rhwydweithiau, cymorth cymdeithasol a chysylltiadau cymunedol, a systemau gwybodaeth a chyfathrebu da sy'n helpu i hysbysu'r cyhoedd.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal:** darparu llyfrau sain, llyfrau print bras, stoc Gymraeg, llyfrau braille a llyfrau sy'n ystyriol o ddementia.
- **Cymru o gymunedau cydlynus:** mae cysylltiadau agos â'r Ardaloedd Gwella Busnes ym Mhontypridd, Aberdâr a Threorci yn caniatáu i lyfrgelloedd chwarae rhan allweddol mewn rhaglenni sy'n cynnwys y gymuned gyfan. Mae hyn yn helpu i godi proffil y llyfrgell drwy ddarparu adnoddau a lleoliadau i gynnal digwyddiadau.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:** cefnogi a chymryd rhan mewn digwyddiadau Gymraeg gan gynnwys Parti Ponty a Diwrnod Shwmae.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:** gwybodaeth a chyngor ar fentrau lleol, ynghyd â bagiau ailgylchu a manau gollwng batris.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn ddilynol, mae Rhondda Cynon Taf yn nodi bod sicrhau cynnydd o ran nifer yr ymwelwyr a nifer y llyfrau a fenthycir yn flaenoriaeth.

Mae'r gwasanaeth yn nodi'r heriau a gyflwynir gan arbedion effeithlonrwydd pellach ar gyfer 2023/24, sy'n cynnwys darparu gwell gwasanaeth i'r cartref yn lle'r gwasanaeth llyfrgell symudol, colli swydd Cynorthwydd Llyfrgell a thoriad o 10% yn y gyllideb llyfrau. Felly, ei flaenoriaethau fydd:

- Parhau i adeiladu cynulleidfaoedd, gan sicrhau bod defnydd yn dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig
- Cynnal adolygiad o'r gwasanaeth
- Gweithio gyda SCL Cymru a Llywodraeth Cymru ar y broses ail-dendro ar gyfer System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan.

6. Casgliad

Mae'n amlwg bod llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf yn cael eu gwerthfawrogi gan aelodau o'r gymuned leol. Mae nifer yr ymweliadau fesul pen, a chwsmeriaid sy'n nodi bod y dewis o lyfrau, gofal cwsmeriaid a'r llyfrgell yn gyffredinol yn 'dda' neu'n 'dda iawn', i gyd yn uwch na'r canolrif ar gyfer awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru. Mae'n ymddangos bod defnyddwyr yn dychwelyd i'r gwasanaeth yn raddol ar ôl pandemig Covid, ac mae ymweliadau fesul pen uwchlaw'r canolrif ar gyfer awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Rhondda Cynon Taf yn wynebu sefyllfa ariannol heriol. Mae'r toriadau arfaethedig o ran staffio a'r gyllideb llyfrau yn peri pryder mawr o ystyried bod y gwasanaeth yn methu â chyrraedd targedau yn y meysydd hyn eisoes. Gallai'r cynlluniau i leihau nifer y staff effeithio ar allu'r gwasanaeth i wneud gwelliannau mewn meysydd eraill lle nad yw'n cyrraedd targedau ar hyn o bryd, gan gynnwys oriau agor a darparu gweithgareddau.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Abertawe

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Abertawe i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Abertawe gwrdd â'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, mae Abertawe'n cyflawni 7 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chafodd dau eu cyfarfod.

Mae Abertawe'n perfformio'n dda mewn nifer o feysydd. Mae ymweliadau a benthycwyr gweithredol yn gymharol uchel. Mae boddhad cwsmeriaid yn uchel, felly hefyd y gyfran o oedolion sy'n teimlo bod y llyfrgell yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Mae llawer o bobl yn mynychu digwyddiadau, ac mae'r gwasanaeth yn gweithio'n effeithiol gyda sefydliadau partner i drefnu nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau arloesol. Mae'n debygol y bydd newidiadau sylweddol i lyfrgelloedd Abertawe yn y dyfodol; mae'r gwasanaeth yn ymchwilio i botensial model hybiau cymunedol, wrth barhau i gynnal gwasanaeth llyfrgell hygyrch lwyddiannus. Mae'r diffyg staff cymwys, ynghyd â chanran gymharol isel o amser staff sy'n cael ei neilltuo ar gyfer hyfforddiant, yn bryder (er y cydnabyddir y gallai'r olaf, yn rhannol, fod o ganlyniad i ddiffyg adrodd). Yn sgîl hyn, croesewir y ffocws ar ddatblygu sgiliau staff i gefnogi newidiadau posibl wrth ddarparu gwasanaethau.

- Mae Abertawe yn chwartzel uchaf gwasanaethau llyfrgell Cymru ar gyfer canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau (DA1).
- Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda o ran boddhad cwsmeriaid; mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer yr holl fesurau boddhad cwsmeriaid (DA2).
- Mae digwyddiadau'r llyfrgell yn cael eu cefnogi'n dda gan aelodau o'r gymuned leol; mae presenoldeb y pen yn uwch na'r canolrif (DA6).
- Mae nifer y benthycwyr gweithredol y pen yn chwartzel uchaf awdurdodau llyfrgell, ac mae benthyciadau llyfrau oedolion, llyfrau plant ac e-rifynnau i gyd uwchlaw'r canolrif (DA8).
- Mae gan y gwasanaeth lefel dda o ddarpariaeth ddigidol; mae Abertawe yn uwch na'r canolrif ar gyfer mesurau mynediad ar-lein (DA11).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliadau craidd

Nododd Abertawe ei fod wedi bodloni pob un o'r 12 Hawl Craidd yn llawn drwy hunanasesiad, gan ddarparu sylwebaeth fanwl a defnyddiol yn y datganiad ar bob maes dan sylw. Cytunodd yr asesydd annibynnol â'r hunanasesiad.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 dangosydd ansawdd (DAs), y mae gan 10 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Abertawe'n cyflawni 7 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chyflawnwyd dau o'r targedau.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol ar iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	√	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Caffael fesul pen	X	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau yn Gymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y deunyddiau Cymraeg	X	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	x	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	X	
DA 16 Oriau agor fesul pen	√	Cyflawni'n llawn

2.3. Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi anelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n darparu data yn y datganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod eraill o bosibl wedi'u heffeithio gan amhariad yn ystod cyfnod y pandemig. O ganlyniad, mae cyfyngiadau i ba raddau y gellid ystyried cymharu'r data hyn.

Cwblhaodd Abertawe ei harolwg defnyddwyr oedolion a phlant ym mis Tachwedd 2022.

Dangosydd Ansawdd		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	68%	15/16	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	95%	2/16	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau.	86%	16/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd ddarparu datganiad effaith sy'n disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd Abertawe ddatganiad effaith am gwsmer a ddiodeffodd brofedigaeth yn ddiweddar. Roedd yn gwerthfawrogi cefnogaeth staff y llyfrgell yr oedd yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â nhw am y mater hwn, ac roedd yn eu gwerthfawrogi yn cymryd yr amser i wrando arno. Llwyddodd i ddefnyddio'r gofod llyfrgell diogel a chroesawgar i gwrdd â ffrindiau, teulu a'r gweinidog i wneud trefniadau angladd. Gan ddefnyddio'r cyfleusterau cyfrifiadurol, argraffu a sganio yn y llyfrgell, a gyda chymorth sgiliau digidol gan staff y llyfrgell, llwyddodd i gynhyrchu trefn gwasanaeth ar gyllideb gyfyngedig.

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Abertawe ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	69%	=9/16	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	65%	9/16	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	93%	=14/16	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	92%	7/16	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	=2/17	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	90%	5/16	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	99%	=3/17	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.6	4/16	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	11	=10/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	114	13/19	5	131	424
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen	232	6/22	13	165	559
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	2,416	8/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	581	11/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	167	1/22	43	106.5	167
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen	54	11/22	13	53	864
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	9.63	5/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	15%	4/19	7%	11%	77%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	7	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	200	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£13,051	9/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	78%	1/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	12%	=9/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	2%	=16/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	7%	17/21	1%	15%	35%
c) cyfanswm gwariant fesul pen	£321	8/21	-£479	£145	£2,865

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 15 Cost net am bob ymweliad ⁵⁷	£3.75	15/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ⁵⁸					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0.13%	14/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0%	=1/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae Abertawe yn chwartzel uchaf gwasanaethau llyfrgelloedd Cymru ar gyfer canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau (DA1) ac mae'r gwasanaeth yn dweud bod hyn wedi cynyddu ers yr arolwg diwethaf yn 2018. Mae'n agos at y canolrif ar gyfer mesurau eraill ar yr arolwg oedolion, ac eithrio'r ganran sy'n profi'r llyfrgell fel un pleserus, diogel a chynhwysol, sydd islaw'r canolrif. Mae Abertawe'n cydnabod bod canran y bobl ifanc sy'n credu bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a darganfod pethau allan yn siomedig ac angen ymchwilio ymhellach. Mae'r gwasanaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer pob mesur boddhad cwsmeriaid (DA2), ac mae'n perfformio'n arbennig o dda ar gyfer gofal cwsmeriaid. Mae Abertawe'n cyrraedd y targed ar gyfer Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4) ond mae'n cydnabod bod angen monitro gweithgareddau darllen a rennir yn fwy gofalus. Mae'r gwasanaeth o gwmpas y canolrif ar gyfer mynychu hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr, ond o dan y canolrif ar gyfer presenoldeb hyfforddiant anffurfiol (DA5) ac mae'r lefelau presenoldeb yn parhau i fod yn is na'r rhai a gofnodwyd cyn Covid.

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae presenoldeb y pen yn uwch na'r canolrif (DA6). Mae digwyddiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys Llwybrau Stori, digwyddiad mawr 2 ddiwrnod yn Llyfrgell Ganolog Abertawe; Gweithgareddau Haf o Hwyl; gweithdai awduron ifanc; a gweithgareddau manau cynnes. Mae ymweliadau corfforol a rithwir y pen yn uwch na'r canolrif ar gyfer awdurdodau llyfrgelloedd Cymru (DA8), er bod y gwasanaeth wedi nodi bod mwy o bobl yn defnyddio ap PORI ac ap Bolinda Ebook, yn hytrach nag ymweld â gwefan y llyfrgell. Mae'r ffigur ar gyfer benthycwyr gweithredol y pen yn chwartzel uchaf awdurdodau llyfrgell. Ar ben hynny, mae benthyciadau llyfrau oedolion, llyfrau plant ac e-rifynnau i gyd yn uwch na'r canolrif. Bodlonwyd DA7 yn llawn.

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Ni chyflawnodd Abertawe y targed ar gyfer caffaeliadau (DA9), er bod gwariant ei deunyddiau yn uwch na'r canolrif. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod caffaeliadau wedi'u crynhoi ar deitlau ffuglen a ffeithiol hamdden uchel eu galw, ynghyd ag e-lyfrau a theitlau e-sain, yn ogystal ag adnewyddu'r adran iaith dramor i gefnogi

⁵⁷ Mae'r safleoedd yma wedi cael eu gwrthdroi, fel mai 1 yw'r awdurdod sgorio isaf (perfformio gorau).

⁵⁸ Mae'r safleoedd yma wedi cael eu gwrthdroi, fel mai 1 yw'r awdurdod sgorio isaf (perfformio gorau).

trigolion nad ydynt yn defnyddio Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf. Er bod gwariant Cymraeg wedi cynyddu, mae'n parhau i fod yn is na'r ffigur targed (DA10). Mae gwariant wedi canolbwyntio ar ddeunyddiau ar gyfer plant oed ysgol, yn enwedig mewn llyfrgelloedd gydag ysgol cyfrwng Cymraeg wedi'i lleoli yn eu dalgylch, ac ar ddeunyddiau i gefnogi'r rhai sy'n dysgu'r Gymraeg. Mae deunydd Cymraeg y pen yn agos at y canolrif. Mae Abertawe yn uwch na'r canolrif ar gyfer mesurau mynediad ar-lein (DA11). Mae'r gwasanaeth yn nodi bod darpariaeth TG mewn llyfrgelloedd yn cefnogi'r rhai sydd angen offer nad ydynt yn symudol, er enghraifft, ar gyfer llenwi ffurflenni hir, mynediad at argraffu neu fynediad at raglenni meddalwedd nad ydynt ar gael ar ddyfeisiau symudol. Mae Abertawe'n cyrraedd y targed yn gyfforddus ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA12).

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Nid yw Abertawe'n cyrraedd y targed ar gyfer lefelau staffio y pen, er ei bod yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgell ar gyfer y mesur hwn (DA13). Er bod gan y gwasanaeth reolwr gweithredol cymwysedig, mae'n is na'r canolrif ar gyfer staff cymwys y pen ac nid yw'n cyrraedd y targed hwn. Mae Abertawe hefyd yn methu â chyrraedd y targed ar gyfer hyfforddiant staff, er ei bod yn cydnabod bod y system gofnodi bresennol ar gyfer hyfforddiant staff yn wael ac efallai y bydd y ffigur hwn yn dan gynrychiadol o hyfforddiant gwirioneddol. Mae Abertawe yn cyrraedd y targed ar gyfer oriau agor ac mae lefel y cau'n annisgwyl yn agos at y canolrif (DA16).

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r ffurflen, gofynnir i awdurdodau adrodd ar sut mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru ac amcanion strategol. Mae rhai o'r enghreifftiau a ddarperir gan Abertawe wedi'u crynhoi isod.

- **Cefnogi lles ac iechyd meddwl:** adolygu meini prawf cymhwyso'r gwasanaeth cyflenwi sy'n gaeth i'r tŷ i gynnwys y rhai sydd wedi'u hynysu'n ddiwylliannol yn eu cartref.
- **Cefnogi pobl i ddatblygu sgiliau newydd, ennill cyflogaeth a chreu bywydau gwell:** partneru â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe i gynnal gwirfoddolwr cymorth digidol yn y Llyfrgell Ganolog a chynnig dau leoliad gwaith yn adrannau Llinell y Llyfrgell a hanes lleol.
- **Gweithio tuag at sero net:** mae prosiect dad-siacedu peilot yn asesu goblygiadau peidio â rhoi siaced plastig mewn 3 llyfrgell.
- **Cefnogi llythrennedd plant:** Adrannau gyda llyfrau wedi'u graddio, sy'n helpu rhieni/gofalwyr i ddewis llyfrau sy'n cefnogi lefelau darllen plant mewn ysgolion.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfarwyddyd a chynlluniau yr awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn y dyfodol dros y flwyddyn ganlynol, dywedodd gwasanaeth llyfrgell Abertawe y bydd yn canolbwyntio ar ymchwilio i sut y gall llyfrgelloedd helpu i gefnogi uchelgais y cyngor i ddarparu mwy o hybiau cymunedol tra'n parhau i gynnal gwasanaeth llyfrgell hygyrch llwyddiannus. Yn ogystal, bydd cynnydd pellach yn cael

ei wneud i symud y llyfrgell ganolog i leoliad newydd yng nghanol y ddinas fel rhan o brosiect trefi cynaliadwy Llywodraeth Cymru, sy'n gweld y llyfrgell yn rhan o ganolfan yng nghanol y ddinas sy'n rhannu gofod gyda gwasanaethau eraill y cyngor a sefydliadau'r trydydd sector. Mae Abertawe'n wybyddus y bydd timau staff yn cael eu herio i weithio'n wahanol yn y dyfodol a bydd y gwasanaeth yn archwilio sut y gall gefnogi hyn drwy hyfforddi a datblygu sgiliau newydd, adeiladu ar sgiliau digidol cyfredol a datblygu rhai newydd. Cydnabyddir bod angen strategaeth ddigidol o hyd, ond mae'r gwasanaeth yn aros am ganlyniad proses gaffael newydd y System Rheoli Llyfrgell a'r potensial o blatfform digidol addas i'r diben i Gymru. Blaenoriaeth arall yw cefnogi cwricwlwm Cymru drwy weithio gydag ysgolion lleol.

6. Casgliad

Mae Abertawe'n perfformio'n dda mewn nifer o feysydd. Mae ymweliadau, benthycwyr gweithredol a benthyciadau yn gymharol uchel. Mae boddhad cwsmeriaid yn uchel, fel y mae cyfran yr oedolion sy'n teimlo bod y llyfrgell yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Mae llawer o bobl yn mynychu digwyddiadau, ac mae'r gwasanaeth yn gweithio'n effeithiol gyda sefydliadau partner i drefnu nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau arloesol. Mae'n debygol y bydd newidiadau sylweddol i lyfrgelloedd Abertawe yn y dyfodol; mae'r gwasanaeth yn ymchwilio i botensial model hybiau cymunedol, tra'n parhau i gynnal gwasanaeth llyfrgell hygyrch llwyddiannus. Mae'r diffyg staff cymwys, ynghyd â chanran gymharol isel o amser staff sy'n cael ei neilltuo ar gyfer hyfforddiant, yn bryder (er y cydnabyddir y gallai'r olaf, yn rhannol, fod o ganlyniad i ddiffyg adrodd). Yng ngoleuni hyn, croesewir y ffocws ar ddatblygu sgiliau staff i gefnogi newidiadau posibl wrth ddarparu gwasanaethau.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Torfaen

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, y datganiadau effaith a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Dorfaen i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Torfaen gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, mae Torfaen yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chyflawnwyd pedwar ohonynt.

Yn ystod 2022-23, parhaodd Torfaen i ailadeiladu ond, yn amlwg, mae'n dal i adfer o effeithiau'r pandemig. Mae'n amlwg bod gwerth y gwasanaeth llyfrgell yn bwysig iawn i'r staff yn Nhorfaen a'u bod yn awyddus i gefnogi eu cymuned leol. Mae Torfaen yn perfformio'n dda mewn rhai meysydd, yn benodol, o ran presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi i ddefnyddwyr ac effaith y sesiynau hyfforddi hynny. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cyflwyno nifer o weithgareddau newydd sy'n gysylltiedig â lles ar ôl i Weithiwr lechyd a Lles Proffesiynol gael ei benodi. Mae lefelau staffio yn peri pryder, yn enwedig o ystyried y ffaith bod pedair swydd cynorthwydd llyfrgell wedi cael eu dileu o'r strwythur staffio. Mae lefel caffaeliadau yn bryder hefyd, yn ogystal â'r gostyngiad mewn oriau agor, sydd ymhell islaw'r targed. Dylai'r gwaith i ddatblygu llyfrgelloedd fel hybiau cymunedol gael ei fonitro i weld a yw'n arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr fel y rhagwelir.

- Mae canran yr oedolion sy'n nodi bod y llyfrgell yn 'dda iawn' neu'n 'dda' yn gyffredinol uwchlaw'r canolrif (DA2).
- Cafodd Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol (DA3) a Chefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant (DA4) eu cyflawni'n llawn.
- Mae Torfaen uwchlaw'r canolrif ar gyfer presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi ffurfiol ac anffurfiol, ac mae yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer canran mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau (DA5).
- Roedd cwsmeriaid yn cael gwasanaeth dibynadwy; mae Torfaen yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer y nifer lleiaf o achosion o gau llyfrgelloedd yn annisgwyl neu ddanfoniadau i'r cartref a fethwyd (DA16).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliau craidd

Nododd Torfaen ei fod wedi bodloni pob un o'r 12 Hawl Craidd yn llawn drwy hunanasesiad, gan ddarparu sylwebaeth fanwl a defnyddiol yn y datganiad. Cytunodd yr asesydd annibynnol â'r hunanasesiad.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA), ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Torfaen yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chyflawnwyd pedwar ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol/Darllen yn Well	√	
iii) Casgliad penodol ar gyfer iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	√	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Caffaeliadau fesul pen	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	x	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	x	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Heb ei gyflawni
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	x	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	x	

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	x	
DA 16 Oriau agor fesul pen	x	Heb ei gyflawni

2.3. Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau ynghlwm wrth y dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1. Mae'r ffigurau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr holl awdurdodau hynny a ddarparodd ddata yn natganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd a'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod yr amharu a welwyd yn ystod cyfnod y pandemig wedi effeithio ar rai ohonynt o bosibl. O ganlyniad, mae cyfyngiadau ar y graddau y gellid ystyried bod modd cymharu'r data hyn.

Cwblhaodd Torfaen ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion a'i arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2023.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y bobl ifanc sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	82%	=13/16	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	86%	=9/16	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau:	100%	=1/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Torfaen ddatganiad effaith a oedd yn canolbwyntio ar gydweithredu â Chysylltwyr Cymunedol Torfaen i sefydlu grŵp newydd a oedd yn cwrdd bob pythefnos yn Llyfrgell Cwmbrân. Mae grŵp 'Forget Me Not Fridays' yn cynnig cymorth i'r rhai y mae dementia yn effeithio arnynt a'u gofalwyr. Mae'r sesiynau hyn, sy'n para dwy awr, yn rhoi cyfle i ofalwyr gysylltu, rhannu profiadau a cheisio cyngor a chymorth, ac i'r rhai sydd â dementia gymryd rhan mewn gweithgareddau difyr. Mae aelodau'r grŵp sydd â dementia wedi nodi eu bod wedi gwneud ffrindiau newydd, bod ganddynt fwy o ymdeimlad o gael eu derbyn a'u cynnwys, a'u bod yn mwynhau. Mae arweinwyr y grŵp wedi sylwi ar fwy o ymgysylltu, sgwrsio a rhyngweithio yn y grŵp hwn dros amser ac mae gofalwyr wedi

rhoi adborth cadarnhaol. Mae'r grŵp hwn yn dod yn fwy poblogaidd ac mae atgyfeiriadau newydd yn cael eu gwneud gan Glinig Cof Torfaen.

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau ynghlwm wrth y dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, o gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Torfaen ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle mae 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 o awdurdodau wedi cyflenwi data yn ddangosyddion lle nad oedd data perthnasol ar gael oddi wrth rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	69%	=9/16	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	69%	7/16	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	97%	=8/16	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	89%	12/16	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	97%	=14/17	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	82%	=11/16	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	98%	=5/17	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	8.9	15/16	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	22	6/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	133	9/19	5	131	424
DA 6 mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen					
DA 6 mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen	109	17/22	13	165	559
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	1,860	15/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	413	16/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	105	14/22	43	106.5	167
DA 10 Llyfrau Cymraeg a fenthycir fesul pen					
DA 10 Llyfrau Cymraeg a fenthycir fesul pen	33	20/22	13	53	864
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	7.46	14/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael a gaiff ei ddefnyddio gan y cyhoedd	12%	8/19	7%	11%	77%

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau ⁵⁹					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	0	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	0	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£9,154	16/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	66%	=8/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	11%	=12/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	2%	=16/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	20%	=7/21	1%	15%	35%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£336	=6/21	-£479	£145	£2,865
DA 15 Cost net am bob ymweliad ⁶⁰	£3.00	12/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ⁶¹					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0%	=1/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0%	=1/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae Torfaen ar y canolrif neu oddeutu'r canolrif ar gyfer mesurau Gwneud gwahaniaeth yn yr arolwg oedolion (DA1). Er bod y sgôr ar gyfer canran y bobl ifanc sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau wedi cynyddu ers yr arolwg blaenorol, mae'n is na'r canolrif. O ran bodlonrwydd cwsmeriaid, er bod canran yr oedolion sy'n nodi bod y llyfrgell yn 'dda iawn' neu'n 'dda' ar y cyfan uwchlaw'r canolrif, mae Torfaen yn is na'r canolrif ar gyfer y mesurau eraill sy'n ymwneud â bodlonrwydd cwsmeriaid. Cyflawnwyd DAau sy'n ymwneud â Chefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol (DA3) a Chefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant (DA4) yn llawn. Nododd y gwasanaeth fod sesiynau darllen ar y cyd yn dechrau cael eu hailadeiladu'n raddol gyda'r Gweithiwr Iechyd a Lles Proffesiynol newydd yn sefydlu gweithgareddau darllen a barddoniaeth mewn lleoliadau cymunedol. Mae dal yn profi'n anodd ailsefydlu sesiynau darllen ar y cyd mewn cartrefi preswyl lleol, ond mae Torfaen wedi sefydlu grŵp cymorth dementia mewn cydweithrediad â Chysylltwyr Cymunedol Torfaen, yn ogystal â grŵp celf a chrefft ar gyfer y rhai sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar ac sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi ag unigrwydd (DA4). Mae Torfaen uwchlaw'r canolrif ar gyfer presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi ffurfiol ac anffurfiol, ac mae yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer canran mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau (DA5). Fodd

⁵⁹ Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.

⁶⁰ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

⁶¹ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

bynag, mae'r gwasanaeth yn nodi ei fod wedi gweld gostyngiad yn y galw am sesiynau cymorth digidol yn gyffredinol.

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Er i Dorfaen nodi ei fod wedi cyflawni dros 70% o'i ffigur cyn Covid ar gyfer presenoldeb mewn digwyddiadau llyfrgell yn ystod y flwyddyn, mae'r gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn (DA6). Er bod Torfaen wedi gweld pobl yn dychwelyd i ddefnyddio llyfrgelloedd yn raddol ar ôl Covid, roedd ymweliadau fesul pen yn is na'r canolrif ar gyfer awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru (DA8). Mae'r gwasanaeth wedi dychwelyd i gyfnod benthycyca o dair wythnos er mwyn helpu i annog cwsmeriaid i ymweld yn fwy aml. Mae Torfaen yn nodi bod ymweliadau â gwefan y llyfrgell yn parhau i gynyddu, er bod y ffigur ar gyfer rhith-ymweliadau fesul pen islaw'r canolrif. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod twf o flwyddyn i flwyddyn mewn aelodaeth llyfrgelloedd, ac mae nifer y benthycwyr gweithredol oddeutu'r canolrif. Mae nifer y llyfrau oedolion a fenthycir a'r llyfrau plant a fenthycir islaw'r canolrif, er bod adferiad yn cael ei weld yn dilyn cyfnod Covid.

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Ni wnaeth Torfaen gyrraedd y targed caffaeliadau (DA9) ac mae'n is na'r canolrif ar gyfer gwariant ar ddeunyddiau fesul pen. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod mwy yn cael ei wario ar adnoddau e-lyfrau BorrowBox a'r stoc llyfrau sain ffisegol mewn ymateb i fwy o alw gan y Gwasanaeth Llyfrgell yn y Cartref. Nid yw Torfaen yn cyrraedd y targed ar gyfer canran y gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg ac mae nifer y llyfrau a fenthycir fesul siaradwr Cymraeg yn y chwarterl isaf o awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru (DA10). Er mwyn annog mwy o ddefnydd, mae'r gwasanaeth yn cynnwys llyfrau Cymraeg mewn arddangosiadau ac yn hyrwyddo casgliadau mewn digwyddiadau allgymorth. Mae'n nodi bod y stoc llyfrau Cymraeg i blant yn cael llawer mwy o ddefnydd na'r stoc i oedolion oherwydd mwy o ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg mewn grwpiau chwarae, meithrinfeydd ac ysgolion lleol. Mae mynediad ar-lein yn cyrraedd y targed ac mae mesurau yn agos at y ffigurau canolrif (DA11). Mae'r gwasanaeth yn nodi bod y defnydd a wneir o gyfrifiaduron cyhoeddus y llyfrgell yn parhau i ostwng wrth i fwy a mwy o bobl ddefnyddio eu dyfeisiau eu hunain. Mae cynlluniau i gyflwyno argraffu Wi-Fi yn y cyfnod sydd i ddod. Ni wnaeth Torfaen gyrraedd y targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau; fel y nodir yn y datganiad, mae'r ffaith bod y gwasanaeth llyfrgell yn fach yn golygu bod bodloni ceisiadau yn fewnol yn heriol iawn. Nododd y gwasanaeth hefyd fod anghysondeb rhwng nifer y ceisiadau a gofnodwyd a'r ffigurau sydd ar gael drwy'r LMS (DA12).

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Nid yw Torfaen yn cyrraedd y targed ar gyfer staff yn gyffredinol neu staff cymwysedig fesul pen, er bod yna rheolwr gweithredol cymwysedig (DA13). Mae pedair swydd Cynorthwydd Llyfrgell a ddaeth yn wag yn ystod y pandemig wedi cael eu dileu o'r strwythur staffio eleni. Fodd bynnag, mae swydd wag Swyddog Iechyd a Lles wedi cael ei llenwi. Mae'r gwasanaeth yn disgyn ychydig yn brin o'r targed ar gyfer darparu hyfforddiant. Nid oes unrhyw wirfoddolwyr i gefnogi staff cyflogedig yn Nhorfaen. Nid yw'r gwasanaeth yn cyrraedd y targed ar gyfer oriau agor fesul pen ac mae yn y chwarterl isaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer y mesur

hwn; gwaethygydd y sefyllfa barhaus hon pan gafodd oriau agor eu cwtogi o fis Ionawr 2022. Fodd bynnag, mae yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer y nifer lleiaf o achosion o gau llyfrgelloedd yn annisgwyl neu achosion o ddanfôn i'r cartref a fethwyd (DA16). Mae danfôn i'r cartref yn parhau i fod yn boblogaidd ac mae'n cynnwys y rhai sydd wedi cofrestru ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell yn y Cartref a chwsmeriaid sy'n gwneud cais i ddanfôn llyfrau i'w cartref o bryd i'w gilydd.

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Rhoddir crynodeb o rai enghreifftiau a ddarparwyd gan Dorfaen isod.

- **'Cymru Iachach'**: mae Gweithiwr Iechyd a Lles Proffesiynol newydd wedi cyflwyno cymorth unigol i bobl sydd angen cyngor, gwybodaeth gyfeirio neu rywun i siarad â nhw.
- **Cymru o 'Gymunedau Cydlynus'**: Mae Cyngor ar Bopeth Torfaen wedi ymestyn ei bresenoldeb ar safle Llyfrgell Cwibrân i gynnwys gwasanaeth ar ddydd Sadwrn. Mae gan Undeb Credyd Torfaen a Gwasanaethau Cwsmeriaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (CBST) bresenoldeb rheolaidd ar y safle hefyd ac mae Cyflogadwyedd CBST yn defnyddio gofodau llyfrgelloedd i gyflwyno sesiynau Cymunedau am Waith, Let's Get Digital a Phontydd i Waith. Mae cynlluniau ychwanegol ar waith i ddatblygu adeiladau llyfrgell ymhellach yn 'hybiau cymunedol' sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor o dan un to.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn ddilynol, nododd Torfaen fod y Strategaeth Llyfrgelloedd bresennol yn dod i ben yn 2023, ond bwriedir ymestyn telerau'r Strategaeth hon am flwyddyn i wneud iawn am yr amser a gollwyd i ddatblygu'r gwasanaeth yn ystod Covid. Caiff strategaeth newydd ei llunio yn 2024. Bydd Torfaen yn parhau i fonitro effeithiau'r penderfyniad i gwtogi oriau agor ar draws y gwasanaeth ym mis Ionawr 2022. Mae cynlluniau yn y dyfodol yn cynnwys mwy o waith i ddatblygu llyfrgelloedd fel hybiau cymunedol, gyda staff y llyfrgell yn cymryd mwy o ran wrth gefnogi ymholiadau Gwasanaethau Cwsmeriaid syml ar y safle ac yn darparu cymorth TG i annog y defnydd o wasanaethau ar-lein y Cyngor. Mae syniadau wrthi'n cael eu hystyried i ddatblygu sesiynau dementia hybrid a datblygu 'llyfrgell ddynol' yng Nghwibrân. Mae Torfaen yn bwriadu gwneud cais i Raglen Grant Cyfalaf Trawsnewid Llywodraeth Cymru i wella Llyfrgell Cwibrân, gan foderneiddio'r gofod er mwyn adlewyrchu patrymau defnydd yn well.

6. Casgliad

Yn ystod 2022-23, parhaodd Torfaen i ailadeiladu ond, yn amlwg, mae'n dal i adfer o effeithiau'r pandemig. Mae'n amlwg bod gwerth y gwasanaeth llyfrgell yn bwysig iawn i'r staff yn Nhorfaen a'u bod yn awyddus i gefnogi eu cymuned leol. Mae Torfaen yn perfformio'n dda mewn rhai meysydd, yn benodol, o ran presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi i ddefnyddwyr ac effaith y sesiynau hyfforddi hynny. Mae'r

gwasanaeth hefyd wedi cyflwyno nifer o weithgareddau newydd sy'n gysylltiedig â lles ar ôl i Weithiwr Iechyd a Lles Proffesiynol gael ei benodi. Mae lefelau staffio yn peri pryder, yn enwedig o ystyried y ffaith bod pedair swydd cynorthwydd llyfrgell wedi cael eu dileu o'r strwythur staffio. Mae lefel caffaeliadau yn bryder hefyd, yn ogystal â'r gostyngiad mewn oriau agor, sydd ymhell islaw'r targed. Dylai'r gwaith i ddatblygu llyfrgelloedd fel hybiau cymunedol gael ei fonitro i weld a yw'n cynyddu nifer yr ymwelwyr fel y rhagwelir.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Bro Morgannwg

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, y datganiadau effaith a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Fro Morgannwg i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Bro Morgannwg gyflawni 10 o'r 12 hawl craidd yn llawn. Nododd hunanasesiad y gwasanaeth nad oedd dau Hawl Craidd wedi'u cyflawni, ond roedd yr asesydd annibynnol o'r farn bod un o'r rhain wedi'i chyflawni'n rhannol. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, cyflawnodd Bro Morgannwg 7 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chyflawnwyd dau ohonynt.

Mae Bro Morgannwg yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd ac mae uwchlaw'r canolrif ar gyfer awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru o ran presenoldeb fesul pen mewn digwyddiadau, ymweliadau fesul pen a benthycwyr gweithredol fesul pen. Mae hefyd yn perfformio'n dda o ran nifer y staff cymwysedig fesul pen. Mae'r strwythur staffio yn cael ei ategu gan nifer fawr o wirfoddolwyr. Fodd bynnag, mae yna bwysau ariannol ar y gwasanaeth a gofynnwyd iddo gynhyrchu mwy o incwm. Bydd angen monitro'r effaith y gallai cyflwyno taliadau i fynychu gweithgareddau a ffioedd/taliadau eraill ei chael. Mae'n bwysig bod Bro Morgannwg yn cynnal arolygon defnyddwyr – yn enwedig arolygon oedolion – yn ystod y flwyddyn sydd i ddod i gasglu adborth gan ddefnyddwyr.

- Mae llawer o bobl yn mynychu digwyddiadau'r llyfrgell; mae Bro Morgannwg uwchlaw'r canolrif ar gyfer presenoldeb fesul pen mewn digwyddiadau (DA6).
- Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cael ei ddefnyddio'n dda gan aelodau o'r gymuned leol; mae Bro Morgannwg uwchlaw'r canolrif ar gyfer ymweliadau fesul pen ac ar gyfer benthycwyr gweithredol fesul pen (DA6).
- Mae'r gwasanaeth yn dangos ymrwymiad i ddarparu adnoddau Cymraeg; mae gwariant fesul siaradwr Cymraeg yn uwch na'r canolrif (DA10)
- Mae Bro Morgannwg yn cyrraedd y targed ar gyfer staff cymwysedig fesul pen ac mae yn y chwarter uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer y mesur hwn (DA13).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliau craidd

Nododd Bro Morgannwg ei fod yn bodloni 10 o'r Hawliau Craidd yn llawn drwy hunanasesiad, gan ddarparu sylwebaeth fanwl a defnyddiol yn y datganiad ar bob

maes dan sylw. Nododd y gwasanaeth llyfrgell nad oedd yn cyrraedd 2 darged. Fodd bynnag, mae un o'r targedau hyn wedi'i gyflawni'n rhannol ym marn yr asesydd annibynnol. Ar gyfer HG11, nid yw Bro Morgannwg wedi cynnal arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion yn ystod cyfnod y Fframwaith. Fodd bynnag, cynhaliwyd arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant ym mis Chwefror 2020. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu cynnal arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Hydref 2023 a'r Arolwg o Ddefnyddwyr sy'n Blant ar ddechrau 2024. O ran HG12, mae strategaeth llyfrgelloedd wedi cael ei datblygu, ond nid yw'r ddogfen ar gael i'r cyhoedd eto. Felly, rydym yn cytuno â'r hunanasesiad nad yw'r Hawl Craidd hon wedi'i chyflawni.

Hawl Graidd	Hunanasesiad	Asesydd annibynnol
1. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
2. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
3. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, cyfranogiad cymunedol, a diwylliant a hamdden.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
4. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
5. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
6. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
7. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngwrwd a chyfrifiaduron, gan gynnwys Wi-Fi, yn rhad ac am ddim.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
8. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
9. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
10. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.	Cyflawni'n llawn	Cyflawni'n llawn
11. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.	Heb ei chyflawni	Cyflawni'n rhannol
12. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-	Heb ei chyflawni	Heb ei chyflawni

lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.		
---	--	--

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA), ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Bro Morgannwg yn cyflawni 7 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni chyflawnwyd dau ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol/Darllen yn Well	√	
iii) Casgliad penodol ar gyfer iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	√	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad manau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Caffaeliadau fesul pen	√	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	-	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwryd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Heb ei gyflawni
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	x	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	x	

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	√	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	√	
DA 16 Oriau agor fesul pen	x	Heb ei gyflawni

2.3. Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau ynghlwm wrth y dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1. Mae'r ffigurau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr holl awdurdodau hynny a ddarparodd ddata yn natganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd a'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod yr amharu a welwyd yn ystod cyfnod y pandemig wedi effeithio ar rai ohonynt o bosibl. O ganlyniad, mae cyfyngiadau ar y graddau y gellid ystyried bod modd cymharu'r data hyn.

Cwblhaodd Bro Morgannwg ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Chwefror 2016 a'i arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant ym mis Chwefror 2020.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y bobl ifanc sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	89%	11/16	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	41%	=15/16	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau:	96%	=9/17	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Bro Morgannwg ddatganiad effaith ar sut mae'r fenter Croeso Cynnes wedi denu cwsmer newydd sydd â dementia i'r llyfrgell a sut mae'r gwasanaeth a'r gweithgareddau yno wedi bod o fudd iddi. Fel ffordd o aros yn gynnes a chadw'n brysur, cafodd y fenyw hon ei chyfeirio at y sesiynau te a choffi am ddim a oedd wedi dechrau yn llyfrgell y Barri fel rhan o fenter Croeso Cynnes. O ganlyniad i'r rhyngweithio â staff a wnaeth ei hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y llyfrgell, dechreuodd fynd i'r llyfrgell yn fwy aml. Erbyn hyn, mae'n mynd i'r llyfrgell bob dydd. Mae hi wedi gwneud grŵp o ffrindiau y mae'n rhyngweithio'n rheolaidd â nhw, ac mae hyn wedi ei helpu i ennyn hyder o amgylch pobl eraill a themlo'n llai ynysig. Mae hefyd wedi cynyddu ei hymdeimlad o les

cymdeithasol. Er mwyn adeiladu ar lwyddiant y sesiynau Croeso Cynnes hyn, bydd sesiynau te a choffi am ddim yn parhau i gael eu cynnal mewn pedair llyfrgell am weddill y flwyddyn.

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau ynghlwm wrth y dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, o gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Bro Morgannwg ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle mae 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 o awdurdodau wedi cyflenwi data yn ddangosyddion lle nad oedd data perthnasol ar gael oddi wrth rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	24%	16/16	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	35%	16/16	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	99%	=4/16	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	85%	14/16	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	97%	=14/17	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	81%	13/16	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	95%	=15/17	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.0	=12/16	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	6	16/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	84	14/19	5	131	424
DA 6 mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen					
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	2,461	7/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	256	18/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	118	8/22	43	106.5	167
DA 10 Llyfrau Cymraeg a fenthycir fesul pen					
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	8.83	9/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael a gaiff ei ddefnyddio gan y cyhoedd	9%	=13/19	7%	11%	77%

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau ⁶²					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	165	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	14,014	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£15,350	5/21	£6,726	£11,476	£27,330
b) % ar staff,	63%	=13/21	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	9%	=16/21	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	2%	=16/21	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	26%	3/21	1%	15%	35%
c) cyfanswm gwariant fesul pen	£1,975	2/21	-£479	£145	£2,865
DA 15 Cost net am bob ymweliad ⁶³	£3.89	16/19	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ⁶⁴					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0.09%	13/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0%	=1/20	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae Bro Morgannwg islaw'r canolrif ar gyfer y rhan fwyaf o fesurau sy'n ymwneud â Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonwydd cwsmeriaid (DA2). Fodd bynnag, mae'n anodd dod i gasgliadau o'r canlyniadau hyn o ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r arolygon diwethaf gael eu cynnal. Mae'r gwasanaeth yn cyflawni'r DAau ar gyfer Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol (DA3) a Chefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant (DA4) yn llawn. Mae presenoldeb defnyddwyr mewn sesiynau hyfforddi ffurfiol ac anffurfiol islaw'r canolrif, er bod y gwasanaeth yn cyflawni'r canolrif ar gyfer canran mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau (DA5). Mae Bro Morgannwg yn nodi bod y cyllid grant ar gyfer llawer o sesiynau hyfforddi defnyddwyr wedi dod i ben a bod llai o sesiynau yn cael eu cynnal o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, mae sesiynau Galw Heibio Digidol yn cael eu cynnal gyda Hyrwyddwyr Digidol gwirfoddol mewn pum llyfrgell erbyn hyn, a rhagwelir y bydd y niferoedd yn cynyddu nawr bod y Lle Creu yn Llyfrgell y Barri ar agor.

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Bro Morgannwg uwchlaw'r canolrif ar gyfer presenoldeb fesul pen mewn digwyddiadau (DA6). Ymhlith y gweithgareddau a gynhelir mae jig-so, y dabler (*backgammon*), gwau, lliwio, grŵp gemau rhyfel i oedolion, clwb celf ar-lein a

⁶² Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.

⁶³ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau)

⁶⁴ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau)

sgyrsiau gydag awduron. Mae Bro Morgannwg uwchlaw'r canolrif ar gyfer ymweliadau fesul pen a benthycwyr gweithredol fesul pen (DA8). Fodd bynnag, mae islaw'r canolrif ar gyfer rhith-ymweliadau ac ar gyfer llyfrau oedolion a fenthycir fesul pen a llyfrau plant a fenthycir fesul pen.

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae Bro Morgannwg yn cyrraedd y targed ar gyfer caffaeliadau fesul pen ac mae gwariant ar ddeunyddiau fesul pen oddeutu'r canolrif (DA9). Fodd bynnag, mae cyfran y gyllideb a ddyrennir i adnoddau plant (16%) islaw'r canolrif. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyrraedd y targed ar gyfer y ganran sy'n cael ei gwario ar ddeunyddiau Cymraeg, ac mae'r gwariant fesul siaradwr Cymraeg uwchlaw'r canolrif (DA10). Er gwaethaf hyn, mae Bro Morgannwg islaw'r canolrif ar gyfer lefel y llyfrau Cymraeg a fenthycir. Mae'r gwasanaeth uwchlaw'r canolrif ar gyfer nifer y cyfrifiaduron personol fesul pen, ond yn is na'r canolrif ar gyfer canran yr amser sydd ar gael sy'n cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd (DA11). Nodir bod gostyngiad bach wedi bod yn nifer y cyfrifiaduron personol cyhoeddus bwrdd gwaith ers i'r dangosydd hwn gael ei gyflwyno ddiwethaf yn sgil y ffaith bod mwy o bobl yn dod â'u dyfeisiau eu hunain; effaith cadw pellter cymdeithasol yn ystod rhan o'r cyfnod adrodd; a'r ffaith nad yw cyfrifiaduron personol wedi bod ar gael oherwydd materion technegol. Mae tabledi Hublet wedi cael eu cyflwyno yn Llyfrgell y Barri a Llyfrgell Penarth, ac mae hyn wedi gwrthbwysu, i ryw raddau, y gostyngiad yn nifer y cyfrifiaduron personol bwrdd gwaith sydd ar gael. Nid yw Bro Morgannwg wedi cyrraedd y targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA12). Nodir bod y broses o symud ei ddyddiadau dyledus ymlaen yn awtomatig, a ddechreuwyd yn ystod Covid, wedi bod yn rhwystr o ran cyflenwi ceisiadau ar brydiau. Fodd bynnag, bydd y system hon yn dychwelyd i'r trefniadau a oedd ar waith cyn Covid o fis Gorffennaf 2023.

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae Bro Morgannwg yn cyrraedd y targed ar gyfer staff cymwysedig fesul pen ac mae yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer y mesur hwn (DA13). Er nad yw'r gwasanaeth yn cyrraedd y targed ar gyfer staffio cyffredinol fesul pen, mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn o hyd. Cafwyd rhywfaint o drosiant staff yn ystod y flwyddyn ac, yn gyffredinol, cafodd swyddi gwag eu llenwi gan staff dros dro a staff asiantaeth a rhoddwyd oriau ychwanegol i staff rhan-amser nes bod modd penodi i'r swyddi hynny. Cafodd dwy swydd lawnamser ar gyfer y Lleoedd Creu ym Mhenarth a'r Barri eu gwneud yn swyddi parhaol. Mae'r targedau ar gyfer hyfforddiant a rheolwr gweithredol cymwysedig yn cael eu cyflawni. Mae gwirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad sylweddol at y gwasanaeth, yn enwedig mewn llyfrgelloedd sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned; mae oriau gwirfoddolwyr yn cyfrif am gyfanswm o tua 1,900 o ddiwrnod gwaith y flwyddyn. Yr unig achosion o gau yn annisgwyl oedd y rhai yn Llyfrgell Penarth oherwydd bod y toiledau wedi gorlifo (DA16). Prynwyd gwasanaeth Open+ ar gyfer Llyfrgell Penarth. Fodd bynnag, oherwydd problemau technegol a staffio, nid yw'r gwasanaeth wedi gallu gweithredu. Mae Open+ yn Llyfrgell y Barri wedi dyddio erbyn hyn. Unwaith y bydd y problemau ym Mhenarth wedi cael eu datrys, rhagwelir y bydd fersiwn wedi'i diweddarau o'r system yn cael ei phrynu ar gyfer Llyfrgell y Barri.

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Bro Morgannwg yn cyfeirio at ei Gynllun Tîm blynyddol, sy'n nodi targedau a champau gweithredu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac yn nodi sut y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at gyflawni Gweledigaeth y Cyngor, sy'n gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rhoddir crynodeb o rai o'r enghreifftiau cynhwysfawr a ddarparwyd gan lyfrgelloedd Bro Morgannwg isod.

- Mae Lleuedd Creu yn cefnogi arloesedd a chreadigrwydd a ysgogir yn ddigidol. Maent yn rhoi mynediad i bobl i dechnolegau newydd ac offer o'r radd flaenaf na all llawer eu fforddio na chael mynediad iddynt fel arall.
- Mae sefydliadau partner, gan gynnwys Gyrfa Cymru, Cymunedau am Waith a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, yn defnyddio llyfrgelloedd i gyfarfod â chleientiaid yn unigol neu i hyrwyddo eu gwasanaethau drwy stondinau gwybodaeth, arddangosiadau a digwyddiadau.
- Roedd grantiau gan y mentrau Croeso Cynnes a Byw'n Iach yng Nghymru yn golygu bod y gwasanaeth yn gallu cynnig mwy o weithgareddau celf, crefft a lles dros y flwyddyn ddiwethaf, ochr yn ochr â the a choffi am ddim yn y rhan fwyaf o lyfrgelloedd.
- Mae'r gwasanaeth yn cefnogi gwirfoddoli drwy gynnig cyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr o ysgolion lleol, ymgeiswyr Gwobr Dug Caeredin, pobl sy'n ennill sgiliau cyflogaeth neu bobl sydd wedi ymddeol ac sydd eisiau gweithio i'r gymuned.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ddilynol, mae Bro Morgannwg yn rhagweld y bydd yr adran yn cael ei ailstrwythuro ar ôl ymddeoliad deiliaid swyddi allweddol. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod disgwyl iddo ddatblygu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a chwilio am fwy o gyfleoedd i gynhyrchu incwm. O ganlyniad, mae wedi adfer pob dirwy a thâl, ac o'r haf ymlaen, bydd tâl i fynychu llawer o weithgareddau. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu gosod ciosgau hunanwasanaeth Bibliotheca wedi'u diweddarau yn lle'r terfynellau hunanwasanaeth cyfredol, sy'n golygu y bydd modd talu â cherdyn credyd.

6. Casgliad

Mae Bro Morgannwg yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd ac mae uwchlaw'r canolrif ar gyfer awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru o ran presenoldeb fesul pen mewn digwyddiadau, ymweliadau fesul pen a benthychwyr gweithredol fesul pen. Mae hefyd yn perfformio'n dda o ran nifer y staff cymwysedig fesul pen. Mae'r strwythur staffio yn cael ei ategu gan nifer fawr o wirfoddolwyr. Fodd bynnag, mae yna bwysau ariannol ar y gwasanaeth a gofynnwyd iddo gynhyrchu mwy o incwm. Bydd angen monitro'r effaith y gallai cyflwyno taliadau i fynychu gweithgareddau a ffioedd/taliadau eraill ei chael. Mae'n bwysig bod Bro Morgannwg yn cynnal arolygon defnyddwyr – yn enwedig arolygon oedolion – yn ystod y flwyddyn sydd i ddod i gasglu adborth gan ddefnyddwyr.

Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Wreccsam

Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Wreccsam i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

1. Crynodeb gweithredol

Nododd Wreccsam ei fod wedi bodloni 5 o'r Hawliau Craidd yn llawn a 4 yn rhannol drwy hunanasesiad, gyda'r 1 Hawl Graidd sy'n weddill heb gael ei bodloni. Fodd bynnag, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 7 Hawl Graidd yn llawn a 3 yn rhannol. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, gwnaeth Wreccsam gyflawni 5 yn llawn a 3 yn rhannol. Ni chyflawnwyd un targed ac ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ar gyfer y dangosydd sy'n weddill.

Mae Llyfrgelloedd Wreccsam yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd, yn enwedig o ran caffaeliadau, benthyciadau iaith Gymraeg, ymrwymiad i hyfforddi staff a phresenoldeb mewn digwyddiadau. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd sy'n peri pryder, yn enwedig y ffaith mai dim ond yn rhannol mae Wreccsam yn bodloni nifer o'r Hawliau Craidd. Mae diffyg ymgynghoriad diweddar gan ddefnyddwyr yn bryder gan fod hyn yn amlwg yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i ddatblygu yn unol ag anghenion ei gymunedau. Mae'r wybodaeth a ddarperir am gyfeiriad Wreccsam yn y dyfodol yn awgrymu sawl newid sylweddol, er enghraifft, adleoli gwasanaethau, a bydd yn bwysig ystyried ymatebion defnyddwyr i'r cynigion hyn. Mae nifer o fylchau yn y data a ddarperir gan Wreccsam, ac mae gwybodaeth gyd-destunol gyfyngedig, sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r asesydd annibynnol wneud asesiad llawn o'r gwasanaeth.

- Mae digwyddiadau llyfrgell yn cael eu mynychu'n dda; mae presenoldeb fesul pen yn uwch na'r canolrif ac mae Wreccsam yn cyrraedd y targed ar gyfer DA6 yn llawn.
- Mae ymweliadau fesul pen, rhith-ymweliadau a benthycwyr gweithredol i gyd o dan y canolrif (DA8).
- Mae Wreccsam yn cyrraedd y targed ar gyfer caffaeliadau fesul pen (DA9).
- Cefnogir darpariaeth Gymraeg yn dda; mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y targed ar gyfer y canran o wariant deunyddiau sy'n cael ei wario ar ddeunyddiau Cymraeg ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau Cymraeg fesul pen (DA10).
- Nid yw Wreccsam yn cyrraedd y targedau ar gyfer darpariaeth staffio gyffredinol fesul pen nac ar gyfer staff cymwys fesul pen, ac mae'n is na chanolrif awdurdodau llyfrgelloedd Cymru ar gyfer y ddau fesur (DA13).

2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o

berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1. Hawliau craidd

Nododd Wrecsam ei fod wedi bodloni 5 o'r Hawliau Craidd yn llawn a 4 yn rhannol drwy hunanasesiad, gyda'r 1 Hawl Graidd sy'n weddill heb gael ei bodloni. Roedd y gwasanaeth yn darparu sylwebaeth fanwl a defnyddiol yn y datganiad ar bob maes a gwmpesir. Yn seiliedig, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 7 Hawl Graidd yn llawn a 3 yn rhannol.

Hawliau Craidd	Hunanasesu	Aseswr annibynnol
1. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno ac yn agored i bawb.	Bodlonwyd yn Llawn	Bodlonwyd yn Llawn
2. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys wrth law i helpu.	Bodlonwyd yn Llawn	Bodlonwyd yn Llawn
3. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad i ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau i gefnogi dysgu, lles a datblygiad personol, cyfranogiad cymunedol, a diwylliant a hamdden.	Bodlonwyd yn Llawn	Bodlonwyd yn Llawn
4. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol ar gyfer unigolion a grwpiau ag anghenion arbennig.	Bodlonwyd yn Llawn	Bodlonwyd yn Llawn
5. Bydd llyfrgelloedd yn darparu manau ffisegol diogel, deniadol a hygyrch priodol gydag oriau agor addas â staff.	Cyflawni'n rhannol	Bodlonwyd yn Llawn
6. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn darparu mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein sydd ar gael 24 awr y dydd.	Bodlonwyd yn Llawn	Bodlonwyd yn Llawn
7. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu defnydd am ddim o'r rhyngwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys Wi-Fi.	Cyflawni'n rhannol	Bodlonwyd yn Llawn
8. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad i wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.	Bodlonwyd yn Llawn	Bodlonwyd yn Llawn
9. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.	Bodlonwyd yn Llawn	Bodlonwyd yn Llawn
10. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi mwy o bobl i elwa o'u gwasanaethau.	Cyflawni'n rhannol	Cyflawni'n rhannol
11. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori'n rheolaidd â defnyddwyr i gasglu eu barn am y gwasanaeth a gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.	Heb ei gyflawni	Cyflawni'n rhannol
12. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at strategaeth, polisiâu, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd sy'n briodol i'r gymuned.	Cyflawni'n rhannol	Cyflawni'n rhannol

Yn achos CE5, cydnabyddir nad yw Wrecsam wedi cyrraedd y targed oriau agor, ond mae'r targed hwn wedi bod yn heriol i nifer o wasanaethau wrth i oriau agor addasu ar ôl Covid felly, er mwyn cysondeb, ni ddylid cosbi Wrecsam am hyn. Mae

Wrecsam yn ceisio ymateb i anghenion lleol, er enghraifft, drwy ddarpariaeth llyfrgelloedd dros dro. Yn achos CE7, er bod yr anawsterau TG a brofir gan Wrecsam yn cael eu cydnabod ac yn debygol o fod wedi effeithio ar ddarpariaeth ar adegau yn ystod y flwyddyn, mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y targedau ar gyfer DA11 ac yn adrodd bod mynediad at TG yn parhau i fod yn rhad ac am ddim. Mae Wi-Fi ar gael ar draws pob llyfrgell. Yn olaf, o ran CE11, er y byddai'r asesydd yn annog y gwasanaeth yn gryf i wella ei ymgynghoriad â defnyddwyr fel mater o frys, cynhaliwyd arolwg defnyddwyr oedolion o fewn cyfnod y Fframwaith, er nad oes arolwg plant wedi'i gynnal. Mae'r asesydd felly o'r farn bod yr Hawl Graidd hon wedi cael ei chyflawni'n rhannol.

2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, ac mae 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Wrecsam yn cyflawni 5 yn llawn a 3 yn rhannol. Ni chyflawnwyd un targed ac ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ar gyfer y dangosydd sy'n weddill.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n rhannol
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	x	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	x	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol ar iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach	√	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	√	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	Heb ei ddarparu	-
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Caffael fesul pen	√	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	-	
DA 10 Adnoddau yn Gymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar ddeunyddiau Cymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	-	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd	√	
ii) Darparu Wi-Fi	√	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n rhannol
(a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	x	
(a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
iv) Canran DPP	√	
DA 16 Oriau agor fesul pen	x	Heb ei gyflawni

2.3. Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi anelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Mae'r ffigyrau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n darparu data yn y datganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod eraill o bosibl wedi'u heffeithio gan amhariad yn ystod cyfnod y pandemig. O ganlyniad, mae cyfyngiadau i ba raddau y gellid ystyried cymharu'r data hyn.

Nododd Wrecsam nad oes arolwg wedi ei gynnal yn 2022-23. Oherwydd adolygiad parhaus o'r gwasanaeth llyfrgell, ystyriwyd ei bod yn amhriodol cynnal arolwg.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	Heb ei ddarparu	-	58%	90%	98%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	Heb ei ddarparu	-	41%	86.5%	96%
DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau.	Heb ei ddarparu	-	82%	96%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno datganiad effaith yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Wrecsam ddatganiad effaith yn canolbwyntio ar 'Grŵp Sgwrsio Cymraeg' a gychwynwyd ym mis Medi 2022 i'r rhai sy'n cael cyfleoedd cyfyngedig i siarad Cymraeg neu gyfleoedd cyfyngedig i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg. Mae'r grŵp yn cael ei redeg gan aelod o staff Llyfrgell Wrecsam sy'n siaradwr Cymraeg iaith gyntaf. Anogir aelodau'r grŵp i ddewis ffocws ar gyfer eu dysgu a all fod o fudd iddynt yn eu gweithgareddau bob dydd. Mae'r sesiynau'n anffurfiol ac yn gyfeillgar, yn cael eu cynnal mewn lle hamddenol ac anfeiriadol. Gan ddechrau gyda phum aelod, mae'r aelodaeth wedi cynyddu gyda dros 10 o bobl yn bresennol. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddwyr newydd y llyfrgell, rhai ohonynt wedi cofrestru fel aelodau o'r llyfrgell ac yn benthyg o'r casgliad Cymraeg. Oherwydd llwyddiant y grŵp, bydd amlder a hyd y cyfarfodydd yn cynyddu.

2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Wrecsam ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	Heb ei ddarparu	-	24%	69.5%	90%
c) iechyd a lles	Heb ei ddarparu	-	35%	66.5%	94%
d) yn lle diogel a chroesawgar	Heb ei ddarparu	-	93%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau	Heb ei ddarparu	-	80%	91%	99%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	Heb ei ddarparu	-	92%	98%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	Heb ei ddarparu	-	65%	86%	99%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	Heb ei ddarparu	-	94%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	Heb ei ddarparu	-	8.0	9.3	9.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr					
a) mynychwyr fesul pen	1	=21/22	1	10.5	222
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	Heb ei ddarparu	-	5	131	424
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen					
	222	8/22	13	165	559
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell					
a) ymweliadau fesul pen	1,401	19/21	781	2,106	4,814
b) rhith-ymweliadau fesul pen	124	22/22	124	537.5	7,979
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	98	=15/22	43	106.5	167
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen					
	77	8/22	13	53	864
DA 11 Mynediad ar-lein					
a) Cyfrifiaduron fesul 10,000	4.07	21/22	3.32	7.99	16.99
b) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	Heb ei ddarparu	-	7%	11%	77%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau ⁶⁵					
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	0	-	0	8	256
b) oriau gwirfoddolwyr	0	-	0	583.5	14,014
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	Heb ei ddarparu	-	£6,726	£11.476	£27,330
b) % ar staff,	Heb ei ddarparu	-	46%	64%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	Heb ei ddarparu	-	5%	12%	21%
% ar offer ac adeiladau	Heb ei ddarparu	-	1%	3%	29%
% ar gostau gweithredol eraill;	Heb ei ddarparu	-	1%	15%	35%
c) cyfanswm gwariant fesul pen	Heb ei ddarparu	-	-£479	£145	£2,865

⁶⁵Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys

Dangosyddion perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 15 Cost net am bob ymweliad ⁶⁶	Heb ei ddarparu	-	£0.41	£2.76	£6.22
DA 16 Oriau agor ⁶⁷					
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl	0.51%	20/22	0%	0.05%	0.95%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd ⁶⁸	Heb ei ddarparu	-	0%	0%	3.74%

3. Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Ni ddarperir unrhyw ddata ynghylch perfformiad DA1 neu DA2. O ran Cefnogaeth ar gyfer Datblygiad Unigol (DA3), nododd Wreccsam fod hyfforddiant i wella sgiliau ar sail ad hoc fel mae defnyddwyr yn cyflwyno anawsterau. Mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y targedau yn rhannol ar gyfer DA3. Darperir rhaglenni hyfforddi sgiliau digidol trwy sefydliadau eraill, er ei bod wedi bod yn her dod o hyd i ddarpariaeth / darparwyr hyfforddiant TG. Mae'r gwasanaeth yn nodi y gall y cyfleusterau TG cyfyngedig a'r wi-fi mewn llawer o lyfrgelloedd cangen ei gwneud hi'n anodd trefnu hyfforddiant. Mae Wreccsam yn is na'r canolrif ar gyfer mynychu hyfforddiant ffurfiol y pen ac ni ddarperir unrhyw ddata o ran hyfforddiant ffurfiol (DA5).

3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae presenoldeb fesul pen yn uwch na'r canolrif ac mae Wreccsam yn cyrraedd y targed ar gyfer y DA6 hwn yn llawn. Nid oes data ar gael ar gyfer lleoliad pwyntiau gwasanaeth (DA7). Mae ymweliadau fesul pen, rhith-ymweliadau a benthycwyr gweithredol i gyd o dan y canolrif (DA8). Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer e-fenthyciadau fesul pen ac yn agos at y canolrif ar gyfer benthyciadau plant.

3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae Wreccsam yn cyrraedd y targed ar gyfer caffaeliadau fesul pen (DA9). Mae hefyd yn cyrraedd y targed ar gyfer y canran o wariant deunyddiau sy'n cael ei wario ar ddeunyddiau Cymraeg ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau Cymraeg fesul pen (DA10). Mae Wreccsam yn is na'r canolrif ar gyfer nifer y cyfrifiaduron fesul pen (DA11). Fodd bynnag, nodir bod dyfeisiau mynediad cyhoeddus wedi'u cyflwyno dros y flwyddyn adrodd felly mae'r niferoedd wedi tyfu dros y flwyddyn, a bydd y ffigur yn debygol o gynyddu y flwyddyn nesaf gan fod iPads bellach wedi'u gosod ym mhob llyfrgell. Mae Wreccsam yn rhannol yn cyrraedd y targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA12), gan nodi y gall yr amser a gymerir i gludo eitemau y gofynnir amdanynt ledled Gogledd Cymru wneud y targedau hyn yn

⁶⁶ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

⁶⁷ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

⁶⁸ Nid yw Wreccsam yn gallu adrodd am oriau agor teithiol gan fod y gwasanaeth wedi cael ei dreialu'n raddol a'i gyflwyno yn 2022-23.

heriol i'w cyflawni mewn rhai achosion.

3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Nid yw Wreccsam yn cyrraedd y targedau ar gyfer darpariaeth staffio gyffredinol fesul pen nac ar gyfer staff cymwys fesul pen, ac mae'n is na chanolrif awdurdodau llyfrgelloedd Cymru ar gyfer y ddau fesur (DA13). Mae'n adrodd am ostyngiad mewn swyddi proffesiynol, a chredir ei fod yn annhebygol o newid. Fodd bynnag, mae gan y gwasanaeth reolwr gweithredol cymwys ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer canran yr amser staff a neilltuwyd i hyfforddiant. Nid yw llyfrgelloedd Wreccsam yn defnyddio gwirfoddolwyr. Nid yw Wreccsam yn cyrraedd y targed ar gyfer oriau agor (DA16). Roedd nifer o achosion o gau heb eu cynllunio oherwydd eira trwm. Ni ddarparwyd unrhyw ddata mewn perthynas â gwariant gweithredol (DA14) na chost fesul ymweliad (DA15).

4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Wreccsam yn cysylltu â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru sy'n fwy ffyniannus, cyfartal a gwyrdd. Mae'r enghreifftiau a ddarperir yn cynnwys y canlynol.

- **Dileu Anghydraddoldebau:** Dynodwyd llyfrgelloedd Wreccsam yn 'Hybiau Cynnes' mewn ymateb i'r Argyfwng Costau Byw ac Argyfwng Costau Ynni. Arweiniodd hyn at ddefnyddwyr newydd, presennol a hen ddefnyddwyr yn defnyddio llyfrgelloedd at amrywiaeth o ddibenion.
- **Hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru:** Amseroedd stori a rhigwm Cymraeg / dwyieithog; ymweliadau ysgolion Cymraeg â llyfrgelloedd; dau grŵp darllen Cymraeg; digwyddiadau awduron Cymraeg; Sesiynau Magi Ann / Seren a Sbarc; Cylchlythyr Cymraeg / Dwyieithog; a thudalennau cyfryngau cymdeithasol Cymraeg.

5. Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod i'r dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn ganlynol, mae Wreccsam yn tynnu sylw at y bwriad i adleoli ystafell chwilio gyhoeddus Archifau Wreccsam yn yr Hydref / Gaeaf 2023, y rhagwelir y bydd yn cryfhau'r cynnig llyfrgell i breswylwyr, ymwelwyr a chymunedau. Yn ogystal, nod y gwasanaeth yw ymchwilio i adleoli gwasanaethau, sefydliadau a busnesau eraill i mewn i adeiladau llyfrgell. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol pe bai gwybodaeth fwy eglur yn cael ei darparu am sut maen nhw'n bwriadu cyflawni hyn.

6. Casgliad

Mae llyfrgelloedd Wreccsam yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd, yn enwedig o ran caffaeliadau, benthyciadau iaith Gymraeg, ymrwymiad i hyfforddi staff a phresenoldeb mewn digwyddiadau. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd sy'n peri pryder, yn enwedig y ffaith mai dim ond yn rhannol mae Wreccsam yn bodloni nifer o'r

Hawliau Craidd. Mae diffyg ymgynghoriad diweddar gan ddefnyddwyr yn bryder gan fod hyn yn amlwg yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i ddatblygu yn unol ag anghenion ei gymunedau. Mae'r wybodaeth a ddarperir am gyfeiriad Wrecsam yn y dyfodol yn awgrymu sawl newid sylweddol, er enghraifft, adleoli gwasanaethau, a bydd yn bwysig ystyried ymatebion defnyddwyr i'r cynigion hyn. Mae nifer o fylchau yn y data a ddarperir gan Wrecsam, ac mae gwybodaeth gyd-destunol gyfyngedig, sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r asesydd annibynnol wneud asesiad llawn o'r gwasanaeth.